# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Mehefin 2017

Amser: 13.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (Rhag-gyfarfod preifat 13.45 - 14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi:

(14.00 - 14.05) (Tudalennau 1 - 4)

**Consortia Addysg Rhanbarthol: Gwybodaeth ychwanegol gan Llywodraeth Cymru (16 Mehefin 2017)**

(Tudalennau 5 - 22)

**Llywodraeth Cymru yn Ariannu Kancoat Ltd: Llythyr gan Llywodraeth Cymru (21 Mehefin 2017)**

(Tudalennau 23 - 27)

## 3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru: Sesiwn dystiolaeth

(14.05 - 15.45) (Tudalennau 28 - 117)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)-18-17 Papur 1 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-18-17 Papur 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-18-17 Papur 3 - Llythyr gan Llywodraeth Cymru (16 Mehefin 2017)
PAC(5)-18-17 Papur 4 - Llythyr gan Llywodraeth Cymru (21 Mehefin 2017)
PAC(5)-18-17 Papur 4A - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru (21 Mehefin 2017)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

PAC(5)-18-17 Papur 4B – Llythyr gan Llywodraeth Cymru i Gadeirydd y Pwyllgor (23 Mehefin 2017)
PAC(5)-18-17 Papur 4C – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru (23 Mehefin 2017)

James Price – Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru
Tracey Mayes – Pennaeth Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth, Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(15.45)

Eitemau 5, 6 a 7

## Egwyl (15.45 – 15.55)

## 5 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.55 – 16.15)

## 6 Cyfoeth Naturiol Cymru

(16.15 – 16.25) (Tudalennau 118 – 127)

PAC(5)-18-17 Papur 5 – Gwybodaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru
PAC(5)-18-17 Papur 6 – Llythyr drafft i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 7 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Trafod yr adroddiad drafft

(16.25 – 17.00) (Tudalennau 128 – 154)

PAC(5)-18-17 Papur 7 - Adroddiad drafft

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Mehefin 2017

Amser: 14.00 - 16.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/4112

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Rory Farrelly, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Mark Griffiths, Fferylliaeth Gymunedol Cymru<br>Karen Gully, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>Judy Henley, Fferylliaeth Gymunedol Cymru<br>Elen Jones, Fferylliaeth Gymunedol Cymru<br>Suzanne Scott-Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>Judith Vincent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |

| | |
|---|---|
| | Cheryl Way, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Allison Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau gan Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
1.3 Datganodd Lee Waters AC fuddiant yn sgil y ffaith bod ei wraig yn cael ei chyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Eitem 4).

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch yr heriau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu yn sgil y broses ddigideiddio, ac i roi gwybod iddi fod y Pwyllgor yn dymuno trafod y mater hwn â hi y tro nesaf y bydd yn dod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

## 2.1 Sesiwn gychwynnol: Gwybodaeth ychwanegol gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar ddigideiddio (1 Mehefin 2017)

## 3 Rheoli Meddyginiaethau: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn fel rhan o'i ymchwiliad i reoli meddyginiaethau: Judy Henley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Contractwyr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru; Mark Griffiths, Cadeirydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru; Elen Jones, Arweinydd Practis a Pholisi, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru; a Cheryl Way, Aelod o Fwrdd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (Prif Fferyllydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Swyddog Arweiniol Cenedlaethol Rheoli Fferylliaeth a Meddyginiaethau, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru).
3.2 Nododd y Pwyllgor fod Elen Jones yn bresennol yn lle Mair Davies, Cyfarwyddwr Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru, yn sgil ei salwch.

## 4 Rheoli Meddyginiaethau: Sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn fel rhan o'i ymchwiliad i reoli meddyginiaethau: Allison Williams, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Suzanne Scott-Thomas, Prif Fferyllydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; yr Athro Rory Farrelly, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro / Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; Judith Vincent, Cyfarwyddwr Clinigol Rheoli Fferylliaeth a Meddyginiaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; Carol Shillabeer, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; a Karen Gully, Cyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
4.2 Cytunodd Judith Vincent i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y gwaith y mae'r Athro Routledge yn ei hwyluso gydag arbenigwyr ynghylch derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau yng nghyd-destun diogelwch cleifion.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Rheoli Meddyginiaethau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Owen Evans**
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol / Deputy Permanent Secretary

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Mehefin 2017

Annwyl Nick

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Mai ac mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Mai gweler yn atodedig wybodaeth gan y consortia addysg rhanbarthol sy'n dangos i ba raddau y gwneir gwaith rhwng ysgolion ar draws y rhanbarthau. Mae pob rhanbarth wedi darparu trosolwg lefel uchel o'u gwaith rhwng ysgolion ac rwy'n atodi'r rhain yn (Dogfen 1).

Cytunais hefyd i rannu gyda chi'r gwelliant canrannol yn y prif bynciau TGAU ar gyfer ysgolion Her Ysgolion Cymru o gymharu ag ysgolion nad ydynt yn rhan o Her Ysgolion Cymru. Rwyf wedi atodi'r rhain yn (Dogfen 2).

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth bellach ynghylch y defnydd o Moodle. Menter sector preifat yw Moodle felly nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi pa wasanaethau y dylai ysgolion eu caffael ac felly nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth am gyfraddau defnydd neu gofrestru. Drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o dechnolegau digidol a ariennir yn ganolog ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru. Drwy'r ystod eang o adnoddau digidol sydd ar gael drwy blatfform Hwb, mae athrawon yn gallu sefydlu'r defnydd priodol o dechnoleg er mwyn trawsnewid eu harferion yn y dosbarth. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cynnig cyfleuster tebyg i Moodle i ysgolion.
Mae'r defnydd o blatfform Hwb wedi cynyddu'n gyson ers ei lansio ym mis Awst 2014, ac erbyn hyn mewngofnodir i'r safle ryw 28,000 o weithiau y diwrnod ac edrychir ar ryw 3.2m o'i dudalennau bob mis. Gallwn weld hefyd fod dros 84% o ysgolion ledled Cymru yn mewngofnodi 10 neu fwy o weithiau bob mis.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 5381
owen.evans3@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed mwy am ein hymweliad diweddar â'r Ffindir. Rwyf wedi atodi'r brif wybodaeth o'n hymweliad yn (Dogfen 3).

Yn eich llythyr dyddiedig 22 Mai gofynnwyd am eglurhad pellach o rôl y consortia addysg rhanbarthol yn yr academi arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd caiff y consortia eu cynrychioli ar Fwrdd Cysgodol yr Academi gan un o Reolwyr Gyfarwyddwyr y consortia – Debbie Harteveld o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Megis cychwyn y mae'r gwaith o ddatblygu'r Academi fel y cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Mai. Fel yr amlinellwyd, mae'r Bwrdd Cysgodol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer yr Academi ac maent wedi gwneud argymhelliad i Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r Academi gael ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant.

Bydd hyn yn galluogi strwythur llywodraethu hyblyg sy'n fwy addas ar gyfer cynrychiolaeth o'r sector, a fydd ar ffurf gyfreithiol a ffefrir gan y Comisiwn Elusennau, ac sy'n cyflogi staff yn ei rinwedd ei hun. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno i'r argymhelliad hwn ac wedi gofyn i swyddogion ddechrau ystyried yr amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen i sefydlu'r Academi, yng ngwanwyn 2018, fel cwmni cyfyngedig drwy warant. Y disgwyliad yw y bydd yr Academi yn sefydliad bach a hyblyg gyda bwrdd strategol bach, dan arweiniad prif weithredwr. Ein nod yw parhau i ymgynghori ar rôl a chylch gwaith llawn yr Academi a phrofi'r amserlenni ar gyfer y camau nesaf. Cynhelir cyfres o sioeau teithiol rhanbarthol felly yn ystod yr wythnos yn dechrau 12 Mehefin. Ein bwriad o hyd, yn seiliedig ar gyngor y Bwrdd Cysgodol, yw y bydd yr Academi yn: broceru ac yn sicrhau ansawdd ystod o raglenni; yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ar draws rhanbarthau; yn cefnogi arweinyddiaeth ar bob lefel; ac yn gweithio gydag eraill i nodi a chefnogi arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol. Mae'n rhy gynnar yn y broses o bennu cwmpas yr Academi i ddisgrifio'n llawn y rôl y gallai'r Consortia ei chwarae o fewn y sefydliad yn y dyfodol.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo ac wrth bennu ystod lawn y swyddogaethau ar gyfer yr Academi byddwn mewn sefyllfa well i ddisgrifio sut y gallai'r Academi a phrif randdeiliaid megis consortia gydweithio. Fodd bynnag, rydym ni a'r Bwrdd Cysgodol yn ymrwymedig i sicrhau bod yr Academi yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn cyfrannu at sicrhau cysondeb o fewn y system. Wrth inni symud ymlaen ac wrth i'r Academi gael ei chreu, gyda phenodiad ei bwrdd cwmni ffurfiol a Phrif Swyddog Gweithredol, cyfrifoldeb yr Academi ei hun fel sefydliad annibynnol fydd penderfynu ar lawer o'r materion hyn. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

Nodaf eich pryderon ynghylch y canfyddiad bod cohort cyfyngedig o ymgynghorwyr her cymwys a phrofiadol. Er bod rhagor o waith i'w wneud, credaf fod y pedwar rhanbarth yn parhau i wneud cynnydd yn hyn o beth ac maent wedi cryfhau eu cynigion. Datblygwyd y cynigion hyn gan ystyried ein nod ar gyfer system addysg hunanwella sy'n gofyn am symud o ddibyniaeth ar gefnogaeth ganolog ar gyfer gwelliant i fodel gan-ysgolion-ar-gyfer-ysgolion sy'n meithrin gallu ar gyfer cyflawni gwelliannau ar y cyd.
Yn y cyd-destun hwn, er enghraifft:

- Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn adolygu ei ddull o leoli ymgynghorwyr her ac yn ystyried cynnwys mwy o secondiadau gan benaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion effeithiol. Maent yn recriwtio'n weithredol i'w gweithlu ac yn cryfhau'r hyfforddiant i ymgynghorwyr her wrth symud ymlaen
- Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn parhau i feithrin gallu er mwyn darparu cymorth a her, gan sicrhau sefydlogrwydd wrth ddefnyddio ymgynghorwyr her mewn

ysgolion a sefydlu hyfforddiant a datblygiad i ganolbwyntio ar y prif sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Mae arolygon ysgolion annibynnol o fewn y rhanbarth yn dangos gwelliannau gwirioneddol yng ngwaith ymgynghorwyr her a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion i'w helpu i wella.

- Mae'r consortiwm Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) wedi sicrhau ymrwymiad ar draws ei awdurdodau lleol i sicrhau cyflenwad llawn o Ymgynghorwyr Her sy'n cyrraedd y Safonau Cenedlaethol gofynnol ac yn dilyn Cod Ymddygiad ERW. Yn ogystal, mae'n cryfhau ei ddulliau o leihau amrywioldeb yng ngwaith ymgynghorwyr her unigol, gan ddarparu hyfforddiant penodol, cyflwyno hunanarfarniadau i ymgynghorwyr her ac adolygu ei lawlyfr a chanllawiau i ymgynghorwyr her er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y galluoedd craidd sydd eu hangen ar gyfer y rôl.
- Yn yr un modd mae'r consortiwm Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE) yn cryfhau ei ddulliau o sicrhau gallu a safon ei ymgynghorwyr her, ac mae cynllun gwerthuso cadarn ar waith i asesu effaith ei raglen her a chymorth, a fydd yn llywio ei ddull gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Mae consortia yn gweithio ar y cyd ac yn cynllunio mewn partneriaeth i ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan rannu arbenigedd ac adnoddau lle y bo'n briodol. Bydd eu cynnydd ar y cyd tuag at sicrhau safon a nifer yr ymgynghorwyr her yn parhau i gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, drwy'r broses o gyflawni eu cynlluniau busnes ac yn ystod cyfarfodydd Her ac Adolygu.

Rwy'n hyderus bod gan y consortia y gallu a'r cymhwysedd i ddarparu ar lefel strategol a byddwn yn parhau i gefnogi eu hymgynghorwyr her drwy ystod o ddulliau cymorth hyfforddi cenedlaethol.

O ran eich pwynt ynglŷn â phriodoli canlyniadau i gonsortia, mae'n bwysig yn gyntaf cydnabod bod gwell canlyniadau fel arfer yn deillio o gyfraniad ar y cyd pob un o'r partneriaid yn y system. At hynny, anaml iawn y gellir priodoli canlyniadau i un sefydliad yn unig, o fewn unrhyw fodel gwerthusol. Serch hynny, credaf na ellir tanseilio nac anwybyddu rôl consortia wrth gefnogi ysgolion i wella. Clywsoch fod y consortia i gyd yn atgyfnerthu eu dulliau o werthuso effaith eu gwaith a byddwn yn dadlau bod angen rhoi digon o gyfle ac amser i'r ymdrechion hyn ddwyn ffrwyth. Byddwn yn monitro eu cynnydd.

O ran y canfyddiad bod diffyg eglurder ynghylch rôl consortia, rhaid gwneud mwy er bod hon yn sefyllfa sy'n gwella ledled Cymru. Mae angen i'r consortia barhau i wneud mwy o'r hyn y maent yn ei wneud eisoes – cynyddu eu hymgysylltiad â'r sector. Gwyddom eu bod yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, yn cynnwys arolygon, trafodaethau wyneb yn wyneb, digwyddiadau, cylchlythyron, a chyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae gan bob un ohonynt grwpiau Penaethiaid sefydledig a rhwydweithiau gwella ysgolion y gellir adeiladu arnynt a'u hymestyn i rannau eraill o'r proffesiwn. Bydd y camau hyn yn helpu i wella'r dull o frandio gwaith y consortia o fewn pob rhanbarth ynghyd â gwella'r ymwybyddiaeth ohono.

Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, a lle y ceir dryswch o hyd ynghylch rolau, cyfrifoldebau, ac atebolrwydd, mae'r gwaith o ailysgrifennu'r Model Cenedlaethol a'r adolygiad sylfaenol o'n systemau atebolrwydd yn rhoi cyfle i ddarparu mwy o eglurder. Gwneir hyn ar y cyd â rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r system.

Er hyn, yn y cyfamser mae sawl ffordd y gall y cyhoedd weld setiau data mewn perthynas â pherfformiad ysgolion ym mhob rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau Llywodraeth

Cymru megis Fy Ysgol Leol, StatsCymru, Cyhoeddiadau Ystadegol, a cheisiadau am ddata penodol a thrwy wefannau consortia unigol.

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb fel Pwyllgor a gobeithiaf y bydd yr uchod yn ateb eich cais am wybodaeth bellach.

Yn gywir

**Owen Evans**

**Trosolwg lefel uchel o weithio ysgol i ysgol**

**Rhanbarth: GwE**

| AGWEDD | ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR |
|---|---|
| **Gwella ysgol** | • Gweithdai Adroddiad Hunan Arfarnu a Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) wedi'u cysylltu â fframwaith newydd ESTYN a blaenoriaethau cenedlaethol/rhanbarthol/Awdurdodau Lleol. Penaethiaid ac Uwch Dimau Arwain mewn sesiwn rhannu arferion da a gweithdai cyd-lunio dogfennau.<br>• Ysgol Uwchradd yn cefnogi ysgol gynradd gyda blaenoriaethau cynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn, h.y. Ysgol Bryn Elian efo Ysgol Hen Golwyn ac Ysgol Sŵn y Don.<br>• Pennaeth ar secondiad/wedi'i gomisiynu i weithio gyda Phennaeth angen cymorth h.y. Pennaeth Ysgol Trefriw yn gweithio am ddiwrnod yr wythnos gyda Phennaeth Ysgol Llanddoged /Ysgol Ysbyty Ifan ar faterion gwella ysgol.<br><br>• (Grŵp o ysgolion Categori Melyn): Yr Hendre, Y Gelli, Cymerau, Dolbadarn. Gweler Arweinyddiaeth isod. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau monitro a chynllunio strategol. |
| **Cefnogaeth Gwricwlaidd** | • Rhannu staff ysgolion – adnabod unigolion i'w secondio mewn ysgolion sydd angen cymorth h.y. dirprwy Ysgol Bodafon ar secondiad yn Ysgol Sŵn y Don i arwain ar Ddysgu ac Addysgu/Ymddygiad.<br>• Ffeirio athrawon rhwng amryw o ysgolion cryf – rhannu arbenigedd.<br>• Cyd gynllunio cynlluniau gwaith a gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd h.y. Dyffryn Conwy ac ysgolion clwstwr.<br>• Ymarferwyr neu arweinwyr canol wedi'u hadnabod i dargedu ymyrraeth a chefnogaeth mewn ysgolion ble mae angen gwelliant. |
| **Arweinyddiaeth** | • Partneriaethau cydweithredol rhwng Penaethiaid h.y. cynghrair traws Awdurdodau Lleol i ysgolion sy'n edrych ar amddifadedd trefi arfordirol – cyswllt â chadwyn academi Blackpool.<br>• Cydweithio clwstwr h.y. Cymuned Dysgu Rhyl – YH yn rhan o'r grŵp. Prosiectau Ymchwil Gweithredol.<br>• Grŵp arweinyddiaeth Uned Cyfeirio Disgyblion i |

| | |
|---|---|
| | edrych ar ddatblygiad ysgol, addysgeg a strategaethau ymddygiad. Cynllun gweithredu ar y cyd i roi sylw i anghenion cefnogaeth cyffredin.<br><br>• Grwpiau cydweithio Penaethiaid ar draws Awdurdodau Lleol h.y. tracio Grant Datblygu Disgyblion (GAD) ac arfarnu ymyraethau – rhannu arferion da a chreu offeryn tracio GAD.<br><br>• Mentora staff Uwch Dim Arwain (UDA) newydd gan aelodau UDA effeithiol sydd wedi ennill eu plwyf h.y. Uwchradd Rhyl/Brynhyfryd.<br><br>• (Grŵp o ysgolion categori melyn): Yr Hendre, Y Gelli, Cymerau, Dolbadarn. YH yn hwyluso ac yn seiliedig ar: blaenoriaethau CDY cyffredinol – datblygu arweinyddiaeth. Cyfarfodydd a thasgau yn ôl yn eu hysgol i wella arweinyddiaeth, monitro ansawdd, adroddiadau ac ati. Cynnwys Llywodraethwyr.<br><br>• Amrywiol Raglenni Datblygu yn sefydlu partneriaethau ysgol i ysgol yn canolbwyntio ar rwydweithiau cefnogi arweinyddiaeth cyfoed-i-gyfoed. |
| **Dysgu ac Addysgu** | • Grwpiau cynllunio ac asesu. Ysgolion cynradd yn asesu darnau gwaith efo'i gilydd i helpu gyda safoni a chyd-gynllunio camau nesaf. Hyn wedi digwydd mewn mathemateg, Cymraeg a Saesneg.<br>• Amryw o grwpiau cydweithio ymchwil gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ymyraethau h.y. Safmeds, headsprout, strategaethau ymddygiad cadarnhaol.<br>• Prosiect cydweithio cymorthyddion dysgu. Rhaglen OLEVI Outstanding Teaching Assistant Programme (OTAP). Ymweliadau gan y naill a'r llall a phrosiectau ysgol a chyflwyniadau rhwng ysgolion.<br>• Prosiectau cydweithio Addysgu Rhagorol. Ymweliadau gan y naill a'r llall a phrosiectau ysgol a chyflwyniadau rhwng ysgolion.<br>• Grŵp cydweithio Ysgol Eglwys yn edrych ar gyd-gynllunio llythrennedd a rhifedd mewn Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynorthwyir gan yr eglwys.<br>• (2 ysgol): Ysgol yr Hendre, Ysgol y Gelli: YH yn hwyluso cydweithio agos ar brosiect gwella ansawdd dysgu ac addysgu gyda phwyslais arbennig ar Asesu ar gyfer Dysgu. |

| | |
|---|---|
| | • (Grŵp o Ysgolion Categori Melyn-Gwyrdd): (Eifion Wyn, Y Traeth, Bro Tryweryn, Talsarnau, Cefn Coch, Maenofferen). Gweithgareddau, cyfarfodydd gyda'r pwyslais ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu.<br><br>• (Grŵp o ysgolion Categori Gwyrdd-Melyn). (Bryngwran, Y Ffridd, Goronwy Owen, Ffrwd Win, Parc y Bont) Gweithgareddau, cyfarfodydd gyda phwyslais ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu/darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Mae pob ysgol wedi cynnal diwrnodau agored i aelodau eraill o'r grŵp ymweld. Cyfarfodydd dilynol i drafod yr ymweliadau a phenderfynu ar sut i weithredu yn yr ysgolion unigol.<br><br>• Amrywiol Raglenni Datblygu wedi sefydlu partneriaethau ysgol i ysgol yn canolbwyntio ar rwydweithiau cefnogi dysgu ac addysgu cyfoed-i-gyfoed. |

**Trosolwg lefel uchel o weithio ysgol i ysgol**

**Rhanbarth: ERW**

| AGWEDD AR: | ENGHREIFFTIAU O FODELAU A DDEFNYDDIR AR GYFER YSGOL I YSGOL |
|---|---|
| **Wella ysgolion** | Partneriaethau ffurfiol, paru ysgolion ar gyfer cymorth hanfodol.<br>Partneriaethau ffurfiol, lefel uchel, hir-dymor, yn canolbwyntio ar wella ysgolion ac sy'n cynnwys uwch-arweinwyr ac arweinwyr canol.<br>Mae ysgolion arweiniol yn rai sy'n perfformio'n dda ac yn medru estyn cefnogaeth i ysgolion sy'n peri pryder.<br>Mae'r holl ysgolion uwchradd sy'n peri pryder ynghlwm (â'r broses). Mae'r effaith ar ganlyniadau ac ar adeiladu capasiti yn yr ysgol yn dda.<br><br>Gwelliant cydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig i godi safonau, sydd wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW.<br>Mae gan Ysgolion Arweiniol feysydd o gryfder allweddol. Caiff ysgolion eu hariannu i ddarparu diwrnodau mewnol, diwrnodau hyfforddiant, a chymorth i ysgolion eraill. Mae Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn cael eu hadnabod yn benodol mewn ardaloedd lle mae gan ERW gapasiti cyfyngedig a lle bo'r angen. Ceir effaith amrywiol, gan fod y lefel o ymgymryd gyda'r gwaith yn amrywio.<br><br>Mae DOLEN yn ffynhonnell o wybodaeth am ymarferion effeithiol ac ymarfer werth rhannu, sydd ar gael arlein ar gyfer ysgolion. Mae'n gyfeiriadur sy'n cwmpasu'r cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth. |
| **Gymorth Cwricwlwm/ Addysgu a Dysgu** | Mae'r rhaglen Arweinwyr Dysgu yn defnyddio ymarferwyr presennol credadwy yn ysgolion i ddarparu cymorth i bynciau craidd ar gyfer pob ysgol uwchradd.<br><br>Defnyddir yr un model ar gyfer gwyddoniaeth yn y Cynradd.<br><br>Gwelliant gydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig, i godi safonau wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW.<br>Caiff ysgolion eu hariannu i ddarparu diwrnodau mewnol, diwrnodau hyfforddiant, a chymorth i ysgolion eraill. Mae Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn cael eu hadnabod yn benodol mewn ardaloedd lle mae gan ERW gapasiti cyfyngedig a lle bo'r angen.<br><br>Rhwydweithiau cymorth ar gyfer holl bynciau craidd a phynciau di-graidd. Pob un yn cael eu cefnogi gan feysydd cyd-weithio ac adnoddau eraill Hwb. |

| | |
|---|---|
| | DOLEN – gweler uchod.<br><br>Mae'r paru o ysgolion neu adrannau ar gyfer cydweithio lefel pwnc neu lefel adrannol wedi'i ffocysu ac yn effeithiol iawn,  yn enwedig ar gyfer ysgolion neu athrawon sydd wedi eu hynysu'n fwy. |
| **Arweinyddiaeth** | Gwelliant gydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig, wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW.<br>(Bydd y maes yma'n un allweddol am gynyddu capasiti yn 2017-2018 i gydmyffurfio gyda Ysgol Gefnogaeth ERW)<br><br>Mae'r holl gynnigion hyfforddiant i arweinwyr canol ac uwch-arweinwyr ERW yn cael ei arwain a'i hwyluso gan ysgolion.  Mae arweinwyr ysgol presennol wedi cynllunio a darparu'r set gyfan o raglenni ar gyfer grwpiau sy'n datblygu a'r darpar-grwpiau.  Mae'r effaith yn dda ac mae'r adborth yn ardderchog, oherwydd hygrededd yr arweinwyr effeithiol i rannu ymarfer bresennol a phrofiadau go iawn.<br><br>Dylunio a darparu modiwlau AU ar gyfer arweinwyr ysgol e.e. ar Gynllunio'r Cwricwlwm ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus.  Yn yr un modd, ar gyfer Adnoddau Dynol a rheoli perfformiad hefyd.<br><br>Bwrdd Penaethiaid ERW – rhan o strwythur llywodraethu ERW.<br><br>DOLEN – gweler uchod.<br><br>Mae cydweithio ar draws y rhanbarthau ar gyfer ysgolion 3-18 yn hwyluso'r maes twf allweddol yma.  Mae ysgolion yn arwain wrth sicrhau fod pob math o ddysgu wedi ei gyd-gysylltu ac yn cael ei hwyluso ar y cyd. |

**Trosolwg Ysgol i Ysgol**

<table>
<tr><td colspan="2">Her Canol De Cymru</td><td>Partneriaeth yw Her Canol De Cymru sy’n cynnwys dros 400 o ysgolion yn cydweithredu i ddatblygu system sy’n hunanwella. Mae model gwella ysgolion Canol De Cymru yn seiliedig ar welliant a yrrir gan ysgolion i ysgolion. Yn y model hwn, bydd adnoddau canolog yn canolbwyntio fwyfwy ar ysgolion bregus tra bydd y rhai eraill yn arwain eu gwelliannau eu hun ac yn cael eu dal i gyfrif am effaith eu gwaith.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Grwpiau Gwella Ysgolion (GGYau)</td><td>Mae’r holl ysgolion mewn grwpiau gwella trawsranbarth. Pwrpas y GGYau y gweithio ynghyd i adnabod arfer orau, ei datblygu a’i rhannu ar draws pob ysgolion mewn modd sy’n fuddiol i bob ysgol yn y GGY. Mae pob GGY yn cynnwys ysgolion o Awdurdodau Lleol gwahanol mewn lleoedd gwahanol ar eu taith ddysgu ac sydd â disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd gwahanol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ysgolion Braenaru</td><td>Partneriaethau yw’r ysgolion braenaru, sy’n cael eu brocera rhwng dwy ysgol lle mae ysgol yn cefnogi ysgol arall i wella. Mae effaith gwella ar y ddwy ysgol yn cael ei mesur. Parau mwy dwys o ysgolion ydyn nhw sy’n datblygu maes penodol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymholiad Cymheiriaid</td><td>Bydd tîm o dri arweinydd ysgol – dau bennaeth ac un uwch arweinydd – yn ymweld ag ysgol dros 2 ddiwrnod, yn dathlu ymarfer effeithiol ac yn awgrymu 2 neu 3 linell ymholi fel blaenoriaeth sy’n gysylltiedig â gwella ysgolion i helpu symud yr ysgol ymlaen. Mae’r ymholiad yn cael ei gynnal gydag ysbryd o gefnogaeth a gonestrwydd beirniadol.</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Hybiau Gwella</td><td>Hybiau Dysgu Proffesiynol</td><td>Rôl yr hybiau dysgu proffesiynol yw ymgysylltu â cherrig milltir y continiwm dysgu proffesiynol o ran dysgu ac addysgu. Meysydd ffocws:<br>• Rhaglen addysgeg Addysgu Gychwynnol Athrawon (a ddarperir mewn ysgolion arweiniol dan fathodyn Sefydliad Addysgu Uwch)<br>• Rhaglen ymsefydlu ANGau<br>• Datblygu/mireinio ymarfer<br>• Uwch arweinwyr ac arweinwyr canol y dyfodol<br>• Rhaglenni penaethiaid<br>• Rhaglenni dysgu ac addysgu craidd<br>• Rhaglenni gwella ysgol gyfan craidd<br>• Cryfhau cysylltiad ag Arloeswyr Donaldson</td></tr>
<tr><td>Hybiau Cwricwlwm</td><td>Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyflwyno agweddau ar anghenion y rhanbarth o fewn maes cwricwlwm. Meysydd ffocws:<br>• Grwpiau ymchwil gweithredu ar feysydd anghenion rhanbarthol<br>• Hwyluso grwpiau arweinyddiaeth<br>• Cyfranogi mewn grwpiau datblygu cwricwlwm<br>• Cefnogaeth i adrannau mewn ysgolion coch ac ambr<br>• Cynnal cyfarfodydd rhwydwaith<br>• Cryfhau cysylltiadau ag Arloeswyr Donaldson</td></tr>
<tr><td>Ymarferwyr Arweiniol</td><td>• Ymarferwyr di-graidd yw ymarferwyr arweiniol sydd â chefndir profedig yn eu maes cwricwlwm ac yn dymuno cefnogi athrawon eraill yn y rhanbarth<br>• Caiff ymarferwyr arweiniol eu comisiynu gan ymgynghorydd strategol y Consortiwm i gefnogi ysgolion eraill trwy wella eu darpariaeth, eu harfer a’u deilliannau yn y pwnc<br>• Bydd ymarferwyr arweiniol hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhwydwaith yn y rhanbarth er mwyn hwyluso rhwydweithio, rhannu diweddariadau a chyfleoedd i rannu arfer<br>• Hwyluso dysgu a arweinir gan ymholiad<br>• Cefnogi datblygiad arweiniad<br>• Cymryd rhan mewn/ hwyluso grwpiau datblygu cwricwlwm<br>• Cefnogi adrannau/ athrawon mewn ysgolion coch ac ambr<br>• Cynnal / cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydwaith<br>• Archwilio cysylltiadau ag Arloeswyr Donaldson</td></tr>
</table>

**Trosolwg lefel uchel o gydweithredu ysgol i ysgol**

**Rhanbarth: Consortiwm Canolbarth y De**

| AGWEDD | ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR |
|---|---|
| **Gwella ysgolion** | Ysgolion Braenaru: 42 o ysgolion sy’n ymwneud â chefnogi 46 ysgol ym mhartneriaethau carfan 4 sy’n canolbwyntio ar feysydd datblygu penodol. Mae carfan 5 ar y gweill<br><br>Ymholiad Cymheiriaid: mae 100 ysgol cymryd rhan mewn ymholiad cymheiriaid<br><br>Hybiau: fel rhan o'u cytundeb lefel gwasanaeth, mae’r hybiau wedi darparu dros 170 diwrnod o gymorth i ysgolion coch/ambr |
| **Cymorth Cwricwlwm** | Hwb: 94 o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy’n cael eu cynnig gan 43 ysgol. |
| **Arweinyddiaeth** | Rhaglenni arweinyddiaeth sy’n cael eu cynnig gan ysgolion ‘hwb’ CCD.<br>- Arweinwyr Canol y dyfodol (cyfrwng Cymraeg cynradd)<br>- Arwain a Rheoli Newid (rhaglen arweinyddiaeth cynnar & chanol, traws-gyfnod)<br>- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (uwchradd)<br>- Darpar Arweinwyr Canol y Dyfodol (uwchradd)<br>- Arweinwyr Canol Presennol (uwchradd)<br>- Rhaglen Arweinwyr Uwch y dyfodol (uwchradd)<br>- Cyrraedd Da ac Ymlaen at Ragorol – uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (uwchradd)<br>- Arweinyddiaeth Ddosbarthedig – Meithrin Gallu – i benaethiaid / Therapi Iaith a Lleferydd. (cynradd)<br>- Darpar Benaethiaid<br>- Arweinwyr y Dyfodol - Cynradd<br>- Arweinwyr y Dyfodol mewn Ysgolion Arbennig<br><br>Mae ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gweithredu fel un grŵp i adnabod meysydd lle mae ymarfer effeithiol yn bodoli yn eu sector; yn paratoi rhaglenni dysgu/hyfforddiant i’w cynnig i bob ysgol (gan gynnwys y brif ffrwd)<br><br>Hwb cyfrwng Cymraeg uwchradd Gyda’n Gilydd. Mae holl brifathrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn cytuno ar anghenion datblygu’r sector (yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth arall); yn adnabod ac ariannu ymarferwyr/ ysgolion sydd â’r arfer orau i gynllunio a |

| | |
|---|---|
| | darparu rhaglenni dysgu proffesiynol sydd wedyn yn cael eu cynnig i'r holl ysgolion.<br><br>Model 'Gyda'n Gilydd' i'w dreialu gydag 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn 2017/2018.<br><br>Rhaglen Ymholiad Cymheiriaid CCD (proses ymholi dan arweiniad penaethiaid mewn ysgolion cydweithwyr). Mae 24% o ysgolion CSC (100 ysgol) wedi cynnal ymholiad cymheiriaid. Mae tîm ymholi'r ysgol letyol yn cynnal ymweliad dilynol blwyddyn ar ôl yr ymholiad greiddiol. |
| **Dysgu ac addysgu** | Hybiau Dysgu Proffesiynol: Cynigwyd 13 cyfle datblygiad proffesiynol cynradd (rhai mewn partneriaethau), a 12 cyfle uwchradd gan ysgolion CCD. Mae'r rhain yn cefnogi datblygu addysgeg yn ogystal ag arwain dysgu ac addysgu. Mae'r ysgolion yn hwyluso rhwydweithiau o fewn y rôl hwn.<br><br>Ysgolion Arloesol Dysgu Proffesiynol: Mae 14 o ysgolion arloesol cynradd ac 9 uwchradd. Mae'r rhain yn treialu elfennau sy'n gysylltiedig â Dyfodol Llwyddiannus, yn enwedig y Safonau Proffesiynol ac Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol trwy'r system hybiau i ddatblygu addysgeg. Maent yn hwyluso rhwydweithiau amrywiol o fewn y rôl hon.<br><br>Ysgolion creadigol arweiniol: Mae 64 ysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen Ysgolion Creadigol; mae 43 ysgol ychwanegol wedi derbyn ariannu grant ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r ysgolion hyn wrthi'n archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio prosesau creadigol ac addysgeg, gan gynnwys ymgysylltu ag artistiaid, i ddarparu themâu amlddisgyblaeth. |

**Strategaethau sy'n mynd i'r afael â nifer o'r agweddau uchod:**

**Grwpiau Gwella Ysgolion (SIG):** Mae 322 ysgol gynradd ynghlwm â 32 SIG, ac mae 68 ysgol uwchradd ynghlwm â 6 SIG. Maent yn canolbwyntio ar amrywiaeth o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynnwys llythrennedd, rhifedd, lles, addysgeg dyfodol llwyddiannus a'r DCF. Mae'r grwpiau hyn gweithio ar draws y rhanbarth ac yn cynnwys ysgolion o gyd-destunau gwahanol. Yn yr ysgolion uwchradd, mae'r ffocws ar baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r newidiadau a ddaw yn sgil newidiadau i gymwysterau.

**Trosolwg lefel uchel o weithio Ysgol i Ysgol**

**Rhanbarth:** Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru

| ELFEN | ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR |
|---|---|
| **Gwella Ysgolion** | Penaethiaid Uwchradd a Therapyddion Lleferydd ac Iaith i gyd yn ymwneud â rhwydweithiau datblygu arweinyddiaeth<br><br>Gweithgarwch Rhwydweithiau Arweinyddiaeth Cynradd ac Adolygiadau gan Gymheiriaid<br><br>Partneriaethau Mentor Ysgolion wedi eu cysylltu ag angen penodol yr ysgol<br><br>Mae pob Clwstwr (yn cynnwys Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) wedi cytuno ar gynlluniau i ddatblygu strategaethau allweddol e.e. llythrennedd, rhifedd, lles, a chyflwyno'r cwricwlwm newydd<br><br>Penaethiaid Cynradd yn cyflawni rôl y Cynghorwyr Her ar draws y rhanbarth. |
| **Cymorth Cwricwlwm** | 56 o Brif ysgolion/ymarferwyr y Rhwydwaith yn cefnogi ysgolion eraill i ddatblygu:<br><br>- Cynradd: Llythrennedd (cyfrwng Cymraeg a Saesneg), Rhifedd, Gwyddoniaeth, STEM, Lles a Thegwch, Cyfnod Sylfaen<br><br>- Uwchradd: Yr holl bynciau craidd a llawer o'r pynciau di-graidd, Tegwch a Lles, Dyfodol Byd-eang a STEM<br><br>- Rhaglen gymorth Bagloriaeth Cymru a gyflwynir gan ysgolion<br><br>- Datblygu cefnogaeth ar gyfer cymwysterau TGAU newydd<br><br>Ysgolion Arloesi Cwricwlwm yn cefnogi'r broses o ehangu'r Agenda Dyfodol Llwyddiannus ar draws y rhanbarth. |
| **Arweinyddiaeth** | Mentora a hyfforddiant pwrpasol a ddarperir gan arweinwyr ar gyfer arweinwyr (gan gynnwys Cadeiryddion Llywodraethwyr)<br><br>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r holl raglenni arweinyddiaeth ar gyfer y rhanbarth bron<br><br>Rhaglenni cymorth cymheiriaid fel sy'n ofynnol |
| **Addysgu a Dysgu** | Mentora a hyfforddiant pwrpasol a ddarperir gan athrawon ar gyfer athrawon<br><br>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r holl raglenni addysgu<br><br>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r rhaglenni ar gyfer cynorthwywyr addysgu (newydd ei gyflwyno)<br><br>Cydweithredu ar ddigwyddiadau rhannu arferion gorau |

- Mae mwy na 70% o'r Ddarpariaeth Dysgu Proffesiynol ar gyfer y rhanbarth yn cael ei chyflwyno gan ysgolion ar gyfer ysgolion
- Mae'r uchod yn enghreifftiau o weithgarwch ysgol i ysgol. Yn ystod 2016/2017, cynhaliwyd mwy na 1500 o elfennau gweithgarwch rhwng ysgolion.

## Cyflawniad canrannol ysgolion uwchradd prif ffrwd ar gyfer pynciau allweddol y

Yn seiliedig ar ddisgyblion blwyddyn 11 ar gyfer 2015/16, mae'r blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar y disgyblion
Dangosydd Pwnc Craidd: A* i C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

| | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Saesneg | | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Cymraeg | | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Mathemateg | | Canran y di llwyddo i mewn Gw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Ysgolion HYC | Ysgolion heb fod yn HYC | Ysgolion HYC | Ysgolion heb fod yn HYC | Ysgolion HYC | Ysgolion heb fod yn HYC | Ysgolion HYC |
| 2014 | 56.1 | 70.7 | 56.3 | 74.2 | 51.3 | 66.0 | 79.8 |
| 2015 | 59.2 | 73.3 | 55.0 | 75.6 | 54.0 | 68.7 | 81.4 |
| 2016 | 61.5 | 74.2 | 68.2 | 75.7 | 59.2 | 71.6 | 78.1 |
| Gwelliant o ran pwyntiau canrannol rhwng 2014 a 2016 | 5.5 | 3.5 | 11.9 | 1.5 | 7.9 | 5.6 | -1.7 |

Ffy

## Cyflawniad canrannol disgyblion FSM mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd ar gy

| | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Saesneg | | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Cymraeg | | Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Mathemateg | | Canran y di llwyddo i mewn Gw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Ysgolion HYC | Ysgolion heb fod yn HYC | Ysgolion HYC (a) | Ysgolion heb fod yn HYC | SCC schools | Ysgolion heb fod yn HYC | SCC schools |
| 2014 | 34.5 | 43.7 | 40.0 | 48.8 | 28.9 | 38.5 | 67.0 |
| 2015 | 38.2 | 50.0 | 40.0 | 51.8 | 32.9 | 43.6 | 70.1 |
| 2016 | 41.2 | 51.3 | 40.0 | 51.0 | 40.1 | 46.7 | 68.1 |
| Gwelliant o ran pwyntiau canrannol rhwng 2014 a 2016 | 6.7 | 7.6 | 0.0 | 2.2 | 11.2 | 8.2 | 1.1 |

Ffy

(a) Cymerwch ofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn am eu bod yn seiliedig ar gohortau bach (rhwng 5 a 10

**yn unol â statws Her Ysgolion Cymru (HYC).**

hynny sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd

| sgyblion sy'n gael A* i C yddoniaeth | Canran y disgylion sy'n llwyddo i gael Dangosydd Pwnc Craidd | |
|---|---|---|
| Ysgolion heb fod yn HYC | Ysgolion HYC | Ysgolion heb fod yn HYC |
| 86.3 | 41.7 | 57.6 |
| 88.3 | 43.4 | 60.0 |
| 87.0 | 46.9 | 62.8 |
| 0.7 | 5.2 | 5.2 |

ıhonnell: cronfa ddata arholiadau Cymru

**yfer pynciau allweddol yn unol â statws Her Ysgolion Cymru (HYC).**

| sgyblion sy'n gael A* i C yddoniaeth | Canran y disgylion sy'n llwyddo i gael Dangosydd Pwnc Craidd | |
|---|---|---|
| Ysgolion heb fod yn HYC | SCC schools | Ysgolion heb fod yn HYC |
| 76.1 | 21.2 | 30.1 |
| 79.7 | 23.3 | 33.2 |
| 76.0 | 26.8 | 36.5 |
| -0.1 | 5.7 | 6.4 |

ıhonnell: cronfa ddata arholiadau Cymru

myfyriwr)

**Prif bwyntiau ymweliad astudio swyddogion Llywodraeth Cymru â'r Ffindir 18-20 Ionawr 2017**

Roedd y system addysg wedi'i chynllunio fel a ganlyn:

0-5 **Gofal ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar** – darpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau gofal plant cyhoeddus a phreifat gyda phwyslais ar ddysgu drwy chwarae. Mae'r cwricwlwm yn eithaf rhydd ond ceir pwyslais ar ddatblygu'r plant fel eu bod yn 'barod i ddysgu'. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu sgiliau canolbwyntio, gwaith tîm, gwydnwch a hyder, ynghyd ag adnabod rhifau a llythrennau syml ac ati.

6 **Addysg cyn-gynradd –** paratoi'r plant i ddysgu yn fwy trylwyr ond heb unrhyw wersi darllen/ysgrifennu na mathemateg ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r rhieni a'r ysgolion yn ymwybodol bod disgwyl i'r plant allu darllen, ysgrifennu a chyfrif i ryw raddau cyn dechrau'r cyfnod addysg sylfaenol.

7-16 **Addysg Sylfaenol –** yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau cynradd a lleoliadau uwchradd is. Mae addysg ffurfiol yn dechrau pan fo plentyn yn 7 oed. Mae dysgu gwahaniaethol yn gryf ac fe geir pwyslais arbennig ar beidio â gadael unrhyw blentyn ar ôl. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd a'r ysgolion yn cydweithio'n agos ar lefel yr ysgol ac yn cynnwys y rhieni pan fo plentyn yn agored i risg. Gwneir defnydd hefyd o'r Prifysgolion lleol, sy'n cynnig cyrsiau sylfaenol mewn pynciau penodol ar gyfer rhieni plant sy'n tangyflawni er mwyn iddynt feithrin dealltwriaeth o'r pynciau a gallu helpu eu plant. Nid oes unrhyw brofion swyddogol yn cael eu cynnal nes bod y plant yn 15. Bryd hynny, maent yn sefyll arholiad i weld pa lwybr y dylent ei ddilyn ar gyfer rhan uwch eu haddysg uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu derbyn i lefel uwch yr ysgol uwchradd (ôl-16). Yn 16 oed ac yn ddibynnol ar eu perfformiad academaidd neu eu gallu, caiff y plant ddewis gwneud blwyddyn arall o addysg sylfaenol. Unwaith eto, nid ydynt yn gadael yr ysgol heb gyrraedd y lefelau gallu gofynnol.

**Ôl 16+** Ar ôl sefyll yr arholiad, mae'r plant yn symud i ran uwch yr ysgolion uwchradd (academaidd) neu'r hyn sy'n ymdebygu i golegau addysg bellach. Yn y colegau technegol hynny, byddant yn astudio tuag at gymwysterau galwedigaethol ac yn cael profiad gwaith (yn debyg i'n llwybr prentisiaeth ni). Mae plant ar y ddau lwybr yna'n cael dewis a ydynt am fynd ymlaen i'r Brifysgol (oll am ddim), naill ai i astudio mewn prifysgol academaidd neu brifysgol gwyddorau cymhwysol. Mae'r naill brifysgol a'r llall yn meddu ar y pŵer i ddyfarnu gradd ond dim ond y prifysgolion academaidd all gynnal hyfforddiant doethurol.

**Y prif agweddau ar System Addysg y Ffindir**

Mae perfformiad myfyrwyr y Ffindir yn asesiadau rhyngwladol PISA wedi bod yn uchel o gymharu â'r gwledydd eraill dros y tair blynedd ddiwethaf. O ganlyniad, mae'r wlad wedi cael cryn sylw. Y prif nodweddion y mae Asiantaeth Genedlaethol dros Addysg y Ffindir wedi'u nodi fel y rhai sydd wedi cyfrannu at eu llwyddiant yw:

- Pwyslais cryf ar gyfartaledd - o ran mynediad ac ansawdd
- Rhaglen gadarn ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Mae dysgu'n cael ei weld fel proffesiwn deniadol (dim ond 10% o ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn)
- Mae'r holl athrawon wedi'u hyfforddi i safon uchel (gradd meistr ac ymrwymiad i gynnal ymchwil parhaus â'r sector addysg uwch), sy’n golygu bod angen llai o atebolrwydd ffurfiol.
- Pwyslais ar ddysgu yn hytrach na phrofi – nid yw ysgolion yn cael eu gosod mewn trefn yn ôl llwyddiannau ar lefel genedlaethol.
- Mae'r amser dysgu yn isel o gymharu â gwledydd eraill gan roi amser i athrawon baratoi a chynllunio
- Dim gorfodaeth i ddilyn Fframwaith y Cwricwlwm yn ddeddfol a hyblygrwydd yn lleol
- Grwpio dosbarthiadau mewn ffordd hyblyg. Ni cheir llawer o achosion o drefnu dosbarthiadau yn ôl eu gallu
- Strwythur rheoli syml, gydag ychydig iawn o arweinwyr haen ganol mewn ysgolion
- Nifer cymharol isel o gynorthwywyr addysgu
- Mae pob plentyn yn cael cinio ysgol
- Mae maint y dosbarthiadau'n amrywio rhwng 20 a 24 disgybl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Mae swm y gwariant blynyddol ar bob myfyriwr yn is na'r swm yn y DU ym mhob cyfnod
- Rhoddir pwyslais ar les drwy gyfrwng rhaglenni cymorth ym mhob cyfnod

Mae gan athrawon y Ffindir ymrwymiad cadarn i gyfartaledd ac anogaeth, rhoi cymorth unigol i fyfyrwyr, cryfhau sgiliau meddwl myfyrwyr, a datblygu eu hyder, goddefgarwch a'u gwydnwch. Yn ôl arolwg rhyngwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (TALIS 2013), mae 90% yn fodlon yn eu swyddi a byddai 70% yn dewis dysgu eto. Er bod cyflogau athrawon cyn-gynradd yn is na'u cyfoedion yn y DU, mae cyflogau athrawon cynradd ac uwchradd yn uwch yn y Ffindir.

**Defnyddio’r casgliadau yn ein gwaith o ddiwygio addysg yng Nghymru**

- Angen cynnal lefel o hyblygrwydd yn ein cwricwlwm newydd
- Pwysigrwydd arloesi/ymchwil a chydweithio, a rôl hanfodol addysg uwch.
- Mae peidio ag asesu er lles atebolrwydd a lefelau athrawon ac ysgolion yn cael effaith sylweddol ar agwedd a lles yr athrawon, ond mae’n rhaid bodloni gofynion academaidd uwch er mwyn galluogi hyn.

- Mae cryfder ein Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd â phrofiad y blynyddoedd cynnar.
- Mae angen inni adolygu gwaith ac arferion cynorthwywyr addysgu.
- Mae angen inni gryfhau ein pwyslais ar les myfyrwyr.

Eitem 2.2

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Department for Economy, Skills and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
d/o committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

21 Mehefin 2017

Annwyl Gadeirydd

**Cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Kancoat Ltd**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Mai. O ran Cod y Gweinidogion, fel y gwyddoch, mater i'r Prif Weinidog yw hwnnw, ac ni allaf wneud unrhyw sylwadau pellach, ond rwyf wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i swyddfa'r Prif Weinidog er mwyn iddo ei ystyried. Bydd yn ymateb ichi'n uniongyrchol am y mater hwn.

Gwnaethoch ofyn am eglurhad o'r diffiniad o Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch. Mae Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch wedi bodoli fel sector ar wahân ers 2011 pan fabwysiadwyd sectorau fel ffordd o rannu'r economi'n segmentau. Mae pob sector yn hyblyg i ymateb i gyfleoedd newydd yn gyflym. O ran y dosbarthiadau diwydiannol safonol, mae'n bwysig nodi bod Kancoat yn ffitio'n dwt o fewn y dosbarth a bod y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol wedi'i restru fel cwmni "trin ac araenu metelau". Mae panel y sector wedi cytuno â'r diffiniad hwn. Ceir rhestr law o esboniadau'r diwydiant mewn cysylltiad â Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yn Atodiad A.

O ran disgrifiadau y tu hwnt i'r dosbarthiadau diwydiannol safonol, gweler isod ddiffiniad a ddefnyddiwyd yng nghynllun busnes Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch 2016/17.

> "Mae Gweithgynhyrchu Uwch yn defnyddio dylunio a gwybodaeth wyddonol i greu atebion arloesol a thechnegol gymhleth o werth uchel wedi'u gwneud o ddeunyddiau uwch, trwy weithlu crefftus. Nodweddion Gweithgynhyrchu Uwch yw cynhyrchiant uchel, masnachu rhyngwladol, llawer o batentau a buddsoddiad mawr mewn ymchwil a datblygu."

Cwmpesir y teithi hyn ym mlaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

O ran yr adolygiad o'r adran (Argymhelliad 1), mae swyddogaeth Newid a Datblygu wedi'i chreu o fewn y Grŵp i edrych ar y strwythurau a’r ffyrdd presennol o weithio. Bydd yn mynd ati'n systematig i edrych ar weithgareddau a strwythurau ar draws Adran yr Economi a'r Seilwaith, gan ymgymryd â'r gwaith fesul cam. Un o egwyddorion y gwaith hwn fydd sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag ymrwymiadau Ysgrifennydd y Cabinet yn Symud Cymru Ymlaen a'r Strategaeth Ffyniannus a Diogel. Rhan o'r gwaith hwnnw fydd ystyried strwythur presennol Sectorau a Busnes a gwneud argymhellion ar sail y canfyddiadau. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn cyn gynted ag y bo modd a dylai'r camau arwyddocaol cyntaf fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Awst.

I gloi, gallaf gadarnhau bod y canllawiau mewnol ar gyllid busnes wedi cael eu diwygio ar 26 Ebrill 2017 i adlewyrchu argymhelliad 10.

Yn gywir

Mick McGuire
Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes

**Annex A**

## Industry Clarifications relating to Advanced Materials & Manufacturing

| | |
|---|---|
| Preparation and spinning of textile fibres | 1 |
| Weaving of textiles | 1 |
| Finishing of textiles | 1 |
| Manufacture of made-up textile articles except apparel | 1 |
| Manufacture of non-wovens and articles made from non-wovens, except apparel | 1 |
| Manufacture of other technical and industrial textiles | 1 |
| Manufacture of paper and paperboard | 1 |
| Manufacture of industrial gases | 1 |
| Manufacture of dyes and pigments | 1 |
| Manufacture of other inorganic basic chemicals | 1 |
| Manufacture of other organic basic chemicals | 1 |
| Manufacture of fertilizers and nitrogen compounds | 1 |
| Manufacture of plastics in primary forms | 1 |
| Manufacture of synthetic rubber in primary forms | 1 |
| Manufacture of pesticides and other agrochemical products | 1 |
| Manufacture of paints, varnishes and similar coatings, printing ink and mastics | 1 |
| Manufacture of soap and detergents, cleaning and polishing preparations | 1 |
| Manufacture of perfumes and toilet preparations | 1 |
| Manufacture of explosives | 1 |
| Manufacture of glues | 1 |
| Manufacture of essential oils | 1 |
| Manufacture of other chemical products n.e.c. | 1 |
| Manufacture of man-made fibres | 1 |
| Manufacture of rubber tyres and tubes; retreading and rebuilding of rubber tyres | 1 |
| Manufacture of other rubber products | 1 |
| Manufacture of plastic plates, sheets, tubes and profiles | 1 |
| Manufacture of plastic packing goods | 1 |
| Manufacture of other plastic products | 1 |
| Manufacture of flat glass | 1 |
| Manufacture of hollow glass | 1 |
| Manufacture of glass fibres | 1 |
| Manufacture and processing of other glass, including technical glassware | 1 |
| Manufacture of ceramic insulators and insulating fittings | 1 |
| Manufacture of other technical ceramic products | 1 |
| Manufacture of other ceramic products n.e.c. | 1 |
| Manufacture of fibre cement | 1 |
| Production of abrasive products | 1 |
| Manufacture of other non-metallic mineral products n.e.c. | 1 |
| Manufacture of basic iron and steel and of ferro-alloys | 1 |
| Manufacture of tubes, pipes, hollow profiles and related fittings, of steel | 1 |

| | |
|---|---|
| Cold drawing of bars | 1 |
| Cold rolling of narrow strip | 1 |
| Cold forming or folding | 1 |
| Cold drawing of wire | 1 |
| Precious metals production | 1 |
| Aluminium production | 1 |
| Lead, zinc and tin production | 1 |
| Copper production | 1 |
| Other non-ferrous metal production | 1 |
| Processing of nuclear fuel | 1 |
| Casting of iron | 1 |
| Casting of steel | 1 |
| Casting of light metals | 1 |
| Casting of other non-ferrous metals | 1 |
| Manufacture of metal structures and parts of structures | 1 |
| Manufacture of central heating radiators and boilers | 1 |
| Manufacture of steam generators, except central heating hot water boilers | 1 |
| Manufacture of weapons and ammunition | 1 |
| Forging, pressing, stamping and roll-forming of metal; powder metallurgy | 1 |
| Treatment and coating of metals | 1 |
| Machining | 1 |
| Manufacture of cutlery | 1 |
| Manufacture of tools | 1 |
| Manufacture of light metal packaging | 1 |
| Manufacture of wire products, chain and springs | 1 |
| Manufacture of fasteners and screw machine products | 1 |
| Manufacture of electronic components | 1 |
| Manufacture of loaded electronic boards | 1 |
| Manufacture of computers and peripheral equipment | 1 |
| Manufacture of communication equipment | 1 |
| Manufacture of consumer electronics | 1 |
| Manufacture of instruments and aplliances and appliances for measuring,testing and navigation | 1 |
| Manufacture of optical instruments and photographic equipment | 1 |
| Manufacture of electric motors, generators and transformers | 1 |
| Manufacture of batteries and accumulators | 1 |
| Manufacture of fibre optic cables | 1 |
| Manufacture of other electronic and electric wires and cables | 1 |
| Manufacture of electric lighting equipment | 1 |
| Manufacture of electric domestic appliances | 1 |
| Manufacture of other electrical equipment | 1 |
| Manufacture of engines and turbines, except aircraft, vehicle and cycle engines | 1 |
| Manufacture of fluid power equipment | 1 |
| Manufacture of other pumps and comoressors | 1 |
| Manufacture of taps and valves | 1 |
| Manufacture of bearings, gears, gearing and driving elements | 1 |
| Manufacture of ovens, furnaces and furnace burners | 1 |
| Manufacture of lifting and handling equipment | 1 |
| Manufacture of office machinery and equipment (except computers and peripheral equipment) | 1 |

| | |
|---|---|
| Manufacture of power-driven hand tools | 1 |
| Manufacture of non-domestic cooling and ventilation equipment | 1 |
| Manufacture of other general-purpose machinery n.e.c. | 1 |
| Manufacture of agricultural and forestry machinery | 1 |
| Manufacture of metal forming machinery | 1 |
| Manufacture of other machine tools | 1 |
| Manufacture of machinery for metallurgy | 1 |
| Manufacture of machinery for mining, quarrying and construction | 1 |
| Manufacture of machinery for food, beverage and tobacco processing | 1 |
| Manufacture of machinery for textile, apparel and leather production | 1 |
| Manufacture of machinery for paper and paperboard production | 1 |
| Manufacture of plastics and rubber machinery | 1 |
| Manufacture of other special-purpose machinery n.e.c. | 1 |
| Manufacture of motor vehicles | 1 |
| Manufacture of bodies (coachwork) for motor vehicles, manufacture of trailers and semi-trailers | 1 |
| Manufacture of electrical and electronic equipment for motor vehicles and their engines | 1 |
| Manufacture of other parts and accessories for motor vehicles | 1 |
| Building of ships and floating structures | 1 |
| Building of pleasure and sporting boats | 1 |
| Manufacture of railway locomotives and rolling stock | 1 |
| Manufacture of air and spacecraft and related machinery | 1 |
| Manufacture of military fighting vehicles | 1 |
| Manufacture of motorcycles | 1 |
| Manufacture of bicycles and invalid carriages | 1 |
| Manufacture of other transport equipment n.e.c. | 1 |
| Striking of coins | 1 |
| Manufacture of musical instruments | 1 |
| Repair of machinery | 1 |
| Repair of electronic and optical equipment | 1 |
| Repair of electrical equipment | 1 |
| Repair and maintenance of ships and boats | 1 |
| Repair and maintenance of aircraft and spacecraft | 1 |
| Repair and maintenance of other transport equipment n.e.c. | 1 |
| Space transport | 1 |

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ebrill 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys
Alastair McQuaid a Nicholas Raynor, o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn | 6 |
| | Amserlen gryno o ddigwyddiadau allweddol ynglŷn â chymorth Llywodraeth Cymru i'r prosiect CoW | 8 |
| | Prif gasgliadau | 10 |
| | Argymhellion | 12 |
| 1 | Rhoddodd Llywodraeth Cymru dros £9.3 miliwn i gefnogi datblygiad cychwynnol prosiect Cylchffordd Cymru ac mae hefyd wedi cytuno i roi £16 miliwn arall ar ffurf cyllid ad-daladwy os yw amodau penodol yn cael eu cwrdd | 14 |
| | Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £2 miliwn i helpu'r prosiect CoW i dalu costau'n gysylltiedig â gwaith cynllunio a datblygu'r safle | 15 |
| | Talodd Llywodraeth Cymru dros £7.3 miliwn o dan gytundeb gwarantu benthyciad banc, gyda'r hawl i ofyn i HoVDC dalu'r swm hwn yn ôl, ynghyd â'r llog arno | 15 |
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £16 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy os yw'r prosiect CoW yn cwrdd ag amodau penodol cyn diwedd Mawrth 2018 | 16 |
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod dau gynnig gan HoVDC i gefnogi costau adeiladu ond mae wrthi'n ystyried cynnig arall i danysgrifennu arian buddsoddi preifat | 16 |
| | Gwrthododd Llywodraeth Cymru ystyried tanysgrifennu benthyciad posib i'r prosiect CoW gan awdurdod lleol | 18 |
| 2 | Er iddi gomisiynu cyngor helaeth, yn gwbl briodol, gan ystyried ystod o fanteision a risgiau, roedd gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth a ategodd ei phenderfyniadau cyllido hyd yma'n ddiffygiol | 20 |
| | Wrth dderbyn risgiau ariannol a chyfreithiol sylweddol, roedd Llywodraeth Cymru gan fwyaf wedi dilyn ei gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cefnogi penderfyniadau gweinidogion, er bod gwybodaeth bwysig ar goll o'r papurau a gyflwynwyd | 21 |
| | Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor helaeth ond mae bylchau yn y wybodaeth wedi creu risgiau ychwanegol wrth i'r ymrwymiad arian cyhoeddus gynyddu | 25 |

3 Yn dilyn y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddigon i gadw rheolaeth briodol ar arian cyhoeddus 27

Nid oedd y trefniadau cyllido'n rhoi sicrwydd digon cryf dros yr arian cyhoeddus 28

Roedd amodau a roddwyd ar wahanol ffrydiau cyllido'n anghyson, a lle'r oeddent yn eu lle, nid oeddent bob amser yn cael eu gorfodi 29

Roedd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r cwmnïau oedd yn rhan o'r prosiect CoW yn brin 32

Roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu taliadau i gwmnïau perthynol, gan gynnwys bron i £1 miliwn i Aventa, heb ddigon o dystiolaeth bod y gwasanaethau a roddwyd i'r prosiect CoW yn cynnig gwerth am arian 34

Nid oedd trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodi taliadau i HoVDC yn ddigon trylwyr 38

4 Roedd y grant o £2 miliwn yn cynnwys £0.3 miliwn i brynu FTR, cwmni peirianneg beiciau modur, sy'n anghyson â phwrpas y grant 40

Ni allai Llywodraeth Cymru egluro i ni mewn ffordd oedd yn ein bodloni pam yr oedd wedi cymeradwyo grant, oedd i fod ar gyfer datblygiad eiddo, fel y gallai HoVDC brynu cwmni peirianneg beiciau modur 41

Roedd y cyllid ar gyfer FTR Moto Limited wedi'i ddileu yng nghyfrifon cwmni HoVDC ac yna, ym mis Hydref 2016, roedd FTR Moto Limited wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr 43

Atodiadau

Atodiad 1 – Trefn a dulliau ein harchwiliad 46

Atodiad 2 – Geirfa o dermau a byrfoddau 49

Atodiad 3 – Amserlen y digwyddiadau allweddol 53

Atodiad 4 – Gohebiaeth rhwng Mr David TC Davies AS ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 57

Atodiad 5 – Strwythur cwmni prosiect Cylchffordd Cymru (CoW) 63

# Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn

1 Menter uchelgeisiol yw Cylchffordd Cymru (CoW)[1] i adeiladu cylchffordd rasio ceir a beiciau modur ar rostir ger Glyn Ebwy ym Mlaenau Gwent. Y bwriad yw cael cylchffordd rasio o safon ddigon uchel i gynnal ystod o chwaraeon modur, gan gynnwys rasys beiciau modur pencampwriaeth y byd, er na fydd yn cael ei hadeiladu i ofynion rasio ceir Formula One[2].

2 Sefydlwyd grŵp o gwmnïau preifat i symud ymlaen gyda'r datblygiad CoW. Yn y cyfnod cychwynnol mae'r prosiect CoW yn cael ei arwain gan Heads of the Valleys Development Company (HoVDC), a sefydlwyd yn 2011.

3 Mae cam cyntaf y prosiect CoW yn cynnwys sicrhau opsiynau tir, caniatadau cynllunio, contractau adeiladu a chyllid. Mae'r elfennau hyn yn angenrheidiol i symud ymlaen at ail gam y prosiect; y gwaith caib a rhaw o adeiladu'r gylchffordd rasio, y standiau eistedd a'r padog.

4 Hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £9.3 miliwn o gymorth cychwynnol i gam cyntaf y prosiect CoW, gan gynnwys:

a dyfarnu Grant Datblygu Eiddo (PDG) o £2 miliwn yn Hydref 2012 i helpu i dalu costau'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu'r safle, wedi'i dalu mewn pedwar rhandaliad rhwng Ionawr 2013 ac Ebrill 2014; a

b talu dros £7.3 miliwn i fanc HoVDC ym mis Mai 2016 o dan gytundeb gwarantu benthyciad banc,[3] gyda HoVDC i dalu'r arian hwn yn ôl i Lywodraeth Cymru ar gais.

5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i gyfrannu £16 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy (RBF)[4] pellach i ail gam y prosiect CoW os yw'n cwrdd ag amodau penodol. Hyd yma nid oes unrhyw RBF wedi'i dalu a daw'r cynnig o gyllid RBF i ben ddiwedd Mawrth 2018.

6 Gwrthododd Llywodraeth Cymru geisiadau gan HoVDC i danysgrifennu cyllid preifat ar gyfer ail gam y prosiect CoW yn Ebrill 2016, pan ofynnwyd i Lywodraeth Cymru warantu £357 miliwn; ac eto yng Ngorffennaf 2016 pan ofynnwyd i Lywodraeth Cymru warantu £234 miliwn[5].

1 Eglurir termau a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn yn yr eirfa yn Atodiad 2.
2 Mae gwybodaeth am y cynllun arfaethedig ar gael ar wefan y prosiect CoW. Fe'n hysbyswyd gan HoVDC fod y gylchffordd wedi cael ei dylunio mewn modd a fyddai'n caniatâu ei huwchraddio i gynnal rasys ceir Formula One.
3 Cytunodd Llywodraeth Cymru i ad-dalu benthyciad banc y HoVDC os na allai HoVDC wneud hynny ei hun.
4 Mae gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol ac anariannol i fusnesau wedi'i chynnwys yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: **Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Ltd**, Gorffennaf 2016.
5 Mae gwarantau Llywodraeth Cymru yn bodoli i ddelio â'r prinder arian sydd ar gael i gyllido dyledion tymor hir o fewn y marchnadoedd ariannol ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Maent yn trosglwyddo'r risg am y swm a warantwyd i Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny leihau'r risg gyffredinol i fenthycwyr a buddsoddwyr sector preifat fel y cânt eu hannog i dderbyn cyfraddau llog is a thaliadau difidend llai gan HoVDC. Byddai hyn yn cynyddu'r gwir adenillion (elw) sydd ar gael i ddatblygwyr ac felly mae Llywodraeth Cymru yn codi tâl masnachol cyfatebol am ddarparu gwarantau o'r fath.

7 Ar 26 Ionawr 2017 rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith derfyn amser o bythefnos i HoVDC gyflwyno cynnig diwygiedig i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cymorth gan Lywodraeth Cymru'n dibynnu a fydd y prosiect CoW yn gallu dangos ei fod yn hyfyw. Mae sicrhau'r lefel angenrheidiol o fuddsoddiad preifat ('cwblhau'r agweddau ariannol')[6] yn un o'r gofynion allweddol os yw'r prosiect i symud ymlaen i'r ail gam. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw'n barod i ddefnyddio arian cyhoeddus i danysgrifennu mwy na 50% o'r holl fuddsoddiad sydd ei angen.

8 Ar 8 Chwefror 2017 cyflwynodd HoVDC gynnig diwygiedig i Lywodraeth Cymru y mae ar hyn o bryd yn ei werthuso cyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cabinet cyfan. Mae cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer yr ail gam bellach yn £430 miliwn. Mae HoVDC wedi gofyn i Lywodraeth Cymru danysgrifennu £210 miliwn o fuddsoddiad sector preifat unwaith y bydd y gwaith o adeiladu'r gylchffordd wedi gorffen. Mae'r prosiect CoW yn parhau i ddenu cryn dipyn o sylw cyhoeddus, gwleidyddol a chan y cyfryngau.

9 Mae uchelgais y datblygwr ar gyfer ardal y safle'n fwy na'r prosiect CoW presennol o ddatblygu ac adeiladu cylchffordd rasio. Ei weledigaeth hirdymor yw cael ystod o gyfleusterau chwaraeon modur, parc busnes technoleg fodurol, cyfleusterau gwesty a hamdden a hefyd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Mae HoVDC wedi pwysleisio bod gan y cynllun ehangach botensial i gyfrannu i economi Cymru, gan gynnwys drwy greu swyddi. Mae'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach posib yn debygol o ddeilio'n bennaf o ddatblygiadau mwy hirdymor yn hytrach nag o adeiladu a rhedeg y gylchffordd rasio ei hun. Gallai'r datblygiadau pellach hyn, yn eu tro, gynnwys ceisiadau am gymorth arian cyhoeddus.

10 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r materion allweddol o ran sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei phecyn cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW. Mae ein hadolygiad archwilio wedi canolbwyntio ar ba mor dda y mae Llywodraeth Cymru wedi:

a gwneud y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW;

b rheoli risg drwy gymhwyso amodau ar gyfer rhoi arian cyhoeddus i'r Prosiect; a

c sicrhau ei hun bod yr arian a roddwyd yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas oedd mewn golwg.

6 Mae 'cwblhau'r agweddau ariannol' yn golygu cyfres gymhleth o drafodion rhyng-ddibynnol a chydgysylltiedig lle mae dilyniant o gytundebau amodol yn dod i rym fel bod y prosiect CoW yn gallu mynd yn ei flaen; yn cynnwys ymrwymiadau cyllid gan fuddsoddwyr, cwblhau prynu eiddo, ad-dalu dyledion a dyfarnu contractau adeiladu.

11 Nid ydym:

a wedi edrych yn uniongyrchol ar ymddygiad unigolion neu endidau sy'n gysylltiedig â'r Prosiect;

b wedi adolygu pa mor hyfyw yw'r achosion busnes ar gyfer adeiladu a rhedeg y gylchffordd rasio, nac ar gyfer cynllun cyffredinol y CoW[7], nac ychwaith wedi profi honiadau a wnaed gan y datblygwyr y bydd swyddi a gweithgarwch economaidd yn deillio o'r cynllun yn gyffredinol; nac ychwaith

c wedi asesu haeddiannau rhoi mwy o gymorth arian cyhoeddus i'r prosiect CoW.

12 Mae Atodiad 1 yn nodi'n fanwl beth yw cwmpas, trefn a dulliau ein harchwiliad.

13 Nid yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol HoVDC na'r amrywiol gwmnïau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau statudol i ddilyn y bunt gyhoeddus ac asesu a ydynt yn cydymffurfio â thelerau ac amodau cyllido Llywodraeth Cymru. Gallai'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu gwneud mwy o waith archwilio yn ymwneud â'r prosiect CoW, gan gynnwys ar unrhyw arian cyhoeddus a roddir yn y dyfodol.

## Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol ynglŷn â chymorth Llywodraeth Cymru i'r prosiect CoW

| | |
|---|---|
| Hydref 2012 | Dyfarnodd Llywodraeth Cymru PDG o £2 miliwn i HoVDC tuag at gam un y prosiect CoW, gan gynnwys pryniant HoVDC o FTR, cwmni peirianneg beiciau modur arbenigol wedi'i leoli yn Swydd Buckingham, am hyd at £0.3 miliwn. |
| Rhagfyr 2012 | Arwyddodd HoVDC gontract gwerthiant amodol i brynu tir comin lle bydd y gylchffordd yn cael ei hadeiladu arno pe bai'r prosiect CoW yn mynd yn ei flaen. |
| Medi 2013 | Rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (BGCBC) ganiatâd cynllunio amlinellol i'r cynllun CoW. |

7 Rydym wedi adolygu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o wybodaeth a gyflwynwyd gan HoVDC yn cefnogi ei gynigion am gyllid cychwynnol.

| | |
|---|---|
| Mehefin 2014 | Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at HoVDC yn cynnig £16 miliwn o gyllid RBF tuag at gam dau sef cam adeiladu'r prosiect CoW, ar yr amod bod y prosiect yn cwrdd ag amodau penodol. Ni ofynnwyd am, ac ni thalwyd, unrhyw arian hyd yma a daw'r cynnig i ben ym mis Mawrth 2018. |
| Gorffennaf 2014 | Cytunodd Llywodraeth Cymru i warantu benthyciad banc i alluogi HoVDC i dalu cyflenwyr, rhai ohonynt yn gwmnïau perthynol, gan gynnwys Aventa sy'n gwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Michael Carrick (Prif Weithredwr HoVDC). |
| Tachwedd 2015 | Penderfynodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ganiatáu cais HoVDC i ddad-ddosbarthu a chyfnewid y tir comin am dir arall, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus. |
| Ebrill 2016 | Gwrthododd Llywodraeth Cymru danysgrifennu £357 miliwn o fuddsoddiad preifat ar gyfer adeiladu'r CoW, oedd yn cynnwys cytundeb prydles ar gyfer y gylchffordd orffenedig. |
| Mai 2016 | Talodd Llywodraeth Cymru £7.335 miliwn i fanc HoVDC o dan gytundeb gwarantu benthyciad oherwydd na allai HoVDC ad-dalu'r benthyciad. Mae'r arian hwn i gyd, ynghyd â chostau ychwanegol, llog a thaliadau, yn ad-daladwy gan HoVDC i Lywodraeth Cymru ar gais. |
| Gorffennaf 2016 | Gwrthododd Llywodraeth Cymru gais diwygiedig gan HoVDC i danysgrifennu £234 miliwn o fuddsoddiad preifat ar gyfer adeiladu'r CoW. |
| Hydref 2016 | Aeth cwmni FTR Moto Ltd, sydd wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC ac a brynwyd gyda grant o £0.276m gan Lywodraeth Cymru, i ddwylo'r gweinyddwyr gyda dyledion o £0.5 miliwn. |

| | |
|---|---|
| Ionawr 2017 | Rhoddodd Llywodraeth Cymru derfyn amser o bythefnos i HoVDC gyflwyno cynnig hyfyw y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ei gefnogi. |
| Chwefror 2017 | Cyflwynodd HoVDC gynnig diwygiedig i Lywodraeth Cymru. Mae HoVDC o'r farn ei fod yn cwrdd â'r lefel 50% o fuddsoddiad cyllid preifat sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfanswm y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer cam dau yn £430 miliwn a gofynnodd HoVDC i Lywodraeth Cymru danysgrifennu £210 miliwn o'r buddsoddiad sector preifat hwn (48.8%) unwaith y cwblheir adeiladu'r gylchffordd. |

Dalier sylw: gweler Atodiad 3 am amserlen lawn o'r prif ddigwyddiadau.

## Prif gasgliadau

Hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £9.3 miliwn i gefnogi datblygiad cychwynnol prosiect uchelgeisiol y CoW, ond mae diffygion sylweddol o ran sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r risg gysylltiedig i arian trethdalwyr.

Yn fwy penodol:

14 Er iddi gomisiynu cyngor helaeth, fel y byddai'n briodol, gan ystyried ystod o fanteision a risgiau, roedd gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth oedd wedi ategu ei phenderfyniadau cyllido hyd yma'n arwyddocaol ddiffygiol:

- a wrth dderbyn risgiau ariannol a chyfreithiol sylweddol, roedd Llywodraeth Cymru gan amlaf wedi dilyn ei gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cefnogi penderfyniadau gweinidogion, er bod gwybodaeth bwysig ar goll o'r papurau a gyflwynwyd; a
- b derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor helaeth ond mae bylchau yn y wybodaeth wedi creu risgiau ychwanegol wrth i'r ymrwymiad arian cyhoeddus gynyddu.

15 Yn dilyn y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddigon i gadw rheolaeth briodol ar arian cyhoeddus:

a nid oedd y trefniadau cyllido'n rhoi sicrwydd digon cryf dros yr arian cyhoeddus;

b roedd amodau a roddwyd ar wahanol ffrydiau cyllido'n anghyson, a lle'r oeddent yn eu lle, nid oeddent bob amser yn cael eu gorfodi;

c roedd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r cwmnïau oedd yn rhan o'r prosiect CoW yn brin;

ch roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu taliadau i gwmnïau perthynol, gan gynnwys bron i £1m i Aventa Capital Partners Limited (Aventa), heb ddigon o dystiolaeth bod y gwasanaethau a ddarparwyd i'r Prosiect yn cynnig gwerth am arian; ac

d nid oedd trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodi taliadau i HoVDC yn ddigon trylwyr.

16 Roedd y grant o £2 miliwn yn cynnwys hyd at £0.3 miliwn i brynu FTR, cwmni peirianneg beiciau modur, sy'n anghyson â phwrpas y grant:

a ni allai Llywodraeth Cymru egluro mewn ffordd oedd yn ein bodloni pam yr oedd wedi cymeradwyo grant, oedd i fod ar gyfer datblygiad eiddo, fel y gallai HoVDC brynu cwmni peirianneg beiciau modur; a

b roedd y cyllid ar gyfer FTR Moto Limited wedi'i ddileu yng nghyfrifon cwmni HoVDC ac yna, ym mis Hydref 2016, roedd FTR Moto Limited wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

17 Yn ystod ein gwaith archwilio mewn ymateb i bryderon yr oedd Aelod Seneddol wedi tynnu sylw'r Archwilydd Cyffredinol atynt (Atodiad 4), rydym wedi edrych ar daliadau penodol a wnaed rhwng Rhagfyr 2014 a Mehefin 2016 i sefydlu a ddefnyddiwyd arian cyhoeddus. Daethom i'r casgliad nad HoVDC a wnaeth y taliadau hyn, a oedd yn ymwneud ag anfonebau garddio a digwyddiadau gwleidyddol, ond yn hytrach Aventa – cwmni ar wahân wedi'i berchnogi'n llwyr gan brif gyfranddaliwr a Phrif Weithredwr HoVDC, Mr Michael Carrick. O ystyried bod Aventa'n derbyn incwm o ddarparu gwasanaethau i HoVDC dan gontract, rydym yn fodlon nad yw'r gwariant gan Aventa ei hun yn golygu y defnyddiwyd arian cyhoeddus.

18 Lleisiodd yr Aelod Seneddol hefyd bryderon ynghylch a ddefnyddiodd HoVDC arian cyhoeddus o Gymru i ariannu rasys MotoGP a gynhaliwyd yn Lloegr. Roedd cwmni wedi'i berchnogi gan HoVDC, Circuit of Wales Limited, wedi sicrhau cytundeb 10 mlynedd i lwyfannu MotoGP yn y Deyrnas Unedig ar 1 Ebrill 2014. Rydym wedi cadarnhau nad oedd yr un o hawliadau HoVDC am daliadau PDG, neu daliadau o dan y cytundeb gwarant benthyciad gyda Llywodraeth Cymru, yn cynnwys unrhyw daliadau uniongyrchol i'r daliwr hawliau MotoGP nac i gylchffyrdd rasio eraill am lwyfannu rowndiau Prydeinig pencampwriaeth beicio modur y byd yn 2015 a 2016.

## Argymhellion

19 Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio cyllid cyhoeddus i annog a chefnogi buddsoddiad preifat mewn prosiectau seilwaith mawr yn unol â'i hamcanion adfywio a datblygu economaidd. Mae ei phenderfyniadau'n cynnwys gwerthuso haeddiannau prosiect a phwyso a mesur y risg a'r enillion. Yn aml iawn gall y manteision a'r canlyniadau i Gymru fod yn eang, hirdymor ac anodd eu mesur.

20 Mae'r cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r prosiect CoW hyd yma (a drafodir yn yr adroddiad hwn) yn swm cymharol fach mewn cymhariaeth â'r gost debygol o adeiladu'r gylchffordd rasio ac mewn cymhariaeth ag asesiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o fanteision economaidd a chymdeithasol ehangach posib y cynllun yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag rydym wedi adnabod gwendidau yn y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei phenderfyniadau ac ynghylch ei rheolaeth o'r cymorth ariannol cychwynnol hwn. Daethom i'r casgliad fod diffygion arwyddocaol yn y ffordd wnaeth Llywodraeth Cymru reoli'r risg gysylltiedig i arian trethdalwyr.

21 Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r adolygiad archwilio hwn, nid yn unig wrth ystyried rhoi cymorth tanysgrifennu i'r prosiect CoW i'w alluogi i symud ymlaen, ond hefyd mewn perthynas â'i ddull o ystyried prosiectau eraill posibl yn y dyfodol.

22 Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru:

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau bod cyflwyniadau i Weinidogion Cymru am benderfyniadau cymeradwyo yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n berthnasol i bob eitem o wariant arfaethedig a allai fod yn newydd, yn gynhennus neu â sgîl-effeithiau. |
| A2 | Cynnwys cwestiwn o fewn y ffurflen gais am Gyllid Busnes Ad-daladwy (Repayable Business Finance - RBF) yn gofyn a fwriedir i unrhyw drafodion yn ymwneud ag arian RBF gael eu gweithredu drwy gwmnïau perthynol, a gwneud ymchwil diwydrwydd dyladwy trylwyr ym mhob achos lle cynigir gwneud hynny. |
| A3 | Sicrhau fod Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru (WIDAB) yn cael gwybod am bob cymorth arall gan Lywodraeth Cymru i brosiect y gofynnir iddo ei ystyried, boed y gefnogaeth honno wedi ei chymeradwyo neu beidio ar y pryd. |
| A4 | Cadw nodyn ysgrifenedig o bob trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac ymgeiswyr am gyllid mewn perthynas â phenderfynu pa eitemau sydd i’w cynnwys/nad ydynt i’w cynnwys o fewn y gwariant a gymeradwyir. |
| A5 | Mewn perthynas â phrosiectau, cryfhau’r broses o wirio hawliadau, eu hawdurdodi a’u trosglwyddo i’w talu fel y parheir i gynnal yn briodol yr arfer o wahanu dyletswyddau. |

## Rhan 1

Rhoddodd Llywodraeth Cymru dros £9.3 miliwn i gefnogi datblygiad cychwynnol prosiect Cylchffordd Cymru (CoW) ac mae hefyd wedi cytuno i roi £16 miliwn arall ar ffurf cyllid ad-daladwy os yw amodau penodol yn cael eu cwrdd



## Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £2 miliwn i helpu'r prosiect CoW i dalu costau'n gysylltiedig â gwaith cynllunio a datblygu'r safle

1.1 Ym mis Hydref 2012 dyfarnodd Llywodraeth Cymru Grant Datblygu Eiddo (Property Development Grant - PDG) o £2 miliwn i HoVDC. Hawliodd HoVDC y grant a thalwyd yr arian mewn pedwar rhandaliad gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr 2013 ac Ebrill 2014. Bwriad y grant oedd cefnogi cam un y prosiect CoW[8] drwy gyfrannu tuag at £9.7 miliwn o wariant oedd mewn golwg gan HoVDC, gwariant a dybiwyd i fod yn gymwys o dan y cynllun PDG. Disgrifiwyd y meysydd gwariant oedd yn gymwys i dderbyn grant yn nhelerau ac amodau'r llythyr cynnig grant.

## Talodd Llywodraeth Cymru dros £7.3 miliwn o dan gytundeb gwarantu benthyciad banc, gyda'r hawl i ofyn i HoVDC dalu'r swm hwn yn ôl, ynghyd â'r llog arno

1.2 Ym mis Gorffennaf 2014 cytunodd Llywodraeth Cymru i dalu £7.85 miliwn fel gwarant benthyciad banc i HoVDC. Mewn gwirionedd roedd y cytundeb hwn yn ymrwymo arian cyhoeddus i danysgrifennu'r holl wariant oedd yn weddill gan HoVDC ar gam un y prosiect CoW oedd yn gymwys am gefnogaeth PDG, a hyn ar ben y £2 miliwn a roddwyd eisoes.

1.3 Yn Ebrill 2016 gofynnodd banc HoVDC i'r cwmni ad-dalu'r benthyciadau a wnaeth i HoVDC, a hynny ar unwaith.  Oherwydd na allai HoVDC wneud hyn, roedd y banc yna wedi gofyn am arian gwarantu Llywodraeth Cymru. Felly ym mis Mai 2016 talodd Llywodraeth Cymru dros £7.3 miliwn i'r banc[9]. Mae HoVDC dan gontract i dalu'r arian hwn yn ôl, ynghyd ag arian llog ychwanegol a ffioedd, i Lywodraeth Cymru ar gais. Fodd bynnag, oherwydd bod HoVDC wedi'i sefydlu'n benodol ar gyfer y prosiect CoW, mae'n annhebygol o fod mewn sefyllfa i dalu'r ddyled hon yn ôl oni bai fod y prosiect CoW yn sicrhau buddsoddiad preifat iddo fynd yn ei flaen. Mae'r cynnig diweddaraf gan HoVDC, sydd wrthi'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys talu'r ddyled hon yn ôl yn llawn os yw'r prosiect CoW yn mynd yn ei flaen, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

8 Sicrhau'r opsiynau tir, caniatadau cynllunio, contractau adeiladu a'r cyllid angenrheidiol i symud ymlaen i ail gam y prosiect; y gwaith caib a rhaw o adeiladu'r gylchffordd rasio, y standiau eistedd a'r padog.

9 Roedd y taliad o £7.335 miliwn gan Lywodraeth Cymru i fanc HoVDC £0.52 miliwn yn llai na'r swm gwreiddiol a warantwyd oherwydd newidiadau yn y gyfradd gyfnewid yng nghyswllt elfen o'r benthyciad banc oedd mewn Ewros.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £16 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy os yw'r prosiect CoW yn cwrdd ag amodau penodol cyn diwedd Mawrth 2018

1.4 Ym mis Mehefin 2014 cynigiodd Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid RBF o £16 miliwn i HoVDC i gefnogi ail gam y prosiect CoW. Mae'r cyllid RBF i'w dalu'n ôl mewn rhandaliadau dros 18 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon darparu'r RBF os yw'r prosiect CoW:

a yn sicrhau cyllid preifat o £175 miliwn (o gyfanswm cyllid y prosiect CoW a amcangyfrifwyd gan HoVDC, pan anfonwyd y llythyr cynnig RBF, i fod yn £247 miliwn); a

b yn creu 304 o swyddi.

1.5 Hyd yma nid yw'r prosiect CoW wedi cwrdd â'r amodau hyn ac felly ni ofynnwyd am, ac ni thalwyd, unrhyw RBF. Daw'r cynnig hwn i ben ar 31 Mawrth 2018. Nid yw'r cynnig diweddaraf gan HoVDC i Lywodraeth Cymru'n cynnwys defnyddio dim o'r cyllid RBF a gytunwyd eisoes.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod dau gynnig gan HoVDC i gefnogi costau adeiladu ond mae wrthi'n ystyried cynnig arall i danysgrifennu arian buddsoddi preifat

1.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod dau gynnig gan HoVDC am fwy o arian cyhoeddus fel rhan o'r pecyn ariannol sydd ei angen i adeiladu trac rasio CoW:

a Yn Ebrill 2016, mewn ymateb i gynnig gan HoVDC, ystyriodd Llywodraeth Cymru ddarparu gwarant o 100% ar brydles 33 mlynedd ar gyfer y gylchffordd orffenedig er mwyn sicrhau gwerth £357 miliwn o gyllid gan fuddsoddwr preifat. Ni ddarparodd Llywodraeth Cymru'r warant oherwydd credai y byddai hynny'n golygu gwneud dyfarniad Cymorth Gwladol anghyfreithlon[10].

b Ym mis Gorffennaf 2016 gwrthododd Llywodraeth Cymru gynnig diwygiedig. Roedd hyn yn cynnwys benthyciad o £220 miliwn gan fuddsoddwr preifat gyda gwarant o 80% gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â benthyciad masnachol o £90 miliwn gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (BGCBC), a wnaed o dan eu pwerau benthyca darbodus, wedi'i gefnogi gan warant o £60 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y ddau awdurdod lleol wrthym y byddent ond wedi rhoi'r achos busnes i fod yn rhan o drefniant benthyciad masnachol gerbron eu cynghorau am benderfyniad, pe bai

10 Gall rhoi arian cyhoeddus i fusnesau fod yn fath o Gymorth Gwladol gwrth-gystadleuol sydd, os yw amodau penodol yn cael eu cwrdd, wedi ei wahardd gan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a gallai gael ei farnu i fod yn anghyfreithlon gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i roi gwarant. Fodd bynnag ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru gynnig diwygiedig HoVDC oherwydd byddai lefel yr arian cyhoeddus oedd ei angen wedi golygu, mewn gwirionedd, mai'r cyhoedd a fyddai'n berchen ar y prosiect CoW. Felly ni chafodd penderfyniadau ynghylch a ddylid darparu arian benthyciad neu beidio eu rhoi o flaen yr un o'r ddau gyngor.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cynnig arall a gyflwynwyd gan HoVDC ar 8 Chwefror 2017, sy'n cael ei werthuso cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cabinet. Mae'r cynnig diweddaraf hwn yn ymwneud ag adeiladu'r gylchffordd, y standiau eistedd a'r padog, ond nid yw'n cynnwys elfennau eraill yn ymwneud â'r cynllun ehangach fel adeiladu parc busnes technoleg fodurol, cyfleusterau gwesty a hamdden a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Mae'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach posib yn debygol o ddeilio'n bennaf o'r datblygiadau mwy hirdymor hyn yn hytrach nag o adeiladu a rhedeg y gylchffordd rasio ei hun. Hyd yma, nid oes cymorth arian cyhoeddus wedi'i gynnig ac nid oes cais wedi bod amdano am yr elfennau yma o'r cynllun ehangach.

Arddangosyn 1 - Darluniad o gynllun gorffenedig Cylchffordd Cymru (CoW), fel y byddai'n edrych o'r awyr.



Ffynhonnell: HoVDC

1.8 Erbyn hyn mae angen buddsoddiad o £430 miliwn ar gyfer yr ail gam, a dim o hwn yn cael ei ddarparu gan y sector cyhoeddus. Fodd bynnag mae HoVDC wedi gofyn i Lywodraeth Cymru danysgrifennu £210 miliwn (48.8%) o'r buddsoddiad sector preifat hwn unwaith y bydd y gwaith o adeiladu'r gylchffordd wedi gorffen. O dan delerau'r cynnig presennol:

a os nad yw'r prosiect CoW yn "cwblhau'r agweddau ariannol" gan olygu na fyddai'n symud ymlaen i'r cam adeiladu, mae'n debyg na fydd yn bosib adennill dim o'r £9.33 miliwn o gymorth ariannol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

b os yw'r prosiect CoW yn "cwblhau'r agweddau ariannol" a symud ymlaen i'r cam adeiladu, byddai'r warant benthyciad (ynghyd â ffioedd a llog cysylltiedig) yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru. Os bydd hyn yn digwydd, cost net y cymorth ariannol uniongyrchol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, i fyny at gwblhau'r gwaith adeiladu, fyddai'r £2 miliwn o PDG.

c nid yw'r cyllid RBF o £16m a gytunwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru'n rhan o'r cynnig cyllido presennol ar gyfer y cam adeiladu, felly ni fydd yn cael ei ddefnyddio hyd yn oed os yw'r prosiect CoW yn mynd yn ei flaen yn unol â'r cynnig hwn.


## Gwrthododd Llywodraeth Cymru ystyried tanysgrifennu benthyciad posib i'r prosiect CoW gan awdurdod lleol

1.9 Derbyniodd Llywodraeth Cymru ymholiad cychwynnol gan BGCBC ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru'n ystyried tanysgrifennu benthyciad o £40 miliwn gan BGCBC i'r prosiect CoW, pe byddent yn derbyn cais ffurfiol. Ym mis Rhagfyr 2014 ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud na fyddai'n cytuno i warant o'r fath oherwydd ei bod wedi asesu bod y risg y gallai'r warant benthyciad gael ei galw i mewn (gyda Llywodraeth Cymru'n atebol am yr holl gostau yn y pen draw) yn annerbyniol o uchel. Yng ngoleuni ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymholiad, ni roddwyd cynnig i ddarparu arian benthyciad neu beidio gerbron cyfarfod o'r cyngor.

1.10 Yn Ebrill 2014 penderfynodd BGCBC ganiatáu, mewn egwyddor ac yn amodol ar iawndal gan ddatblygwyr CoW, i beth o'i dir gael ei ailddosbarthu fel tir comin. Diben yr ailddosbarthiad hwn oedd hwyluso cyfnewid y tir lle'r oedd bwriad i adeiladu'r gylchffordd arno, oedd wedi'i ddosbarthu fel tir comin ar y pryd, a'i ddad-ddosbarthu; byddai hynny wedyn yn caniatáu datblygu'r tir. Mae'r trefniant hwn ar yr amod bod y prosiect CoW yn sicrhau cyllid preifat i fynd yn ei flaen.

Arddangosyn 2 - Dyluniad Cylchffordd Cymru (CoW), yn dangos y cylch rasio a’r cyfleusterau hamdden a busnes arfaethedig.

Mae’r prosiect sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys yr eitemau a labelwyd 1 – 10, A a G, ynghyd â’r seilwaith cysylltiedig i alluogi datblygiad pellach. Nid yw Eitemau B – F a H – L yn rhan o ddatblygiad presennol y prosiect.




Ffynhonnell: HoVDC

# Rhan 2

Er iddi gomisiynu cyngor helaeth, yn gwbl briodol, gan ystyried ystod o fanteision a risgiau, roedd gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth a ategodd ei phenderfyniadau cyllido hyd yma'n ddiffygiol



## Wrth dderbyn risgiau ariannol a chyfreithiol sylweddol, roedd Llywodraeth Cymru gan fwyaf wedi dilyn ei gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cefnogi penderfyniadau gweinidogion, er bod gwybodaeth bwysig ar goll o'r papurau a gyflwynwyd

2.1 Gwnaed penderfyniadau allweddol ar roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW gan y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (fel yr oedd bryd hynny), ar ôl cael ei briffio'n fanwl gan swyddogion Llywodraeth Cymru a derbyn cyngor ar Gymorth Gwladol gan Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes modd canfod i sicrwydd a ddarparwyd i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru (WIDAB),[11] yr holl wybodaeth a oedd ar gael a ystyriwn yn berthnasol i gyd-destun argymhelliad WIDAB y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid RBF o £16 miliwn i'r prosiect CoW.

2.2 Hefyd, nid oedd y papur a gyflwynwyd yn gofyn am awdurdod gweinidogol i ymrwymo £2m o arian grant PDG i'r Prosiect yn nodi'n glir bod £0.3 miliwn o hwn i'w ddefnyddio ar gyfer pwrpas nad oedd yn gyson ag amcanion arferol y cynllun grant PDG (gweler paragraffau 4.1 i 4.7).

## Y Grant Datblygu Eiddo (PDG) £2 miliwn

2.3 Ym mis Mawrth 2012 cyflwynodd HoVDC achos busnes am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Bu swyddogion wrthi'n ystyried amryw o wahanol ffyrdd ar gyfer gallu rhoi cymorth i gam un y prosiect CoW cyn argymell i'r Gweinidog ar 6 Awst 2012 y dylai Llywodraeth Cymru roi PDG[12] fel y dull mwyaf priodol o ddarparu cyllid.

2.4 Roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod pe bai'r prosiect CoW yn symud at gam dau, y byddent efallai'n gofyn am arian cyhoeddus tuag at y costau adeiladu. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r ymrwymiad arian cyhoeddus posib a fyddai ei angen i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r gylchffordd fod yn £30 miliwn. Roedd swyddogion hefyd yn cydnabod nad oedd cam un y prosiect CoW yn cyd-fynd â phroffil arferol prosiectau sy'n derbyn y grant PDG oherwydd na fyddai'n arwain yn uniongyrchol at ddatblygiad ffisegol o'r tir. Fodd bynnag, penderfynodd swyddogion argymell ei ddefnyddio er mwyn gallu prynu a datblygu'r tir, a allai yna arwain at adeiladu cylchffordd rasio yn ystod cam dau.

11 Bwrdd cynghori o fewn Llywodraeth Cymru yw WIDAB, sydd y tu allan i'r Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (ES&T) (fel ag yr oedd bryd hynny) a fu'n ystyried cais HoVDC am RBF ar 3 Mehefin 2014. Mae WIDAB yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch pa brosiectau ddylid eu cefnogi.

12 Fel arfer mae Grantiau Datblygu Eiddo (PDG) yn cyfrannu at ddylunio adeiladau, sicrhau caniatâd cynllunio a chostau codi adeilad busnes ar dir a / neu adeiladau a berchenogir neu a brydlesir eisoes gan yr ymgeisydd at ddefnydd cyflogaeth. Mae'r cynllun PDG yn caniatáu Cymorth Gwladol cyn belled ag y bo pwrpasau'r grant yn cyd-fynd â gofynion y cynllun ac y defnyddir yr arian grant dim ond i'r pwrpasau y rhoddwyd y grant.

2.5 Nid oedd y papur yn briffio'r Gweinidog ac yn argymell rhoi cefnogaeth PDG yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad manwl o'r meysydd gwariant yng ngham un y byddai'r grant o £2 miliwn yn eu cyllido. Fodd bynnag, yr oedd yn cyfeirio at rai o'r pwrpasau y byddai'r grant, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn cael ei roi at eu cyfer[13]. Roedd y rhain yn cynnwys prynu'r tir a sicrhau'r hawliau i lwyfannu rownd Brydeinig pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd[14]. Nid oedd y papur briffio'n ystyried a oedd caffael yr hawliau'n llwyr gyd-fynd â rheolau cymhwysedd y cynllun PDG nac ychwaith â phroffil arferol prosiectau sy'n derbyn grantiau PDG. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw ddogfennau i ni i gefnogi ei bod yn derbyn cynnwys hawliau trwydded MotoGP o fewn y PDG neu'n dangos cysondeb â'r rhesymau arferol dros roi PDG. Fodd bynnag mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod caffael yr hawliau, yn eu barn hwy, yn un o'r rhagofynion hanfodol ar gyfer y prosiect CoW os oedd HoVDC am ddenu darpar fuddsoddwyr preifat.

2.6 Roedd llythyr Llywodraeth Cymru'n cynnig PDG i HoVDC hefyd yn cynnwys cymeradwyo hyd at £0.3 miliwn i brynu FTR (cwmni peirianneg beiciau modur arbenigol wedi'i leoli yn Swydd Buckingham). Fodd bynnag, nid oedd y papur yn briffio'r Gweinidog ac yn argymell cefnogi'r PDG yn sôn o gwbl am FTR nac yn gofyn yn benodol am gymeradwyo £0.3 miliwn o'r arianPDG i'w ddefnyddio gan HoVDC i brynu'r cwmni (gweler hefyd para. 4.1 i 4.7).

## Y £16 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy (RBF)

2.7 Ym mis Mawrth 2014 cyflwynodd HoVDC gais i Lywodraeth Cymru am £18 miliwn o RBF. Mae ceisiadau i Lywodraeth Cymru am RBF o dros £1 miliwn yn cael eu hystyried gan WIDAB.

2.8 Roedd y cyflwyniad i WIDAB am gyllid RBF ar 28 Mai 2014 yn nodi:

a bod y prosiect CoW wedi methu'r prawf effeithlonrwydd economaidd oherwydd ei fod yn cynhyrchu gwerth cyfredol net negyddol, a fyddai'n cynhyrchu colled net i economi Cymru o rhwng £48 miliwn a £70 miliwn[15].

b roedd gan saith o'r deg digwyddiad a dargedwyd yng nghynllun busnes CoW eisoes leoliad yn y DU yng nghalendr rasio 2014.

13 Roedd y papur briffio a'r argymhelliad yn ddyddiedig 6 Awst 2012. Cymeradwyodd y Gweinidog y grant ar 9 Awst 2012. Roedd y pwrpasau yna wedi cael eu hadlewyrchu yn y llythyr cynnig PDG gan Lywodraeth Cymru i HoVDC, dyddiedig 11 Hydref.

14 Ar 1 Ebrill 2014 enillodd Circuit of Wales Limited gytundeb 10 mlynedd i lwyfannu MotoGP yn y DU, ac erbyn hynny roedd HoVDC wedi cyflwyno ei hawliad terfynol am daliad PDG. Nid oedd yr un o hawliadau HoVDC am daliadau PDG na thaliadau o dan y cytundeb gwarant benthyciad yn cynnwys unrhyw daliadau uniongyrchol i'r daliwr hawliau MotoGP nac i'r cylchffyrdd rasio eraill am lwyfannu rowndiau Prydeinig pencampwriaeth beiciau modur y byd yn 2015 a 2016.

15 Roedd y gwerthusiad o'r prosiect CoW yn y cyflwyniad i WIDAB yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2014 ac felly nid yw'n adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau a wnaed wedi hynny gan HoVDC i'r achos busnes a'r model cyllido.

Roedd y dadleoli economaidd posib o gylchffyrdd rasio presennol o'r maint yma'n awgrymu bod y prawf effeithlonrwydd economaidd wedi rhoi amcan rhy isel o'r golled.

c fodd bynnag, pe bai'r gylchffordd rasio'n cael ei hadeiladu ac yna'n profi i fod yn llwyddiant, gallai datblygiad pellach parc technoleg, complecs gwesty a chyfleusterau hamdden ar y safle greu manteision economaidd lleol ychwanegol na ystyriwyd gan y prawf effeithlonrwydd economaidd.

2.9 Dywedodd HoVDC wrthym '…byddai'n syndod inni pe bai'r Prosiect yn methu unrhyw ffurf ar brawf effeithlonrwydd economaidd. Ni fwriedir i'r digwyddiadau arfaethedig ddisodli unrhyw rai sy'n bodoli eisoes ond yn hytrach cadw a thyfu'r digwyddiadau yn y Deyrnas Unedig. Yn wyneb cyflwr presennol seilwaith y Deyrnas Unedig mae risg arwyddocaol na fydd modd cynnal digwyddiadau rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Hefyd, mae'r digwyddiadau arfaethedig yn chwilio am gyfleusterau newydd i gynyddu eu gweithgaredd yn sylweddol ac felly, yn hytrach na disodli digwyddiadau ar gylchffyrdd eraill, maent yn ychwanegu foliwm a chapasiti.'

2.10 Paratowyd y cyflwyniad ysgrifenedig i WIDAB am gyllid RBF ar 28 Mai 2014. Ar 2 Mehefin, derbyniodd swyddogion o Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (ES&T) Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd gan eu Gweinidog i archwilio'r posibilrwydd o ddarparu cefnogaeth ar ffurf benthyciad ariannol i'r prosiect CoW, i'w ad-dalu ar adeg cwblhau'r agweddau ariannol. Nid yw cofnodion cyfarfod WIDAB a gynhaliwyd ar 3 Mehefin yn cyfeirio o gwbl at y gefnogaeth ariannol bosibl hon ac felly nid oes modd sefydlu a wnaed WIDAB yn ymwybodol neu beidio o'i fodolaeth pan ystyriodd y cyflwyniad RBF. Cymeradwywyd y warant benthyciad gan y Gweinidog ar 1 Gorffennaf a'i chytuno rhwng Llywodraeth Cymru a HoVDC ar 18 Gorffennaf 2014 (gweler hefyd paragraffau 2.13 i 2.19).

2.11 Ar 30 Mehefin 2014 derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad gan WIDAB i roi £16 miliwn o gyllid RBF. Roedd y papur briffio i'r Gweinidog, ynghyd â'r argymhelliad i gymeradwyo'r RBF, yn cynnwys gwybodaeth am y warant benthyciad.

2.12 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod wedi penderfynu peidio â rhoi gwybod i WIDAB am y cymorth gwarant benthyciad posib oherwydd:

a nid oedd y warant benthyciad wedi'i chytuno erbyn dyddiad cyfarfod WIDAB;

b nid oedd penderfynu ar warantau benthyciad yn rhan o gylch gwaith WIDAB ar y pryd; ac

c byddai'r warant benthyciad yn cael ei thalu'n ôl wedi cwblhau'r agweddau ariannol, ond byddai'r RBF ond ar gael yn dilyn cwblhau'r agweddau ariannol.

Fodd bynnag, ystyriwn y dylai WIDAB fod wedi cael gwybod am gyfanswm y cymorth ariannol posib gan Lywodraeth Cymru i'r Prosiect pryd y gofynnwyd am eu barn.

## Y warant benthyciad o £7.3 miliwn

2.13 Erbyn canol 2014 cyrhaeddwyd terfynau sicrwydd y benthyciad banc presennol gan HoVDC (benthyciad yn erbyn cartref Mr Carrick) gyda chostau'r prosiect CoW yn rhedeg drosodd oherwydd oedi'n gysylltiedig â dad-ddosbarthu'r tir comin.O ganlyniad, nid oedd wedi medru sicrhau'r cyllid preifat angenrheidiol. Roedd felly angen cyllid pellach ar y prosiect a hebddo yr oedd bron yn sicr y byddai'r prosiect CoW yn mynd i'r wal gyda'r £2 miliwn o PDG a dderbyniodd eisoes yn cael ei golli. Cysylltodd HoVDC felly â Llywodraeth Cymru i ofyn am fwy o gymorth ariannol.

2.14 Cytunodd Llywodraeth Cymru i warantu benthyciad banc preifat o £7.85 miliwn i HoVDC oherwydd roeddent yn credu bod hyn yn cyflwyno llai o risg na rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i HoVDC.

2.15 Roedd y prosiect CoW eisoes wedi methu â chwrdd ag amod ynghlwm wrth y PDG i godi cyllid preifat erbyn 31 Mai 2013. Felly, credwn ei bod yn debygol iawn o'r cychwyn y byddai'r banc yn galw'r warant benthyciad i mewn. Byddai hyn yn arwain nid yn unig at Lywodraeth Cymru'n gorfod talu'r benthyciad a'r llog cysylltiedig ond hefyd at orfod talu ffioedd a thaliadau trafodiad busnes y banc, i gyd heb i'r banc gymryd unrhyw risg fasnachol nac ariannol ystyrlon yng nghyswllt y rhan yma o'r benthyciad. Pe bai hyn yn digwydd byddai Llywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, wedi darparu cyllid cwbl ddi-risg i'r prosiect CoW.

2.16 Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws â'u hymrwymiadau o dan gyfraith yr UE (gan gynnwys rheolau ar Gymorth Gwladol)[16]. Cafwyd cyngor gan Swyddogion y gallai'r warant benthyciad fod yn broblematig yng nghyswllt Cymorth Gwladol. Roeddent o'r farn bod risg sylweddol o ran cydymffurfio â'r rheolau ar Gymorth Gwladol. Pe bai'r Comisiwn neu lys yn ei ystyried, credent y byddai'r gwarantau benthyciad yn enwedig yn debygol iawn o gael eu hystyried i fod yn groes i'r rheolau ar Gymorth Gwladol. O ganlyniad, ni allent roi sicrwydd o gwbl i'r Gweinidogion y byddai'r cynigion yn cael eu derbyn yn dilyn craffu barnwrol neu ddadansoddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd.

2.17 Cafodd y cyngor ei gynnwys mewn cyflwyniad gweinidogol dyddiedig 26 Mehefin 2014, yn gofyn am benderfyniad gan y Gweinidog ar y warant benthyciad, sef dyddiad hwyrach nag adolygiad WIDAB o'r cyllid RBF. Lle mae swyddogion o'r farn fod gwariant posib yn wariant newydd, yn wariant gydag ôl-effeithiau neu yn wariant cynhennus, mae'r cyflwyniad gweinidogol hefyd yn cael ei ystyried gan Uned Llywodraethu

16 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 80 (8)

Corfforaethol Llywodraeth Cymru, sy'n gorfod sicrhau bod yr holl faterion perthnasol wedi eu hystyried cyn y gellir gwneud penderfyniad. Cafodd y cyflwyniad gweinidogol am y warant benthyciad i HoVDC, gan gynnwys y farn gyfreithiol lawn, ei gyfeirio ymlaen gan swyddogion i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol a'i gymeradwyo ganddynt ar 26 Mehefin 2014. Cafodd y gymeradwyaeth ei nodi yn y cyflwyniad terfynol i'r Gweinidog a ddywedodd:

'Maen nhw'n fodlon bod yr holl wybodaeth berthnasol am ganlyniadau'r prosiect, y risgiau sylweddol yn deillio ohono a'r mesurau ar gyfer eu lliniaru, wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y cyflwyniad.'

2.18 Ar 18 Gorffennaf 2014 daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb â HoVDC i warantu benthyciad banc preifat i HoVDC yn hytrach na darparu lefel o gymorth ariannol cyfwerth uniongyrchol mewn ffordd arall.

2.19 Bryd hynny, nid oedd ceisiadau am gyllid PDG o fewn cylch gwaith WIDAB, er eu bod erbyn hyn. Mae gwarantau benthyciad yn parhau i fod y tu allan i gylch gwaith WIDAB; yn hytrach maen nhw'n cael eu hadolygu gan uwch dîm rheoli'r Adran economi a Seilwaith cyn eu cymeradwyo.

## Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor helaeth ond mae bylchau yn y wybodaeth wedi creu risgiau ychwanegol wrth i'r ymrwymiad arian cyhoeddus gynyddu

2.20 Yn dilyn yr achos ffurfiol dros gymorth ariannol cychwynnol a gyflwynwyd gan HoVDC i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012, penderfynodd Llywodraeth Cymru gomisiynu cyngor allanol i edrych ar fodel cyllido cychwynnol y prosiect CoW a thelerau arfaethedig y grant posib gan Lywodraeth Cymru. Comisiynwyd cyngor pellach ar gyllid masnachol i oleuo penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch cytuno i roi cyllid RBF neu beidio. Derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor cyfreithiol mewnol ac allanol ynglŷn â'i phenderfyniadau i roi PDG, y warant benthyciad a'r cyllid RBF.

2.21 Casgliad cyngor yr ymgynghorwyr allanol oedd bod y tybiaethau ariannol yn y model cyllido cychwynnol yn gadarn, er y byddai'r model yn newid wrth i fuddsoddwyr preifat ymuno â'r prosiect. Roedd yr ymgynghorwyr wedi adnabod manteision economaidd a chymdeithasol posib i Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd oedd angen eu hadfywio, a allai ddeillio o ganlyniad i ddatblygu'r cynllun ehangach yn dilyn gweithredu camau cychwynnol y prosiect CoW[17].

17 Mae'r prosiect CoW, a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cychwynnol, mewn dau gam. Mae cam un yn cynnwys prynu'r tir, sicrhau'r caniatadau cynllunio angenrheidiol, cytuno ar gontractau adeiladu, a chodi cyllid; mae cam dau'n cynnwys y gwaith caib a rhaw o adeiladu'r gylchffordd rasio, y standiau eistedd a'r padog.

2.22 Roedd yr ymgynghorwyr wedi adnabod cyfres o risgiau cydberthynol yn gysylltiedig â'r prosiect CoW, gan gynnwys[18]:

a codi arian cyfalaf preifat;

b perchenogaeth a strwythurau gweithrediadol y cwmnïau sy'n gysylltiedig â HoVDC, ac yn rhan o'r prosiect CoW;

c lefel y risg ariannol i arian cyhoeddus;

ch y cyfnod hir o dalu'n ôl a'r gyfradd enillion (elw) isel i bwrs y wlad;

d cyfleoedd i'r cwmnïau sy'n gysylltiedig â darparu'r prosiect CoW wneud elw anghymesur, mewn rhai achosion beth bynnag fyddai perfformiad y buddsoddiad, ac i fuddsoddwyr preifat;

dd diffyg buddsoddiad ecwiti sylweddol gan y prif gyfranddalwyr;

e diffyg sicrwydd cymharol ar gyfer y buddsoddiad cyhoeddus; a

f y byddai darparu'r cymorth ariannol cychwynnol yn rhoi mwy o bwysau ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o gymorth ariannol.

2.23 Fodd bynnag, nododd yr ymgynghorwyr fod eu cyngor yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn oherwydd bod y prosiect CoW yn parhau i esblygu. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni na chomisiynu unrhyw adolygiadau diwydrwydd dyladwy[19] o'r cwmnïau oedd yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r prosiect CoW oedd â pherthynas eisoes ag unigolion oedd yn rhan o HoVDC. Roedd y risgiau sylweddol i arian cyhoeddus yn gysylltiedig â'r agweddau hyn wedi cynyddu wrth i swm y cymorth ariannol a roddodd Llywodraeth Cymru i'r prosiect CoW hefyd gynyddu.

2.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i ni ei bod yn awr yn cyflawni diwydrwydd dyladwy allanol helaeth yng nghyswllt cynnig presennol HoVDC i symud y prosiect CoW yn ei flaen a'r cais am gymorth tanysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.

18 Cafodd y risgiau hyn eu hadnabod mewn gwybodaeth a dderbyniwyd gan HoVDC i gefnogi ei fidiau am gyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, gan oleuo'r penderfyniadau a wnaed ynghylch darparu cyllid hyd yma. Nid ydym wedi edrych ar wybodaeth yng nghyswllt bidiau'r prosiect CoW am y prif gyllid. Felly ni allwn farnu a gafodd y risgiau hyn yna eu lliniaru yn y cyflwyniadau am gyllid pellach, gan gynnwys yn y cyflwyniad diweddaraf y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei ystyried.

19 Y broses o wybod digon am bwy y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried gwneud busnes â nhw, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y math o fusnes a'r canlyniad sydd mewn golwg, er mwyn nodi unrhyw risgiau posib. Mae archwiliadau diwydrwydd dyladwy'n cynnwys cefndiroedd a hanes perfformiad yr unigolion, strwythurau'r cwmnïau, sefyllfa ariannol, asedau a dyledion (cyfredol ac i ddod), statws trethiant ac unrhyw broblemau cyfreithiol sy'n dod i'r amlwg. Lle mae arian cyhoeddus Cymru yn y cwestiwn, dylid hefyd ystyried gwerthoedd ac egwyddorion yn ymwneud â chynaliadwyedd, safonau llywodraethu a moeseg busnes.

Rhan 3

# Yn dilyn y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddigon i gadw rheolaeth briodol ar arian cyhoeddus



3.1 Roedd yr arian cyhoeddus i'r prosiect CoW i fod i gael ei ddiogelu gan sicrwydd yn erbyn asedau HoVDC, a'i warchod hefyd drwy gymhwyso'r amodau isod:

a cyfyngiadau ar sut y gellid defnyddio'r arian;

b targedau yr oedd angen i'r prosiect CoW eu cwrdd;

c gofynion i reoli arian cyhoeddus; a

ch gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno hawliadau a derbyn taliadau.

## Nid oedd y trefniadau cyllido'n rhoi sicrwydd digon cryf dros yr arian cyhoeddus

3.2 Ar 6 Ebrill 2016, oherwydd nad oedd y prosiect CoW eto wedi sicrhau'r cyllid buddsoddi preifat angenrheidiol ar gyfer cam dau, ni allai HoVDC gwrdd â'i rwymedigaethau i'w fanc o dan y cytundeb benthyciad oedd wedi'i warantu gan Lywodraeth Cymru. Felly ysgrifennodd HoVDC at Lywodraeth Cymru'n galw ar y warant ac yn gofyn i'r Llywodraeth dalu'r arian. Ar 6 Mai 2016 talodd Llywodraeth Cymru £7.33 miliwn yn llawn i'r banc (gan gynnwys taliadau banc, ffioedd a thaliadau llog HoVDC oedd yn gyfanswm o £0.8 miliwn).

3.3 Mae gan HoVDC ymrwymiad cyfreithiol i dalu'r £7.33 miliwn hwn yn ôl, ynghyd ag arian llog ychwanegol a ffioedd, i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, os nad yw'r prosiect CoW yn sicrhau'r buddsoddiad preifat angenrheidiol iddo fynd yn ei flaen, mae HoVDC yn annhebygol o allu talu dim ohono'n ôl.

3.4 Fel arfer mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau sicrwydd dros arian cyhoeddus a roddir i fusnes yn erbyn gwerth asedau'r cwmni hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru'n dal taliadau dyledeb dros asedau HoVDC dyddiedig 2012 a 2014, ar gyfer y PDG a'r warant benthyciad. I gydnabod gwerth isel y gwarant cyfochrog ar gael, gosododd Llywodraeth Cymru y gost llog ar 13.5%, gan godi i 16% petaent yn diffygdalu. Fodd bynnag nid yw'r trefniant hwn wedi darparu'r lefel sicrwydd ar gyfer y warant banc oedd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg, oherwydd:

a crewyd HoVDC yn llwyr i'r pwrpas o gyflawni'r prosiect CoW ac nid yw'n cyflawni unrhyw weithgareddau masnachu eraill[20].

20 Y prosiect CoW yw unig brosiect HoVDC. Mae'r prosiect wedi derbyn grant a gwarant benthyciad gan Lywodraeth Cymru a hefyd wedi derbyn cyllid benthyciad banc preifat. Llwyddodd y prosiect CoW hefyd i sicrhau cymorth ariannol gan ffynonellau nad ydynt yn darparu cyllid yn uniongyrchol i HoVDC, gan gynnwys drwy gynllun buddsoddi wedi'i gefnogi gan Lywodraeth y DU a grant datblygu gan gorff chwaraeon modur. Mae'r cyllidwyr hyn yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i gyflenwyr. Hefyd, mae nifer o gyflenwyr gwasanaethau i HoVDC (gan gynnwys rhai perthynol i HoVDC) wedi cytuno i ohirio taliadau am eu gwasanaethau hyd nes y bydd y prosiect CoW yn cwblhau'r agweddau ariannol.

b pe bai gan HoVDC ddigon o arian neu asedau ffisegol i dalu ei rwymedigaethau ariannol, ni fyddai'r banc wedi bod angen i Lywodraeth Cymru danysgrifennu'r benthyciad.

c byddai ond yn bosib gwireddu gwerth y ddyledeb gan Lywodraeth Cymru pe bai'r cwmni'n mynd yn ansolfedd a gellid ei werthu fel busnes gweithredol.

ch mae taliadau dyledeb Llywodraeth Cymru'n ddarostyngedig i bridiant a ddelir gan fanc HoVDC, dyddiedig 28 Hydref 2012, dros yr holl symiau sy'n ddyledus gan HoVDC i'r banc. Felly byddai hawliad gan y banc dros unrhyw asedau gan y cwmni'n cael blaenoriaeth dros unrhyw hawliad gan Lywodraeth Cymru pe na lwyddai'r banc i adfer y ddyled mewn ffordd arall.

3.5 Nid yw'n gyfreithiol ofynnol i HoVDC ad-dalu'r PDG oni bai ei fod yn methu â chwrdd ag amodau'r grant. Gan ddibynnu ar i ba raddau y byddai'n methu â chwrdd â'r amodau, gallai orfod talu'r cyfan neu ran o'r grant yn ôl.

## Roedd amodau a roddwyd ar wahanol ffrydiau cyllido'n anghyson, a lle'r oeddent yn eu lle, nid oeddent bob amser yn cael eu gorfodi

3.6 Roedd y cytundeb PDG yn nodi o dan ba delerau ac amodau y rhoddwyd y grant, gan gynnwys:

a swm y grant;

b i ba bwrpas y gellid gwario'r arian grant;

c amodau penodol ar y grant;

ch meysydd gwariant cymwys a'r uchafswm y gellid ei hawlio ym mhob maes gwariant; a

d gofynion ar gyfer cyflwyno hawliadau.

3.7 Roedd amodau'r PDG yn cynnwys targedau gyda dyddiadau lle'r oedd angen i HoVDC hysbysu Llywodraeth Cymru a gawsant eu cyrraedd neu beidio. Pe bai HoVDC yn methu â chydymffurfio ag amodau'r grant, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol oedd hynny, gallai Llywodraeth Cymru ddal peth o'r grant neu'r cyfan ohono'n ôl neu fynnu bod peth o'r arian neu'r holl arian a dalwyd hyd at y pwynt hwnnw'n cael ei dalu'n ôl. Un o amodau'r PDG oedd bod HoVDC yn prynu budd yn y tir erbyn 31 Mai

2013. Amod arall oedd na fyddai unrhyw grant yn cael ei dalu hyd nes y byddai Llywodraeth Cymru wedi derbyn copi o'r contract yn prynu'r tir. Cafodd yr amod yma ei gynnwys oherwydd unwaith y mae pryniant tir wedi'i gwblhau, mae Llywodraeth Cymru'n ennill budd yn y tir fel sicrwydd dros ei gymorth ariannol. Ar 18 Rhagfyr 2012 lluniodd HoVDC gytundeb gwerthiant amodol i brynu'r prif safle tir oedd ei angen ar gyfer y prosiect CoW. Barnodd Llywodraeth Cymru fod hyn yn cwrdd ag amod y PDG, er nad oedd HoVDC wedi rhoi copi i Lywodraeth Cymru o'r contract llawn ac er nad yw cytundeb pryniant amodol yn rhoi unrhyw sicrwydd mewn gwirionedd i Lywodraeth Cymru (gweler hefyd paragraffau 3.38 a 3.39).

3.8 Roedd amodau'r PDG hefyd yn gofyn bod HoVDC yn sicrhau caniatâd cynllunio i adeiladu'r gylchffordd erbyn 30 Ebrill 2013. Yn Chwefror 2013 cyflwynodd HoVDC gais am ganiatâd cynllunio amlinellol i BGCBC. Rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio amlinellol i'r cynllun CoW ar 25 Medi 2013, gydag amod yn ymwneud ag ail-ddosbarthu'r tir comin. Roedd y cais dilynol i gyfnewid ac ail-ddosbarthu'r tir comin wedi'i ganiatáu gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ym mis Tachwedd 2015. Er na chafodd amod y grant yn ymwneud â chaniatâd cynllunio ei gwrdd erbyn y dyddiad targed, mae'r swyddog sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r prosiect CoW yn Llywodraeth Cymru wedi dweud hyn wrthym...
'Drwy gydol y cyfnod dan sylw, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cynnal deialog uniongyrchol â'r awdurdod cynllunio lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a gadarnhaodd oherwydd natur gymhleth y prosiect CoW y byddai caniatâd cynllunio'n annhebygol o gael ei roi erbyn y terfyn amser o 30 Ebrill 2013, ond bod swyddogion y Cyngor yn llawn ddisgwyl i ganiatâd gael ei roi o fewn 6-8 mis i'r dyddiad hwnnw. Gyda'r cadarnhad uniongyrchol hwnnw gan y Cyngor, gwnaed penderfyniad na chafodd ei gofnodi i beidio â mynnu bod y cwmni'n hysbysu digwyddiad hysbysu.'

3.9 Roedd Llywodraeth Cymru ei hun wedi cyfrannu at yr oedi gyda chael caniatâd cynllunio drwy gyhoeddi cyfarwyddyd "dal yn ôl' yn atal BGCBC rhag rhoi caniatâd cynllunio i'r prosiect CoW hyd nes y byddai Llywodraeth Cymru'n penderfynu a ddylid galw'r cais i mewn i'w benderfynu gan Lywodraeth Cymru. Yn Awst 2013 cododd y Gweinidog Tai ac Adfywio, sy'n gyfrifol am gynllunio, gyfarwyddyd "dal yn ôl" Llywodraeth Cymru.

3.10 Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn i gymryd camau neu beidio os bydd amodau grantiau'n cael eu torri. Felly ni chafodd ei chymell i ofyn i HoVDC dalu'r arian yn ôl pan fethodd y cwmni â chwrdd â dyddiad targed y PDG a phan fethodd hefyd â hysbysu Llywodraeth Cymru o hyn pan gyflwynodd y cwmni ei hawliad grant yn dilyn hynny. Fodd bynnag dylai unrhyw benderfyniadau gorfodi a wneir gan swyddogion Llywodraeth Cymru gael eu gwneud a'u cofnodi'n briodol. Mae cofnodi pethau'n briodol hefyd yn helpu Aelodau Cynlluniad i graffu'n effeithiol ar benderfyniadau a dal Llywodraeth Cymru i gyfrif[21].

21 Gweler hefyd adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Ionawr 2016, tudalennau 35 i 38.

3.11 Gosododd Llywodraeth Cymru dargedau i'r prosiect CoW ar gyfer codi'r arian angenrheidiol i symud ymlaen at gam dau; adeiladu'r gylchffordd, y standiau eistedd a'r padog. O dan un o amodau'r PDG roedd angen i HoVDC sicrhau arian cyfalaf preifat o £155 miliwn erbyn 31 Mai 2013. Ni lwyddodd HoVDC i gwrdd â'r amod hwn. (gweler hefyd baragraffau 3.8 a 3.9). Un o amodau'r cytundeb gwarant benthyciad, y cytunodd Llywodraeth Cymru iddo ar 18 Gorffennaf 2014 oedd y dylai'r prosiect CoW godi'r prif gyllid o £229 miliwn erbyn 31 Rhagfyr 2014. Ni chafodd hyn ychwaith ei wneud a methodd y prosiect CoW hefyd â chwrdd ag estyniadau pellach ar y dyddiad hwn. O ganlyniad, gofynnodd y banc iddo dalu'r benthyciad yn ôl. Pan ddywedodd HoVDC na allai dalu'r arian yn ôl oherwydd nad oedd ganddo ddigon o arian nac asedau, cyflwynodd y banc rybudd ffurfiol yn gofyn i Lywodraeth Cymru anrhydeddu ei hymrwymiad o dan y warant i dalu'r benthyciad llawn yn ôl i'r banc, ynghyd â ffioedd a llog.

3.12 Nid yw cyrff masnachol a sector preifat, fel HoVDC yn dod o dan gyfreithiau caffael yr Undeb Ewropeaidd[22]. Fodd bynnag, disgwylir iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth osod cytundebau yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac arian cyhoeddus. Mae cymal 18 yn y llythyr cynnig PDG yn nodi 'Rhaid i chi brynu'r holl nwyddau a gwasanaethau...mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy fel y gallwch ddangos gwerth gorau gyda defnyddio arian cyhoeddus.' Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth bod HoVDC wedi cydymffurfio â'r amod hwn ynglŷn â'r PDG o £2 miliwn; naill ai drwy dendro'r gwasanaethau hyn yn gystadleuol neu trwy wneud cymariaethau gwerth am arian.

3.13 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad yw'n gofyn am dystiolaeth o gydymffurfio, oherwydd nid yw'n gorfodi tendro cystadleuol ac eithrio lle darperir arian Ewropeaidd, lle mae cydymffurfio â chyfarwyddebau caffael yr Undeb Ewropeaidd yn ofynnol fel un o amodau'r meini prawf cyllido. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi mynnu ar ofynion gwerth am arian o gwbl yn y cytundeb gwarant benthyciad ac o dan y cytundeb hwn roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu taliadau gwerth dros £6.5 miliwn i gyflenwyr. Dywedodd HoVDC wrthym "...mae'r Cwmni wedi dilyn proses dendro rymus a chystadleuol wrth ddewis ei ymgynghorwyr, ei brif gontractwr a'i ddarparwyr gwasanaethau".

22 I ddangos bod defnydd o arian cyhoeddus yn rhoi gwerth da am arian, lle mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau neu wasanaethau, disgwylir iddynt ddilyn cyfraith yr UE. O dan gyfraith yr UE, rhaid i gyrff cyhoeddus hysbysebu contractau sy'n werth mwy na hyn a hyn yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

3.14 Mae Llywodraeth Cymru a datblygwyr y prosiect CoW wedi pwysleisio potensial y cynllun CoW i gyfrannu at greu swyddi ac i economi Cymru. Mae cytundeb Llywodraeth Cymru gyda HoVDC i ddarparu cyllid RBF yn ymwneud â cham dau'r prosiect; adeiladu'r gylchffordd, y standiau eistedd a'r padog. Roedd y cytundeb RBF yn rhoi dyddiad targed bod angen i'r prosiect CoW greu 304 o swyddi llawn amser ar y safle erbyn 1 Mawrth 2017. Rhaid oedd i'r prosiect CoW ddangos tystiolaeth o gwrdd â'r targed hwn cyn derbyn £11.2 miliwn o'r £16 miliwn o RBF y cytunwyd i'w ddarparu. O dan amodau cyllid RBF rhaid i ddim llai na 50% o'r holl gyflogaeth sy'n cael ei chreu, a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y prosiect CoW, ddod o  economi Cymru. Ni chafodd unrhyw ofynion tebyg eu rhoi ar y £9.3 miliwn arall o arian cyhoeddus sydd wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru hyd yma, o dan y PDG a'r cytundeb gwarant benthyciad[23].

3.15 Roedd y cytundeb gwarant benthyciad yn cynnwys amod y dylai HoVDC ddarparu datganiadau ariannol archwiliedig i Lywodraeth Cymru am y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mai 2014[24]. Roedd amodau'r PDG yn gofyn am gael gweld gwybodaeth ariannol ond nid oedd gofyniad y dylai'r wybodaeth gael ei harchwilio'n allanol. Mae'r cytundeb RBF yn cynnwys gofyniad y dylai'r cyfrifon archwiliedig diweddaraf fod ar gael cyn talu unrhyw RBF[25]. Ni archwiliwyd cyfrifon HoVDC am y cyfnod hyd at 31 Mai 2014, nac ychwaith y cyfrifon a gyflwynwyd hyd at 31 Mai 2015 nac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2016[26].

## Roedd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r cwmnïau oedd yn rhan o'r prosiect CoW yn brin

3.16 Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyngor allanol i oleuo ei phenderfyniadau ynglŷn â chyllid cychwynnol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddiwydrwydd dyladwy a wnaed ar y pryd yng nghyswllt strwythur corfforaethol y cwmnïau a gefnogai'r prosiect CoW (heblaw am HoVDC ei hun) oherwydd bod llawer o'r cwmnïau dan sylw'n newydd, nid oedd eu strwythur llawn yn ei le ac roedd y strwythur yn parhau i newid wrth iddynt esblygu. Roedd y diagramau strwythur a'r wybodaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau gan HoVDC yn anghyson â ddim yn gytûn â gwybodaeth gyhoeddedig a gedwir gan Dŷ'r Cwmnïau.

23 Yn Ionawr 2017 roedd adroddiadau yn y wasg yn awgrymu bod CoW wedi dyfarnu'r prif gontract adeiladu i gwmni o Sbaen.

24 Nid oes raid i gwmnïau bach, gyda throsiant blynyddol o lai na £6.5 miliwn, gyflwyno eu cyfrifon elw a cholled i Dŷ'r Cwmnïau ac nid oes raid iddynt gael eu harchwilio'n annibynnol (barn annibynnol bod cyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol y cwmni'n rhoi darlun gwir a theg). Fodd bynnag, medrant ddewis cael eu harcwhilio, a gall Llywodraeth Cymru hefyd fynnu ar archwiliadau fel amod derbyn arian cyhoeddus. Gweler hefyd paragraff 3.19.

25 Hyd yma ni ofynnwyd am, ac ni thalwyd, dim o'r cyllid RBF y cytunwyd i'w ddarparu.

26 Fel arfer mae cyfrifon blynyddol yn ddyledus are ben-blwydd sefydlu'r cwmni. Fodd bynnag, gall cwmnïau newid pryd y daw eu blwyddyn gyfrifon i ben, ar yr amod eu bod yn rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau.

3.17 Mae'r cais dyddiedig 13 Mawrth 2014 gan CoW i Lywodraeth Cymru am RBF o £18 miliwn yn gais gan Rassau Infrastructure Company Limited. Roedd y ffurflen gais yn nodi nad oedd y cwmni wedi cael ei ffurfio. Hyd yma nid oes cwmni o'r fath wedi cael ei gorffori. Fodd bynnag roedd y cais RBF a gyflwynwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i WIDAB i'w gadarnhau cyn i'r Gweinidog ei gymeradwyo, dyddiedig 28 Mai 2014, yn nodi'n anghywir:
'Yr ymgeisydd yw Rassau Motorsports and Infrastructure Company Ltd, sydd wedi'i berchnogi gan Circuit of Wales Ltd sydd, yn ei dro, wedi'i berchnogi gan bartneriaeth gyfyngedig Heads of the Valleys L.P. sy'n gorff pwrpas arbennig ar gyfer derbyn y buddsoddiad ecwiti[27].'

3.18 Fodd bynnag roedd y cytundeb RBF terfynol wedi'i lunio rhwng Llywodraeth Cymru a HoVDC. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi llunio'r cytundeb gyda HoVDC gan fod y cwmni wedi dod yn gorfforedig i osgoi gorfod cael gwarantau rhiant-gwmni. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd wrthym nad yw'n anghyffredin iddi dderbyn ceisiadau am gyllid gan gwmnïau nad ydynt eto'n gorfforedig.

3.19 Cyn gwneud y penderfyniadau i ariannu, ni chyflawnodd ac ni chomisiynodd Llywodraeth Cymru unrhyw ddiwydrwydd dyladwy yng nghyswllt unrhyw un o'r cwmnïau neu unigolion oedd yn cyflenwi gwasanaethau i'r prosiect CoW. Y cyflenwyr hyn, yn y pen draw, fyddai'n derbyn yr arian cyhoeddus yr oedd Llywodraeth Cymru am ei roi i HoVDC ac roedd Llywodraeth Cymru eisoes yn ymwybodol o broblemau posib (paragraffau 3.22 i 3.34). Yn hytrach, cyn ac ar ôl i Lywodraeth Cymru wneud ei phenderfyniadau ariannu, roedd wedi dibynnu'n llwyr ar wybodaeth a dderbyniodd gan HoVDC. Ni ofynnodd Llywodraeth Cymru am ddigon o fanylion na thryloywder gan HoVDC ynghylch ei gwmnïau cyflenwi perthynol, naill ai fel rhagofynion ar gyfer ei chymorth ariannol nac ychwaith wrth gymeradwyo taliadau fel rhan o'r cymorth ariannol a gytunwyd eisoes[28]. Ers hyn mae cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi nodi bydd y diwydrwydd dyladwy o gynigion presennol HoVDC yn cynnwys dadansoddiad o bob cwmni ac unigolyn sydd yn rhan o'r prosiect. Yn dilyn newid eu prosesau, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym bydd y diwydrwydd dyladwy yn cynnwys cwmnïau ac unigolion sy'n gallu cael budd ariannol.

27 Nid yw Rassau Motorsports and Infrastructure Company Limited yn gorfforedig; nid yw partneriaeth gyfyngedig Heads of the Valleys L.P. yn gorfforedig; mae Circuit of Wales Limited yn gorfforedig ond mae'n gwmni segur.

28 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn pwyso ar gwmnïau i fabwysiadu arferion 'cadw cyfrifon agored' sy'n sicrhau tryloywder gyda thaliadau, perfformiad ac elw wrth gontractio gwasanaethau'n allanol, fel un o'r amodau sylfaenol wrth wneud busnes â'r sector cyhoeddus. [Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Open-book accounting and supply-chain assurance**, Mehefin 2015]

3.20 Buom yn edrych ar gyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau gan HoVDC a chan ei gwmnïau cysylltiedig. O dan gyfraith cwmnïau'r DU, nid oes raid i'r un o'r cwmnïau dan sylw gael eu harchwilio na chyflwyno eu cyfrifon elw a cholled i Dŷ'r Cwmnïau (gweler hefyd paragraff 3.15). Felly ychydig iawn o wybodaeth ariannol sydd ar gael o'r cyfrifon a gyflwynwyd. Yn ogystal, mae gan y cwmnïau sy'n rhan o strwythur perchnogaeth HoVDC amrywiaeth o wahanol gyfnodau cyfrifo blynyddol sy'n ei gwneud yn anodd craffu'n allanol ar gyfrifon y cwmnïau hyn. Mae amrywiol gwmnïau wedi darparu nwyddau a gwasanaethau i CoW ar sail 'ffi lwyddo' a risg iddynt eu hunain. Mae'r cwmnïau hyn yn cynnwys y prif gontractwr sydd wedi achosi costau 'ar sail risg' o £8 miliwn dros bum mlynedd. Mewn sawl achos, disgwylir i'r costau a'r ffioedd cronnus hyn gael eu trosi'n ecwiti cyfranddalwyr yn HoVDC wedi cwblhau'r agweddau ariannol. Cawsom ar ddeall gan HoVDC fod gwasanaethau gwerth cyfanswm o £30m wedi eu darparu i HoVDC ar y sail hon. Fodd bynnag, hyd yma nid ymddengys bod y gwasanaethau hyn wedi cael eu datgelu yng nghyfrifon cyflwynedig HoVDC fel rhwymedigaethau neu ddyledion posib[29].

3.21 Roedd y cytundeb gwarant benthyciad a'r PDG yn cymeradwyo defnyddio'r cyllid fel y gallai HoVDC brynu'r hawliau i lwyfannu rownd Brydeinig pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd. Ar 1 Ebrill 2014 llwyddodd HoVDC i sicrhau cytundeb 10 mlynedd i lwyfannu rownd Brydeinig pencampwriaeth y MotoGP. Mae'r contract wedi'i gytuno rhwng daliwr yr hawliau a Circuit of Wales Limited, cwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC. Fodd bynnag yn ôl cyfrifon Circuit of Wales Limited hyd at fis Mehefin 2015, mae'n gwmni segur heb unrhyw asedau na rhwymedigaethau (gweler hefyd paragraff 18).

## Roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu taliadau i gwmnïau perthynol, gan gynnwys bron i £1 miliwn i Aventa, heb ddigon o dystiolaeth bod y gwasanaethau a roddwyd i'r prosiect CoW yn cynnig gwerth am arian

3.22 Roedd y llythyr dyfarnu PDF yn nodi'r meysydd gwariant cymeradwy y gallai HoVDC hawlio ar eu cyfer hyd at y cyfanswm grant o £2m. Roedd yr atodlen o wariant cymeradwy'n cynnwys rhestr o gyflenwyr y byddai angen dangos tystiolaeth o daliadau iddynt i gefnogi hawliadau HoVDC am randaliadau o'r grant, a hawliwyd ac a dalwyd mewn pedwar rhandaliad a ddaeth i gyfanswm o bron i £2 miliwn, rhwng Ionawr 2013 ac Ebrill 2014. Roedd yr amodau'n nodi y dylai tystiolaeth o'r fath fod ar ffurf oedd yn foddhaol i Lywodraeth Cymru, ond nid oedd y llythyr dyfarnu PDG yn nodi'n glir beth oedd y gofynion o ran y ffurf foddhaol hon[30]. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad yw'n nodi pa dystiolaeth o daliadau sydd ei angen arni i gefnogi hawliadau grant fel y gall fod yn hyblyg yn ei

29 Fel rhan o'n gwaith archwilio, rydym wedi ceisio sefydlu a yw'r ffioedd hyn yn cael eu nodi fel dyledwyr yng nghyfrifon y cyflenwyr.

30 Gweler hefyd paragraff 3.12 ynglŷn â gwerth am arian.

dull o ddelio â gwahanol amgylchiadau. Yn yr achos hwn, gofynnwyd a derbyniwyd anfonebau cyflenwyr a datganiadau banc sydd â thystiolaeth bod cyflenwyr wedi derbyn y swm anfonebwyd.

3.23 O dan y cytundeb gwarant benthyciad, roedd HoVDC wedi cyflwyno hawliadau tâl i Lywodraeth Cymru, fel arfer wedi eu cefnogi gan anfonebau cyflenwyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi archwilio'r hawliadau ac wedi awdurdodi'r banc i dalu cyflenwyr HoVDC yn uniongyrchol i fyny at gyfanswm yr arian a fenthycwyd gan y banc i HoVDC. Rhwng 18 Gorffennaf 2014 a'r 14 Ionawr 2016 roedd Llywodraeth Cymru wedi awdurdodi talu 22 o hawliadau. Daeth y taliadau i gyflenwyr a wnaed o dan y cytundeb gwarant benthyciad i dros £6.5 miliwn, ac eithrio taliadau i fanc HoVDC.

3.24 Mae gan lawer o'r cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau i HoVDC berthynas uniongyrchol â'r cyfranddalwyr presennol neu flaenorol, aelodau o'r Bwrdd ac unigolion a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau i HoVDC ac Aventa. Mae llawer o'r perthnasoedd hyn yn dyddio'n ôl cyn i Lywodraeth Cymru roi cymorth ariannol i'r prosiect CoW, ac mae rhai'n drefniadau IR35[31]. Rydym wedi adnabod naw perthynas o'r fath rhwng unigolion a chwmnïau y gwnaed taliadau gydag arian cyhoeddus iddynt (gan neu ar ran HoVDC) wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a dwy berthynas arall lle tybiwyd bod eu costau'n gymwys ond ni chyflwynwyd hawliadau ar eu cyfer.

3.25 Rydym wedi adnabod bod bron i hanner holl werth y taliadau i gyflenwyr, ac eithrio'r taliadau banc, a wnaed gydag arian cyhoeddus drwy'r PDG a'r warant benthyciad, wedi eu gwneud gyda neu drwy gwmnïau perthynol. Fodd bynnag, roedd anfonebau a gyflwynwyd gan gwmnïau perthynol wedi eu cymeradwyo i'w talu gan Lywodraeth Cymru heb dystiolaeth o werth am arian. Mewn nifer o achosion roedd yr anfonebau hyn yn daliadau "cadw" misol heb dystiolaeth bod unrhyw wasanaeth wedi'i ddarparu. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth bod y contractau ar gyfer y gwasanaethau hyn wedi eu tendro'n gystadleuol na bod HoVDC wedi cymryd unrhyw fesurau i reoli gwrthdaro budd posib. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

a oherwydd bod y contractau eisoes yn eu lle, nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y telerau y cawsant eu negodi arnynt;

b roedd swyddogion wedi bodloni eu hunain ynghylch gwerth am arian ar lefel y prosiect cyfan, yn hytrach nag ar lefel contractau gwasanaeth unigol; a

c roedd swyddogion yn ystyried bod cynnydd y prosiect CoW, o ran sicrhau caniatâd cynllunio a negodi contractau adeiladu, yn ddigon o dystiolaeth bod gwasanaethau wedi cael eu darparu.

31 Cyfres o reolau treth incwm ac yswiriant gwladol yw IR35 sy'n llywodraethu a yw'r cyfrifoldeb dros wneud taliadau'n gorwedd gyda'r cleient neu'r contractwr.

3.26 O dan y cytundeb gwarant benthyciad, oherwydd nad oedd gan HoVDC ar y pryd unrhyw ffynonellau cyllid eraill (gweler hefyd paragraff 3.2), roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno gyda HoVDC i gymeradwyo talu costau busnes a theithio cyn dangos unrhyw dystiolaeth o'r costau hynny. Byddai HoVDC yna'n cyflwyno'r anfonebau eu hunain gyda'i hawliad nesaf gyda Llywodraeth Cymru'n addasu'r arian oedd yna'n cael ei dalu. Cafodd dau hawliad costau (cyfanswm o £19,000) eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'u talu gan y banc i HoVDC cyn i Lywodraeth Cymru ganslo'r trefniant oherwydd nad oedd HoVDC wedi dangos digon o dystiolaeth i gefnogi'r hawliadau.

3.27 Nid oes gan HoVDC drwydded gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i godi unrhyw arian buddsoddi rheoledig, felly roedd ganddo gontract â thrydydd parti i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw iddo. Ar 1 Ionawr 2012 lluniodd HoVDC gontract ag Aventa, cwmni wedi'i drwyddedu gan y FCA a'i berchnogi'n llwyr gan Michael Carrick, Prif Weithredwr HoVDC. Arwyddodd Mr Carrick y contract rhwng HoVDC ac Aventa ar ran y ddau gwmni. Roedd y cytundeb hwn yn dyddio'n ôl cyn unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth bod HoVDC wedi dyfarnu'r contract gwasanaeth i Aventa'n dilyn proses gystadleuol. Dywedodd HoDVC wrthym "Arwyddodd dau endid corfforaethol gytundeb am wasanaethau. Maent yn digwydd bod yn rhannu cyfranddaliwr a datgelwyd y gwrthdrawiadau posibl."

3.28 O dan y contract gyda HoVDC, gall Aventa ddarparu ystod eang o wasanaethau'n ymwneud â holl weithgareddau HoVDC, nid dim ond codi arian a gwasanaethau a reoleiddir gan y FCA, yn ogystal ag unrhyw wasanaeth arall os yw'r ddwy ochr yn cytuno. Mae'r contract yn ddiderfyn, o ran amser ac arian, a hefyd yn ôl-weithredol gan ganiatáu talu am wasanaethau a ddarparwyd cyn dyddiad y contract. O dan y contract rhaid i HoVDC dalu ffioedd misol i Aventa ynghyd â ffi wrth gefn fisol a bonws ar ôl 'cwblhau'r agweddau ariannol' (yr arian buddsoddi preifat yn ei le ar gyfer y prosiect CoW). Mae'r contract hefyd yn caniatáu i HoVDC ac Aventa gytuno ar daliadau pellach ac ychwanegol i Aventa. Dywedodd HoVDC wrthym "...mae'r arfer o yrru anfonebau tâl cadw ar gyfer gwasanaethau ariannol o'r math a ddarparwyd gan Aventa yn cynrychioli'r drefn arferol o filio am y gwasanaethau hyn."

3.29 Nid oedd y llythyr dyfarnu PDG i HoVDC dyddiedig 11 Hydref 2012 yn rhestru unrhyw daliadau i Aventa ymhlith y gwariant cymeradwy. Yn Chwefror 2013 diwygiodd Llywodraeth Cymru'r atodlen o wariant cymeradwy'n dilyn derbyn llythyr gan Mr Carrick. Roedd yr atodlen ddiwygiedig o wariant cymeradwy ynghlwm wrth ei lythyr yn cynnwys £10,000 o 'ffioedd cyngor proffesiynol ar godi arian' nad oedd wedi'i restru'n flaenorol fel gwariant cymeradwy yn y llythyr grant. Nid oedd

llythyr eglurhaol Mr Carrick wedi tynnu sylw at y newid arfaethedig hwn nac ychwaith a fyddai'r taliadau'n cael eu gwneud i Aventa. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r newid a mabwysiadu'r atodlen ddiwygiedig ond, erbyn hynny, roedd HoVDC eisoes wedi hawlio £6,873 o'r £10,000. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi'i dalu eto i HoVDC. Oherwydd nad oedd yr elfen hon o'r hawliad wedi'i chefnogi gan unrhyw anfonebau, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr hawliad ac ni thalodd y £6,873 a hawliwyd gan HoVDC.

3.30 Ym mis Gorffennaf 2014 yn ystod trafodaethau rhwng HoVDC a Llywodraeth Cymru cyn cytuno i'r warant benthyciad, roedd HoVDC wedi ceisio cynnwys taliadau i Aventa yn nhrefniant y warant benthyciad oherwydd eu bod, yn ôl HoVDC, yn rhwymedigaethau cytundebol presennol am wasanaethau oedd eu hangen i ddarparu'r prosiect CoW. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn yr adran ES&T yn poeni bod Aventa'n gwmni perthynol a oedd meddent '... yn cyflawni dim busnes arall heblaw darparu'r Gylchffordd[32].' Mewn llythyr gan HoVDC at Lywodraeth Cymru dyddiedig 8 Gorffennaf 2014, roedd y cwmni wedi rhoi sawl sicrwydd i swyddogion, gan gynnwys bod perchenogaeth Michael Carrick o Aventa wedi cael ei ddatgelu'n llawn i Fwrdd HoVDC a bod '....unrhyw wrthdaro'n cael ei drafod yng nghyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd.' Mewn nodyn mewnol diweddarach gan Lywodraeth Cymru i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, dywedodd y swyddog:
'Yn dilyn eich briff i'r Gweinidog yr wythnos ddiwethaf, rwyf wedi cael trafodaeth bellach â chynrychiolwyr [HoVDC]....ac rwyf bellach yn fodlon na fyddai unrhyw un o Gyfarwyddwyr HoVDC yn elwa'n bersonol o'r taliadau hyn, felly rwyf wedi sefyllfa i argymell, yn amodol ar fesurau rheoli cytundebol penodol, y gellir caniatáu'r taliadau hyn[33].'

3.31 Nid oedd y nodyn mewnol yn cynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad na fyddai cyfarwyddwyr HoVDC yn elwa. Ychwaith nid oedd y swyddog wedi datgan yn uniongyrchol na fyddai Mr Carrick yn ei gapasiti fel perchennog Aventa'n elwa. Dywedodd HoVDC wrthym, "Nid oes unrhyw un o Gyfarwyddwyr HoVDC nac Aventa wedi derbyn unrhyw incwm perthynol i weithiwr cyflogedig ers ymgorffori HoVDC." Nodwn bod cyfrifon cyflwynedig Aventa yn dangos bod y cwmni, rhwng Rhagfyr 2013 a Mawrth 2016, wedi gwneud dau fenthyciad i Mr Carrick, sef cyfanswm o £225,000. Fodd bynnag, pan gwnaef y penderfyniad, nid oedd y wybodaeth yma ar gael i'r cyhoedd, nac ychwaith wedi'i ddatgelu gan Aventa i Lywodraeth Cymru.

3.32 Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir yn y cytundeb gwarant benthyciad na fyddai HoVDC yn gwneud unrhyw daliadau i Aventa heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ymlaen llaw. Cafodd y warant benthyciad ei chymeradwyo gan y Gweinidog ar 1 Gorffennaf

32 E-bost, 15 Gorffennaf 2014
33 E-bost, 15 Gorffennaf 2014

2014 a'i chytuno rhwng Llywodraeth Cymru a HoVDC ar 18 Gorffennaf 2014. O dan y cytundeb gwarant benthyciad roedd Llywodraeth Cymru, rhwng Gorffennaf 2014 ac Ionawr 2016, ei hun wedi awdurdodi taliadau gwerth bron i £1 miliwn o fanc HoVDC i Aventa. Roedd anfonebau a gyflwynwyd gan Aventa i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ar gyfer eu talu yn cyfeirio'n syml at daliadau cadw (retainer) misol ac nid yw'r rhain, ar eu pen eu hunain, yn dystiolaeth o werth am arian na thystiolaeth bod gwasanaethau wedi eu darparu (gweler hefyd paragraff 3.28).

3.33 Mewn gohebiaeth i'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2016, roedd Mr David TC Davies AS wedi codi pryderon y gallai arian cyhoeddus a roddwyd i HoVDC fod wedi cael ei ddefnyddio i:

a dalu anfonebau gwerth bron i £35,000 rhwng Mai 2014 a Mehefin 2016 am waith garddio a thirlunio yng nghartref Mr Carrick yn Swydd Gaergrawnt; a

b talu anfonebau gwerth £4,110 yn ymwneud â digwyddiadau gwleidyddol rhwng Rhagfyr 2014 a Thachwedd 2015.

3.34 Daethom i'r casgliad nad HoVDC a wnaeth y taliadau hyn ond Aventa – cwmni ar wahân wedi'i berchnogi'n llwyr gan brif gyfranddaliwr a Phrif Weithredwr HoVDC, Mr Michael Carrick. O ystyried bod Aventa'n derbyn incwm o ddarparu gwasanaethau i HoVDC dan gontract, rydym felly'n fodlon nad yw'r gwariant gan Aventa ei hun yn golygu y defnyddiwyd arian cyhoeddus.

## Nid oedd trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodi taliadau i HoVDC yn ddigon trylwyr

3.35 Cawsom fod y swyddogion yn Llywodraeth Cymru a fu'n ymwneud â'r prosiect CoW drwy ddelio â'r ceisiadau am arian cyhoeddus, drafftio nodiadau briffio a rhoi cyngor i'r Gweinidog i sicrhau penderfyniadau cyllido, hefyd wedi chwarae rôl flaenllaw yn y broses o awdurdodi'r taliadau.

3.36 Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau yn eu lle yn yr adran ES&T lle'r oedd swyddogion yn ymwneud â chefnogi prosiect yn derbyn cyllideb ar sail ar y cyllid oedd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion ar gyfer y prosiect hwnnw. Byddai'r swyddogion yna'n gwirio a oedd yr hawliadau tâl yn unol â'r gwariant disgwyliedig ac wedi eu cefnogi gan y gwaith papur priodol (gweler paragraff 3.22). Byddent yna'n pasio'r hawliad i swyddogion cyllid y gyfarwyddiaeth a byddai'r hawliad yna'n cael ei gwirio am yr eildro gan y swyddogion hyn, a bod daliwr y gyllideb wedi ei hawdurdodi, cyn pasio'r hawliad ymlaen i'w thalu.

3.37 Er y dylai’r trefniadau hyn wahanu gwahanol ddyletswyddau’n briodol, cawsom mai defnydd anghyson a wnaed ohonynt yn ymarferol. Yn enwedig, roedd y tîm cyllid (oedd yn llai cyfarwydd â manylion y Prosiect) yn tueddu i ildio i farn daliwr y gyllideb wrth gymeradwyo hawliadau i’w talu.

3.38 Ym mis Rhagfyr 2012 roedd HoVDC wedi cyflwyno ei hawliad cyntaf i Lywodraeth Cymru o dan y PDG. Roedd hyn yn cynnwys hawliad i dalu £200,000 ar gyfer pryniant amodol y prif safle. I gefnogi’r hawliad, roedd HoVDC wedi cynnwys gwybodaeth gan eu cyfreithwyr yng nghyswllt cwblhau’r pryniant yn ogystal â chopïau o dudalen glawr a thudalen lofnodion contract a gytunwyd rhwng HoVDC a’r tirfeddiannwr, ond nid oedd wedi rhoi copi o’r contract llawn i Lywodraeth Cymru.

3.39 Derbyniodd Llywodraeth Cymru’r papurau fel tystiolaeth bod contract amodol wedi’i gytuno ac felly bod yr amod yn y grant ynghylch prynu tir wedi cael ei gwrdd (gweler hefyd paragraff 3.7). Ar 3 Ionawr hysbysodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru o fewn ei dîm prosiect Mr Carrick: ‘Rwyf hefyd wedi bod drwy’r hysbysiad ‘tynnu grant i lawr’ a gyflwynwyd gennych ar 17 Rhagfyr a nodaf fod y ddwy eitem yr ydych yn hawlio ar eu cyfer yn wir ymhlith y meysydd gwariant cymwys a restrir yn Atodlen 1 y cynnig grant....a allwch gadarnhau i mi fod y symiau hyn wedi eu rhyddhau gan y cyfreithwyr i’r cleientiaid perthnasol a bod y taliadau’n rhai na ellir eu had-dalu o gwbl.’

3.40 Ar 4 Ionawr 2013 roedd cyfreithiwr HoVDC wedi cadarnhau i’r swyddog yn Llywodraeth Cymru bod £100,000 wedi’i drosglwyddo i gyfreithiwr y gwerthwr ar 17 Rhagfyr 2012 a’i dalu i’r gwerthwr ond, yn unol â’r contract, bod £100,000 arall yn cael ei ddal gan gyfreithiwr y gwerthwr ‘mewn ysgrow’ fel blaendal. Mae’n gyffredin mewn trafodion busnes o’r fath i flaendal gael ei ddal, a naill ai ei dalu neu ei ad-dalu gan ddibynnu a yw’r gwerthiant terfynol yn cwblhau. Nid yw blaendaliadau o’r fath fel arfer yn gymwys am grant hyd nes y telir hwynt i’r gwerthwr. Fodd bynnag, ar 11 Ionawr roedd y swyddog yn Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo ei gydweithwyr cyllid i gymeradwyo talu’r £200,000 yn llawn. Talwyd y swm yma i HoVDC ar 16 Ionawr 2013 er nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweld y rhannau perthnasol o’r contract gwerthiant amodol.

3.41 Nodwn, yn groes i’r trefniadau oedd ar waith yn yr adran ES&T yn ymwneud â rheoli cyllid ar gyfer y prosiect CoW, fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)[34] yn gwahanu’n glir rhwng dyletswyddau swyddogion sy’n ymwneud â chefnogi ceisiadau am gyllid, a swyddogion sy’n ymwneud â chymeradwyo hawliadau a monitro cynnydd y prosiect CoW.

34 Mae WEFO yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am weinyddu cyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Rhan 4

# Roedd y grant o £2 miliwn yn cynnwys £0.3 miliwn i brynu FTR, cwmni peirianneg beiciau modur, sy’n anghyson â phwrpas y grant



## Ni allai Llywodraeth Cymru egluro i ni mewn ffordd oedd yn ein bodloni pam yr oedd wedi cymeradwyo grant, oedd i fod ar gyfer datblygiad eiddo, fel y gallai HoVDC brynu cwmni peirianneg beiciau modur

4.1 Roedd HoVDC wedi cyflwyno achos ffurfiol am PDG o £2 miliwn i Lywodraeth Cymru, dyddiedig 20 Mawrth 2012. Diben y grant oedd cefnogi cam un y prosiect CoW drwy gyfrannu tuag at £9.715 miliwn o wariant arfaethedig gan HoVDC a dybiwyd i fod yn gymwys o dan y cynllun PDG. Nid oedd y cais yn cyfeirio o gwbl at brynu cwmni FTR. Fodd bynnag, roedd cwmni peirianneg beiciau modur, FTR Moto LLP, wedi ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r prosiect CoW, dyddiedig 11 Medi 2011, yn nodi y byddent yn barod i ystyried symud o Swydd Buckingham i ardal Glyn Ebwy. Roedd y llythyr wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan HoVDC i gefnogi ei gais am PDG.

4.2 Ym mis Hydref 2012 dyfarnodd Llywodraeth Cymru PDG o £2 miliwn i HoVDC. Roedd y llythyr dyfarnu grant gan Lywodraeth Cymru i HoVDC dyddiedig 11 Hydref 2012 yn enwi 'FTR' o dan y pennawd 'pryniannau tir' yn yr atodlen o wariant cymeradwy. Roedd FTR wedi cael ei brynu ar 28 Medi 2012 cyn i Lywodraeth Cymru ddyfarnu'r PDG i HoVDC. Fodd bynnag, roedd y llythyr dyfarnu grant yn ôl-ddyddio'r cyfnod oedd yn berthnasol i'r grant i'r 1 Awst 2012, sef cyn penderfyniad y Gweinidog ar 9 Awst 2012 i ddyfarnu'r grant. Nid oedd y cyflwyniad i'r Gweinidog yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n dyfarnu'r PDG i HoVDC wedi sôn am gymeradwyo unrhyw arian cyhoeddus i brynu FTR (gweler hefyd paragraff 2.6) nac ychwaith y byddai'r grant yn cael ei ôl-ddyddio.

4.3 Yn enwedig, cawsom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau copi o'r contract a gytunwyd rhwng HoVDC a gwerthwyr FTR; yn hytrach roedd y contract hwn wedi'i ddarparu i ni gan HoVDC. O dan delerau'r contract, roedd HoVDC wedi cytuno i brynu enw brand FRT Moto ac asedau FTR Moto LLP yn ogystal ag asedau cwmni cysylltiedig, Fabrication Techniques UK Limited. Roedd HoVDC wedi trosglwyddo'r rhain i gwmni newydd, ac yna wedi ei enwi'n FTR Moto Limited, gan benodi cyfarwyddwyr iddo. Nid yw Mr Carrick yn un o gyfarwyddwyr FTR Moto Limited er ei fod wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC lle mae'n brif gyfranddaliwr.

4.4 Nid yw penderfyniad HoVDC i brynu cwmni sy'n arbenigo mewn gwneud cydrannau beiciau modur rasio'n gyson â phwrpas y PDG, oedd fod i gefnogi cam un y prosiect CoW sef prynu tir, sicrhau'r caniatadau cynllunio angenrheidiol, a sicrhau cyllid.

4.5 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu egluro i ni'n foddhaol sut y gallai pryniant o'r fath gyfrannu at y paratoadau cynllunio angenrheidiol cyn adeiladu'r gylchffordd rasio yng Nglyn Ebwy. Nid yw Llywodraeth Cymru ychwaith wedi gallu darparu unrhyw ddogfennau o'r un cyfnod i ni'n ymwneud â chymeradwyo'r pryniant fel rhan o'r PDG. Fodd bynnag, rydym wedi gweld drafft cynharach o'r llythyr dyfarnu grant, dyddiedig 31 Awst 2012, ac nid oedd yn cynnwys yr eitem 'FTR'.

4.6 Eglurodd Mr Carrick i ni fod HoVDC yn bwriadu manteisio ar gysylltiadau FRT â MotoGP ac, yn y pen draw, ail-sefydlu'r busnes yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2016 roedd wedi anfon nodyn at Lywodraeth Cymru'n egluro'r rhesymeg dros y pryniant:

'Prynodd Heads of the Valleys Development Company Limited asedau ac enw brand Fabrication Technique Racing (FTR) ym mis Medi 2012 am tua £300,000. Roedd hyn yn bwrpas cymeradwy o dan gytundeb cyllid Llywodraeth Cymru. Mae £325,000 pellach o gyllid preifat wedi cael ei fuddsoddi mewn datblygu a rheoli'r busnes.

Cwmni peirianneg arbenigol bychan wedi'i leoli yn Swydd Buckingham yw FTR sy'n dylunio beiciau rasio ar gyfer Moto 2, Moto 3 a MotoGP. Roedd ganddynt enw da ac enillgar a..... Y rhesymeg dros brynu'r cwmni oedd er mwyn:

a sefydlu tîm rasio yn y DU a fyddai'n arwain at reidiwr o Gymru...yn cystadlu ar feic wedi'i wneud yng Nghymru mewn digwyddiad MotoGP yng Nghymru yn 2014. Y disgwyl oedd y byddai hyn yn cynyddu maint y presenoldeb gwylio yng Nghymru o tua 15-20,000...

b dyfnhau a chryfhau'r berthynas gyda [chorff modurol – enw wedi'i olygu] a chymeradwyo eu hamcan o sefydlu Clinig ac Academi MotoGP yn y DU.

c darparu lleoliad gweithgynhyrchu beiciau a pheiriannau rasio ar gyfer cylchffyrdd rasio a diwrnodau trac a chyfres safonedig yn y DU.

ch cyfrannu at ddarparu rhai o ofynion peirianyddol mwy arbenigol y gwaith o adeiladu'r gylchffordd a defnyddio'r dechnoleg space-frame i gynhyrchu beiciau a cherbydau trac, ac oddi-ar-y-trac, at ddefnydd academi ac adloniant corfforaethol.

d datblygu beic Café Racer unigryw o frand Cymreig i'w werthu ac i gefnogi'r ochr werthu.

dd dod yn bartner [gyda thîm rasio ceir Formula One – enw wedi'i olygu], i greu llwyfan ar gyfer beiciau trydan.'

4.7 Nid yw'r un o'r pwrpasau hyn yn gyson ag amcanion arfaethedig y PDG nac ychwaith yn cyd-fynd â gofynion cam un y prosiect CoW, y cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r PDG ar ei gyfer.

## Roedd y cyllid ar gyfer FTR Moto Limited wedi'i ddileu yng nghyfrifon cwmni HoVDC ac yna, ym mis Hydref 2016, roedd FTR Moto Limited wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr

4.8 Roedd HoVDC wedi cyflwyno ei hawliad am randaliad cyntaf y PDG i Lywodraeth Cymru, dyddiedig 17 Rhagfyr 2012, oedd yn cynnwys y 'pris prynu o £300,000 ynghyd â chostau trafodiad busnes cysylltiedig, a chyfalaf gweithio ar gyfer FTR Moto LLP'. Ar 3 Ionawr roedd y swyddog yn Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am gymeradwyo talu hawliadau grant HoVDC wedi cadarnhau wrth Mr Carrick bod yr hawliad hwn o fewn y gwariant cymeradwy wrth gynnig y PDG, ond wedi gofyn am fwy o waith papur i gefnogi'r hawliad (gweler hefyd paragraffau 3.38 i 3.39).

4.9 Ar 10 Ionawr 2013 roedd HoVDC wedi darparu'r gwaith papur hwn i gefnogi ei hawliad o'r grant. Roedd hyn yn cynnwys copi o ddogfen yn trosglwyddo £300,000 o gyfrif banc HoVDC i gyfrif cleient gan gwmni cyfreithiol wedi'i leoli ym Milton Keynes, dyddiedig 1 Hydref 2012, ynghyd â chopi o ddatganiad cwblhau'r cyfreithiwr, dyddiedig 3 Ionawr 2013. Roedd Llywodraeth Cymru, yn gwbl gywir, wedi tynnu eitem wariant wedi'i nodi ar y datganiad cwblhau fel 'balans wedi'i dalu i FTR Moto Ltd ar 10 Hydref 2012 £24,039' oherwydd ei fod yn gyfalaf gweithio ac nid yn gymwys o dan amodau'r grant. Ar 16 Ionawr 2013 roedd Llywodraeth Cymru felly wedi talu £275,961 i setlo'r hawliad hwn.

4.10 Roedd HoVDC wedi trosglwyddo peth o'r arian i FTR Moto Limited, arian oedd yna wedi cael ei ddileu[35]. Roedd cyfrifon HoVDC a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mai 2013 yn nodi 'buddsoddiadau asedau sefydlog' o £500,001 a ddisgrifiwyd fel 'cyfranddaliadau a benthyciadau i is-gwmni'. Roedd cyfrifon HoVDC am 2013-14 yn cofnodi colled o £356,000 gan FTR Moto Limited. Dengys cyfrifon HoVDC am 2014-15 golled bellach o £57,000 a bod benthyciad gan HoVDC i FTR o £29,149 wedi cael ei dileu. Roedd cyfrifon HoVDC am 2015-16 yn dileu colled arall o £96,000. Fodd bynnag, mae cyfrifon FTR Moto Limited ei hun yn anodd eu cysoni â chyfrifon ei riant-gwmni oherwydd bod gan y cwmnïau wahanol gyfnodau cyfrifyddu, er bod FTR Moto Limited wedi newid ei gyfnod cyfrifyddu droeon ers 2012, ac er bod HoVDC hefyd wedi newid ei gyfnod cyfrifyddu. O dan gyfraith y DU nid oes raid i gyfrifon yr un o'r ddau gwmni gael eu harchwilio.

35 Dywedodd HoVDC wrthym ei fod wedi cyllido FTR Moto o ffynonellau nad oeddent yn rhai PDG er mwyn darparu cefnogaeth barhaus tra'r oedd penderfyniadau ar y prosiect CoW dan ystyriaeth.

4.11 Methodd FTR Moto Limited â chyflwyno ei gyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2015, felly ar 30 Awst 2016 cyflwynodd Tŷ'r Cwmnïau rybudd y byddai'r cwmni'n cael ei dynnu'n orfodol oddi ar y gofrestr cwmnïau. O'r diwedd cyflwynwyd cyfrifon y cwmni am 2015 ar 30 Medi 2016, yn dangos dyledion o £508,709. Aeth FTR Moto Limited i ddwylo'r gweinyddwyr ar 16 Hydref 2016.

4.12 Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried a oedd prynu FTR gan HoVDC, gan ddefnyddio arian cyhoeddus, yn werth da am arian. Methodd Llywodraeth Cymru hefyd â chyflawni unrhyw ddiwydrwydd dyladwy nac ychwaith unrhyw ymholiadau eraill i sefyllfa ariannol FTR.

4.13 Roedd datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru ar 8 Ebrill 2016 yn ymateb i'r pryderon a godwyd gan Mr David TC Davies AS, bod HoVDC wedi prynu FTR Moto Ltd, yn datgan:
'Gallwn gadarnhau na ddefnyddiwyd unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru i brynu a thuag at gostau rhedeg parhaus FTR Moto Ltd gan HoVDC. Nodiadau – Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £7.35 miliwn ar delerau masnachol tuag at y costau oedd yn gysylltiedig â datblygu'r prosiect cymhleth hwn.'

Mae'r datganiad i'r wasg yn anghywir a chamarweiniol oherwydd:

a Nid oedd HoVDC wedi prynu 'FTR Moto Ltd'; yn hytrach, prynodd asedau gan FTR Moto LLP a Fabrication Techniques UK Limited, oedd yna wedi cael eu trosglwyddo i gwmni newydd a ail-enwyd yn FTR Moto Limited;

b yr oedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo PDG o £300,000 ar gyfer y pryniant, a £275,961 ohono wedi'i dalu i HoVDC; a

c yr oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £9.33 miliwn o gyllid ar gyfer y prosiect CoW, gyda £2 miliwn ohono'n PDG.

4.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro wrthym fod y camgymeriadau hyn wedi codi yn y tîm oedd yn gyfrifol, oedd ond wedi gwirio yn erbyn gwariant y gwarant benthyciad o £7.33 miliwn, gan anghofio am y PDG o £2 miliwn. Mae'r camgymeriadau hyn yn ein synnu o ystyried mai'r tîm hwn hefyd oedd yn uniongyrchol gyfrifol am:

a gytuno bod prynu'r cwmni FTR yn wariant cymwys o dan y PDG; ac

b adolygu hawliadau o dan atodlen wariant y PDG oedd yn cynnwys FTR Moto.

# Atodiadau



# Atodiad 1 - Trefn a dulliau ein harchwiliad

## Cwmpas

Ym mis Gorffennaf 2013 ysgrifennodd Aelod o'r Cynulliad at yr Archwilydd Cyffredinol am y prosiect CoW yn lleisio pryderon ynghylch pa mor fasnachol hyfyw oedd y gylchffordd rasio, pa mor drylwyr oedd diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru a doethineb buddsoddi arian cyhoeddus yn y prosiect CoW. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod eisoes wedi dyfarnu grant o £2 miliwn ond y byddai'n adolygu unrhyw gynnig pellach gan HoVDC yn drwyadl cyn ymrwymo mwy o arian i gam adeiladu'r prosiect CoW. Bryd hynny roedd Llywodraeth Cymru'n rhagweld y byddai unrhyw gymorth ariannol o'r fath, pe bai'n cael ei gytuno, yn oddeutu £30 miliwn. Ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Aelod o'r Cynulliad drwy ddweud y byddai'n cadw briff gwylio agos ac efallai'n penderfynu archwilio'r sefyllfa'n fanwl os oedd mwy o arian cyhoeddus yn cael ei ymrwymo i'r prosiect CoW.

Ym mis Gorffennaf 2016 ysgrifennodd Mr David TC Davies AS at yr Archwilydd Cyffredinol yn lleisio pryderon ynghylch sut yr oedd arian cyhoeddus a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r prosiect CoW efallai wedi cael ei ddefnyddio (gweler Atodiad 4). Yn benodol, y taliadau a wnaed i HoVDC yng nghyswllt:

- anfonebau o bron i £35,000 am wasanaethau garddio a thirlunio yng nghartref Mr Michael Carrick (Prif Weithredwr HoVDC) yn Swydd Buckingham rhwng Mai 2014 a Mehefin 2016;
- cyfanswm o £969,000 a drosglwyddwyd gan HoVDC i Aventa, cwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Mr Carrick sy'n darparu gwasanaethau i HoVDC;
- prynu FTR Moto Limited, cwmni arbenigol yn gwneud cydrannau beiciau modur rasio wedi'i leoli yn Swydd Buckingham a brynwyd gan HoVDC ym mis Medi 2012 gydag arian grant o £275,961 gan Lywodraeth Cymru;
- a oedd anfonebau i Aventa gwerth £4,110 yn ymwneud â digwyddiadau gwleidyddol rhwng Rhagfyr 2014 a Thachwedd 2015 wedi eu talu gyda'r arian cyhoeddus a roddodd Llywodraeth Cymru i HoVDC; a
- a ddefnyddiwyd arian cyhoeddus gan HoVDC neu gan gwmni neu gwmnïau eraill a reolir gan Mr Carrick i brynu'r hawl i lwyfannu rownd Brydeinig pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd.

Yn Awst 2016, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, fe ddechreuasom ymchwilio i bryderon Mr Davies ac ym mis Hydref 2016 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddem yn ehangu ein hadolygiad archwilio o'r pryderon hyn i edrych hefyd ar agweddau pellach ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect CoW. Mae ein hadolygiad archwilio wedi canolbwyntio ar ba mor dda y mae Llywodraeth Cymru wedi:

- gwneud y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect CoW;
- rheoli risg drwy gymhwyso amodau ar gyfer rhoi arian cyhoeddus i'r Prosiect CoW; a
- sicrhau ei hun bod yr arian a roddwyd yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas oedd mewn golwg.

Nid ydym wedi:

- adolygu'n fanwl sut yn union y defnyddiwyd yr arian cyhoeddus a roddwyd i'r prosiect CoW;
- edrych yn uniongyrchol ar ymddygiad unigolion neu endidau sy'n gysylltiedig â'r prosiect CoW;
- adolygu pryniant Circuit of Wales Limited (cwmni segur wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC) o gytundeb hawliau 10 mlynedd i lwyfannu MotoGP ar 1 Ebrill 2014;
- adolygu llwyfannu rowndiau Prydeinig y bencampwriaeth MotoGP yn Silverstone yn 2015 a 2016, a wnaeth golledion ariannol i grŵp cwmnïau HoVDC;
- edrych ar ba mor hyfyw yw'r achosion busnes ar gyfer y gylchffordd rasio na'r cynllun CoW[36] nac ychwaith wedi profi honiadau a wnaed gan HoVDC ynghylch creu swyddi, manteision economaidd neu fanteision cymdeithasol ehangach yn deillio o'r cynllun yn gyffredinol;
- gwerthuso adolygiadau o achos busnes y prosiect CoW a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, na gwerth am arian y cyngor allanol a brynodd Llywodraeth Cymru[37]; nac ychwaith wedi
- asesu haeddiannau rhoi mwy o gymorth arian cyhoeddus i'r prosiect CoW.

36 Rydym wedi adolygu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth a dderbyniodd gan HoVDC i gefnogi bidiau'r cwmni am gyllid cychwynnol, ond heb werthuso'r wybodaeth ei hun.

37 Hyd at fis Mai 2016 daeth y costau hyn i gyfanswm o £393,000, ac eithrio costau amser yn ymwneud â gwasanaethau mewnol Llywodraeth Cymru. Ar gais gan Lywodraeth Cymru, gellir adennill gan HoVDC unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â'r warant benthyciad a roddodd Lywodraeth Cymru i'r cwmni, ynghyd â'r £7.35 miliwn a dalwyd gan Lywodraeth Cymru i fanc HoVDC.

## Dulliau

Wrth gyflawni'r adolygiad rydym wedi casglu ac adolygu tystiolaeth ddogfennol gan Lywodraeth Cymru a chan ffynonellau cyhoeddus fel Tŷ'r Cwmnïau. Rydym hefyd wedi cwrdd, ac wedi adolygu gwybodaeth benodol a roddwyd i ni gan Mr David TC Davies AS.

Rydym wedi cwrdd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru a hefyd ag unigolion allweddol o'r prosiecr CoW i'w holi.

Rydym wedi rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a CoW ddarparu sylwadau ar ein hadroddiad cyn ei gyhoeddi, o ran ei gywirdeb ffeithiol, ei gyflawnder a'i gydbwysedd.

Mae ein hadroddiad cyhoeddedig yn cyflwyno'r ffeithiau sylfaenol, casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag argymhellion penodol ganddo i Lywodraeth Cymru i'w hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 2 - Geirfa o dermau a byrfoddau

| | |
|---|---|
| Aventa | Aventa Capital Partners Limited, cwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Brif Weithredwr HoVDC Michael Carrick ac wedi'i gontractio gan HoVDC i godi arian buddsoddi preifat ar gyfer y prosiect CoW. |
| Circuit of Wales Limited | Cwmni segur wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC. Ar 1 Ebrill 2014 llwyddodd Circuit of Wales Limited i sicrhau prydles 10 mlynedd i lwyfannu rasys pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd yn y DU. |
| Tir comin | Roedd y tir comin lle bwriedir adeiladu cylchffordd rasio CoW arno'n dir yr oedd datblygu arno wedi'i reoli'n llym a lle'r oedd gan bobl ar wahân i'r tirfeddiannwr hawliau drosto, er enghraifft i bori da byw. I ganiatáu ei ddatblygu, ym mis Tachwedd 2015, penderfynodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ganiatáu cais HoVDC i ddad-ddosbarthu a chyfnewid y tir comin. |
| CoW | Trac rasio Cylchffordd Cymru. |
| Y prosiect CoW (y Prosiect) | Dau gam cyntaf y cynllun CoW, y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer. Hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol i gam un ac wedi cytuno i roi cyllid RBF ar gyfer cam dau y prosiect CoW. |
| Y cynllun CoW | Bwriad ehangach y datblygwyr i ddatblygu'r safle ymhellach ar ôl cyflawni'r prosiect CoW, gan gynnwys parc busnes technoleg fodurol a chyfleusterau hamdden, y mae'r datblygwyr yn debygol o ofyn am fwy o arian cyhoeddus ar eu cyfer. Mae'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach posib yn debygol o ddeilio'n bennaf o'r datblygiadau mwy hirdymor hyn yn hytrach nag o adeiladu a rhedeg y gylchffordd rasio ei hun. |
| Diwydrwydd dyladwy | Y broses o wybod digon am bwy y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwneud busnes â nhw er mwyn adnabod unrhyw risgiau posib; gan gynnwys cyfeiriad penodol at y math o drafodiad busnes a'i ganlyniadau arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| ES&T | Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am drafod y cymorth ariannol â HoVDC a hefyd am reoli'r hawliadau a chymeradwyo'r taliadau. (Adran Economi a Seilwaith erbyn hyn) |
| FCA | Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol; sef y corff trwyddedu a rheoleiddio ar gyfer y diwydiant gwasanaethau ariannol. Mae HoVDC yn talu Aventa am wasanaethau a reoleiddir gan y FCA o dan gontract gwasanaeth. |
| Cwblhau'r Agweddau Ariannol | Cyfres gymhleth o drafodion rhyng-ddibynnol a chydgysylltiedig fel bo'r prosiect CoW yn gallu symud ymlaen o gam un i gam dau gyda'r cyllid buddsoddi preifat, perchnogaeth o'r tir a'r ymrwymiadau arian cyhoeddus i gyd yn eu lle. |
| FTR | Prynodd HoVDC asedau ac enwau masnachu FTR Moto LLP a Fabrication Techniques UK Ltd cyn eu trosglwyddo i gwmni newydd ac ail-enwi'r cwmni hwnnw'n FTR Moto Ltd. |
| HoVDC | Heads of the Valleys Development Company Limited, sef y cwmni a sefydlwyd gan y datblygwyr i reoli camau cychwynnol y prosiect CoW. |
| IR35 | Cyfres o reolau treth incwm ac yswiriant gwladol sy'n llywodraethu ai'r cleient neu'r contractwr sy'n gyfrifol am wneud taliadau. |
| Cytundeb gwarantu benthyciad | Gwarant gan Lywodraeth Cymru a gytunwyd ar 18 Gorffennaf 2014 lle byddai Llywodraeth Cymru'n talu'r costau llawn os na fyddai HoVDC yn gallu talu benthyciad banc yn ôl. Pan na allai HoVDC dalu'r benthyciad yn ôl, talodd Llywodraeth Cymru £7.334 miliwn i'r banc ym mis Mai 2016. Mae HoVDC yn atebol am dalu'r swm hwn yn ôl i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r llog a ffioedd. |

| | |
|---|---|
| Hawliadau talu | Ceisiadau gan HoVDC i Lywodraeth Cymru gymeradwyo symiau ar gyfer eu talu. O dan y cytundeb PDG roedd HoVDC yn hawlio gan Lywodraeth Cymru am daliadau yr oedd HoVDC eisoes wedi eu gwneud i gyflenwyr. Rhwng Ionawr 2013 ac Ebrill 2014, talodd Llywodraeth Cymru £1,999,870 mewn pedwar rhandaliad i HoVDC.<br>O dan y cytundeb gwarantu benthyciad, roedd HoVDC yn cyflwyno sypiau o geisiadau tâl i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu gwirio. Byddai Llywodraeth Cymru yna'n awdurdodi banc HoVDC i dalu'r cyflenwyr yn uniongyrchol, hyd at gyfanswm y benthyciad a gytunwyd. Rhwng 18 Gorffennaf 2014 a'r 14 Ionawr 2016 roedd Llywodraeth Cymru wedi awdurdodi talu 22 o hawliadau. |
| PDG | Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £2 miliwn i HoVDC ar gyfer cam un y prosiect CoW, ac o'r swm hwn roedd Llywodraeth Cymru wedi talu £1,999,870 i HoVDC. Nid yw'r PDG yn ad-daladwy oni bai fod HoVDC yn methu â chwrdd ag amodau'r grant. Gan ddibynnu ar i ba raddau y byddai'n methu â chwrdd â'r amodau, gallai orfod talu'r cyfan neu ran o'r grant yn ôl. |
| Cynllun PDG | Y cynllun cyllido gyda'r pwrpas o greu swyddi drwy gefnogi costau'n gysylltiedig â datblygu tir cyflogaeth ac adeiladau busnes; o dan y cynllun hwn roedd Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu grant o £2 miliwn i HoVDC ar gyfer cam un y prosiect CoW. |
| Cam un | Cam cyntaf y prosiect CoW yn cynnwys sicrhau opsiynau tir, caniatadau cynllunio, contractau adeiladu a'r cyllid angenrheidiol i symud ymlaen at gam dau. |
| Cam dau | Ail gam y prosiect CoW yn cynnwys y gwaith caib a rhaw o adeiladu'r gylchffordd rasio, y standiau eistedd a'r padog. Y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer cam dau yw £430 miliwn. |

| | |
|---|---|
| RBF | Cyllid Busnes Ad-daladwy; benthyciad cymeradwy o £16 miliwn gan Lywodraeth Cymru i HoVDC. Hyd yma nid oes unrhyw arian wedi'i ddarparu oherwydd nid yw'r prosiect CoW eto wedi cwrdd â'r amodau yn y cynnig RBF, dyddiedig 30 Mehefin 2014 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. |
| Cymorth Gwladol | Gallai arian cyhoeddus i fusnesau gynnwys Cymorth Gwladol gwrth-gystadleuol a allai, os bodlonir amodau penodol, gael ei farnu i fod yn anghyfreithlon gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Tanysgrifennu | Mae gwarantau Llywodraeth Cymru yn bodoli i ddelio â'r prinder arian sydd ar gael i gyllido dyledion tymor hir o fewn y marchnadoedd ariannol ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Maent yn trosglwyddo'r risg am y swm a warantwyd i Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny leihau'r risg gyffredinol i fenthycwyr a buddsoddwyr sector preifat fel y cânt eu hannog i dderbyn cyfraddau llog is a thaliadau difidend llai gan HoVDC. Byddai hyn yn cynyddu'r gwir adenillion (elw) sydd ar gael i ddatblygwyr ac felly mae Llywodraeth Cymru yn codi tâl masnachol cyfatebol am ddarparu gwarantau o'r fath. |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu arian yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru. |
| WIDAB | Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru; bwrdd cynghori o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch a ddylid cefnogi prosiectau neu beidio. |

# Atodiad 3 - Amserlen y digwyddiadau allweddol

**Mehefin 2011**

Cafodd HoVDC ei gorffori; ei Brif Weithredwr a'i brif gyfranddaliwr yw Mr Michael Carrick.

**2012 Ionawr**

Cytunodd HoVDC gontract gwasanaeth ag Aventa, cwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Mr Michael Carrick, a arwyddodd y contract ar ran y ddau gwmni. Mae'r contract yn darparu bod HoVDC yn talu ffioedd misol i Aventa ynghyd â ffi wrth gefn a bonws os yw'r prosiect CoW yn 'cwblhau'r agweddau ariannol' (sicrhau bod pecyn buddsoddi yn ei le).

**Mawrth 2012**

Cyflwynodd HoVDC achos busnes i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol ar gyfer y cynllun CoW. Ar y pryd roedd HoVDC wedi rhagweld y byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau ym mis Ebrill 2013 fel y gellid llwyfannu rasys MotoGP 2015 ar y gylchffordd orffenedig.

**2012 Medi**

Prynodd HoVDC asedau ac enw masnachu cwmni peirianneg beiciau modur wedi'i leoli yn Swydd Buckingham cyn eu trosglwyddo i gwmni newydd ac ail-enwi'r cwmni hwnnw'n FTR Moto Limited.

**Hydref 2012**

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru PDG o £2 miliwn i HoVDC i gefnogi cam un y prosiect CoW; wedi'i ôl-ddyddio i fis Awst 2012 ac yn cynnwys hyd at £0.3 miliwn am brynu FTR. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r ymrwymiad arian cyhoeddus posib a fyddai ei angen i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r gylchffordd fod yn £30 miliwn.

**2012 Rhagfyr**

Arwyddodd HoVDC gontract gwerthiant amodol i brynu tir comin lle bydd y gylchffordd yn cael ei hadeiladu os bydd y prosiect CoW yn mynd yn ei flaen.

**Ionawr 2013**

Y cyntaf o bedwar taliad o'r PDG wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i HoVDC, yn hawlio bron i £0.5 miliwn am gytundeb amodol i brynu tir ar gyfer y prif safle ac i brynu FTR.

**2013 Chwefror**

Cyflwynodd HoVDC gais am ganiatâd cynllunio amlinellol i BGCBC i adeiladu'r cynllun CoW, yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon modur i gynnwys y gylchffordd rasio, parc busnes technoleg chwaraeon modur, cyfleusterau gwesty a hamdden a pharc cynhyrchu ynni solar.

## Gorffennaf 2013

Ysgrifennodd Aelod o'r Cynulliad at yr Archwilydd Cyffredinol yn lleisio pryderon ynghylch pa mor fasnachol hyfyw oedd CoW, pa mor drylwyr oedd diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru, a doethineb buddsoddi arian cyhoeddus. Ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol drwy ddweud y byddai'n cadw briff gwylio agos ac efallai'n penderfynu archwilio'r sefyllfa'n fanwl os oedd mwy o arian cyhoeddus yn cael ei ymrwymo i'r prosiect CoW.

## 2013 Awst

Penderfynodd y Gweinidog Tai ac Adfywio, sy'n gyfrifol am gynllunio, godi'r cyfarwyddyd "dal yn ôl" gan Lywodraeth Cymru, oedd wedi atal BGCBC rhag rhoi caniatâd cynllunio i'r prosiect CoW.

## 2013 Medi

Rhoddodd BGCBC ganiatâd cynllunio amlinellol i'r cynllun CoW. O dan un o'r amodau ar y caniatâd roedd angen dad-ddosbarthu'r tir comin lle'r oedd y gylchffordd i gael ei hadeiladu arno.

## Rhagfyr 2013

Gwnaeth y prosiect CoW gais am i'r tir comin lle bwriedir adeiladu'r gylchffordd arno gael ei ddad-ddosbarthu ac am gyfnewid a dosbarthu tir arall yn dir comin yn ei le.

## 2014 Mawrth

Cyflwynodd HoVDC gais i Lywodraeth Cymru am fenthyciad cyllid RBF i gefnogi cam dau y prosiect CoW.

## Ebrill 2014

Talodd Llywodraeth Cymru'r pedwerydd a'r taliad olaf PDG i HoVDC. Daeth y pedwar taliad i gyfanswm o £1,999,870. Llwyddodd Circuit of Wales Limited, cwmni segur wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC, i sicrhau prydles o ddeng mlynedd i lwyfannu MotoGP yn y DU.

## 2014 Mehefin

Yn dilyn cyfarfod o'r WIDAB ar 3 Mehefin, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at HoVDC yn cynnig £16 miliwn o gyllid RBF i gefnogi cam dau sef cam adeiladu'r prosiect CoW, ar yr amod bod y prosiect yn cwrdd ag amodau penodol. Ni ofynnwyd am, ac ni thalwyd, unrhyw arian hyd yma a daw'r cynnig i ben ym mis Mawrth 2018.

Yn dilyn ymchwiliad ar gais Prif Weinidog Cymru, cafwyd bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi torri'r Cod Gweinidogol drwy beidio â gwahaniaethu'n ddigonol rhwng ei rôl fel y Gweinidog oedd yn gyfrifol am Gyfoeth Naturiol Cymru a'i rôl fel yr Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent, wrth gyfathrebu â chorff Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch effaith amgylcheddol CoW.

## Gorffennaf 2014

Cytunodd Llywodraeth Cymru i warantu benthyciad banc i alluogi HoVDC i dalu cyflenwyr, llawer ohonynt yn gwmnïau perthynol, gan gynnwys Aventa sy'n gwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Mr Carrick.

**Rhagfyr 2014**

Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn negyddol i ymholiad dechreuol gan BGCBC ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru'n ystyried tanysgrifennu benthyciad o £40 miliwn gan BGCBC i'r prosiect CoW.

**Tachwedd 2015**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gais HoVDC i ddad-ddosbarthu a chyfnewid tir comin, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus.

**Ebrill 2016**

Gofynnodd banc HoVDC i'r cwmni dalu'r benthyciad banc oedd wedi'i warantu gan Lywodraeth Cymru'n ôl. Ni allai HoVDC dalu'r benthyciad yn ôl.

Gwrthododd Llywodraeth Cymru danysgrifennu £357 miliwn o fuddsoddiad preifat ar gyfer adeiladu'r CoW, oedd yn cynnwys cytundeb prydles ar gyfer y gylchffordd orffenedig.

**Gorffennaf 2016**

Gwrthododd Llywodraeth Cymru gais diwygiedig gan HoVDC i danysgrifennu £234 miliwn o fuddsoddiad preifat ar gyfer adeiladu'r CoW.

Ysgrifennodd Mr David TC Davies AS at yr Archwilydd Cyffredinol ac at Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn codi pryderon ynghylch sut yr oedd arian cyhoeddus a roddwyd i'r prosiect CoW efallai wedi cael ei ddefnyddio.

**2015 Awst**

Llwyfannwyd rownd Brydeinig pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd yn Silverstone gan y cwmnïau sy'n gysylltiedig â HoVDC.

**2016 Ionawr**

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr olaf o 22 o hawliadau tâl gan HoVDC o dan y cytundeb gwarantu benthyciad. O dan y trefniant hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo dros £6.5 miliwn o daliadau i gyflenwyr HoVDC (ac eithrio banc HoVDC), llawer ohonynt i gwmnïau perthynol, gan gynnwys bron i £1 miliwn i Aventa.

**2016 Mai**

Talodd Llywodraeth Cymru £7.335 miliwn i fanc HoVDC o dan gytundeb gwarantu benthyciad oherwydd na allai HoVDC ad-dalu'r benthyciad. Mae'r arian hwn i gyd, ynghyd â chostau ychwanegol, llog a thaliadau, yn ad-daladwy gan HoVDC i Lywodraeth Cymru ar gais.

**2016 Awst**

Ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol i Mr David TC Davies AS yn ei hysbysu y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflawni gwaith archwilio mewn ymateb i'w lythyr.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad llywodraethu a sicrwydd mewnol o'r prosesau gwneud penderfyniadau mewn ymateb i bryderon yr AS. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod ei mesurau rheoli mewnol, ar y cyfan, yn gadarn ond bod gwendidau wedi eu canfod gyda sut yr oedd wedi sicrhau y defnyddiwyd yr arian i'r pwrpas oedd mewn golwg, a diffyg tystiolaeth ei bod wedi sicrhau mesurau effeithiol i reoli'r gwahanol berthnasoedd lle gallai fod gwrthdaro budd.

**Medi 2016**

Llwyfannwyd rownd Brydeinig pencampwriaeth beiciau modur MotoGP y byd yn Silverstone gan gwmnïau cysylltiedig â HoVDC.

**Hydref 2016**

Aeth cwmni FTR Moto Ltd, sydd wedi'i berchnogi'n llwyr gan HoVDC ac a brynwyd gyda grant o £0.276 miliwn gan Lywodraeth Cymru, i ddwylo'r gweinyddwyr gyda dyledion o £0.5 miliwn.

**2017 Ionawr**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru derfyn amser o bythefnos i HoVDC i gyflwyno cynnig hyfyw y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ei gefnogi.

**Chwefror 2017**

Cyflwynodd HoVDC gynnig diwygiedig i Lywodraeth Cymru. Mae HoVDC o'r farn ei fod yn cwrdd â'r lefel 50% o fuddsoddiad cyllid preifat sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfanswm y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer cam dau yn £430 miliwn a gofynnodd HoVDC i Lywodraeth Cymru danysgrifennu £210 miliwn o'r buddsoddiad sector preifat hwn (48.8%) unwaith y cwblheir adeiladu'r gylchffordd.

# Atodiad 4 - Gohebiaeth rhwng Mr David TC Davies AS ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2016
Ein Cyf: G(1)/ld

Mr H Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9JL

Annwyl Mr Vaughan Thomas

**Ynghylch: Cylchffordd Cymru (CoW)**

Ysgrifennaf atoch i ofyn a wnewch ymchwilio, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, i'r cyllid sydd wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru i gwmni Heads of the Valleys Development Company (HOTVDC). Credaf fod yr arian i gyd, ar ffurf grant a benthyciadau, oddeutu £9m.

Mae gennyf nifer o bryderon ynghylch hyn ac rwyf wedi eu trafod yn uniongyrchol â'r unigolyn sydd y tu ôl i brosiect Cylchffordd Cymru. Cefais gyfarfod â Mr Michael Carrick, Prif Weithredwr Aventa Capital Partners, ar 8 Gorffennaf 2016 gan nodi ei ymateb yn ofalus. Ni chafodd fy mhryderon eu tawelu gan y drafodaeth a gawsom.

Cyflwynaf y pryderon hyn i chi ynghyd â'r camau y byddwch gobeithio'n ystyried eu cymryd:

**Arian wedi'i drosglwyddo rhwng cwmni Heads of the Valleys Development Company (HOTVDC) ac Aventa Capital Partners**

Cefndir: Mae HOTVDC wedi'i berchnogi'n llwyr bron gan Mr Michael Carrick gyda'r cyfranddaliadau yn uniongyrchol yn ei enw ef, a hefyd gan gwmni segur gyda'r cyfranddaliadau hynny hefyd yn ei enw. Mae Aventa Capital Partners Limited yn gwmni wedi'i berchnogi'n llwyr gan Mr Michael Carrick.

Mae arian wedi cael ei drosglwyddo o HOTVDC i Aventa. Dywedodd Mr Carrick wrthyf fod y symiau a drosglwyddwyd yn "£35,000 y mis dros y 18 mis diwethaf". Ychwanegodd fod y taliadau wedi dod i ben fis Ionawr diwethaf.

Felly mae cannoedd o filoedd o bunnau wedi eu symud o HOTVDC i Aventa. Gofynnais i Mr Carrick beth oedd pwrpas gwneud taliadau o HOTVDC i Aventa. Atebodd: “Mae ganddynt ffi gynghori. Mae trefniant cytundebol rhwng Heads of the Valleys ac Aventa Capital Partners am godi arian cyfalaf a rhoi cyngor ariannol.”

Rwyf yn poeni bod cwmni sy’n derbyn arian cyhoeddus yn trosglwyddo symiau mawr o arian i gwmni preifat am gyngor, er bod y cwmni sy’n derbyn yr arian (Aventa) yn cael ei redeg gan yr un unigolyn.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru sefydlu:**

- **Faint o arian yn gyfangwbl sydd wedi’i dalu gan HOTVDC i Aventa;**
- **Pwrpas y taliadau hyn;**
- **Ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd gan Aventa i HOTVDC ac a oedd hyn yn rhoi gwerth am arian i’r trethdalwr.**

**Cyllid gwleidyddol**

Mae Aventa Capital Partners wedi gwario miloedd o bunnau’n ariannu amrywiol ddigwyddiadau gan y Blaid Lafur. Rwyf wedi amgáu derbynebau am rai ohonynt (Atodiad A), er bod eraill hefyd fel yr wyf yn deall.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru sefydlu a ddefnyddiwyd unrhyw ran o’r taliadau a wnaed gan HOTVDC i Aventa i ariannu digwyddiadau gwleidyddol.**

Credaf fod gennym hawl i fod yn sicr nad yw arian cyhoeddus yn cael ei sianelu’n ôl i’r blaid wleidyddol sy’n rheoli Llywodraeth Cymru.

**Manteision personol**

Cafodd cyfres o anfonebau am waith garddio a thirlunio yng nghartref preifat Mr Carrick yn Sir Caergrawnt, cyfanswm o tua £35,000, eu cyflwyno i HOTVDC dros gyfnod o ddwy flynedd (Atodiad B).

Dywedodd Mr Carrick fod y biliau hyn wedi cael eu talu gan Aventa. Oherwydd bod y biliau wedi eu gwneud allan i HOTVDC, sy’n derbyn arian cyhoeddus, mae angen cadarnhau hyn yn annibynnol.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadarnhau na chafodd y biliau am arddio a thirlunio a wnaed allan i HOTVDC eu talu gan HOTVDC.**

Os yn wir y cafodd y biliau hyn eu talu gan Aventa, mae angen sicrhau'r cyhoedd na thalwyd y taliadau hyn gyda'r arian cyhoeddus a drosglwyddwyd o HOTVDC.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadarnhau os talwyd y biliau garddio gan Aventa, na chafodd y taliadau eu gwneud yn defnyddio arian a drosglwyddwyd i Aventa o HOTVDC.**

**FTR Moto**

Prynodd HOTVDC gwmni FTR Moto yn 2012. Dengys cyfrifon y cwmni ar wefan Tŷ'r Cwmnïau (Atodiad C) fod gan FTR Moto ddyledion heb eu talu o dros £400,000.

Gofynnais i Mr Carrick pam fod HOTVDC wedi prynu busnes beiciau modur oedd yn gwneud colled ac sy'n dal i wneud colled. Atebodd: "Bydd yn parhau i wneud colled tan y gwnawn iddo lwyddo"

Yna dechreuodd Mr Carrick roi eglurhad hir iawn oedd yn anodd ei ddilyn. Roedd yn ymddangos i fod yn awgrymu y gallai'r cwmni, sydd wedi'i leoli yn Swydd Buckingham, gael ei adleoli i safle Cylchffordd Cymru lle byddai beic modur Cymreig yn cael ei adeiladu, gan felly ddenu miloedd o bobl i Gymru.

Mae'n fy mhoeni y defnyddiwyd arian cyhoeddus i brynu busnes beiciau modur sy'n gwneud colled yn Lloegr ar sail tybio pe bai prosiect gwerth £380 miliwn yn mynd yn ei flaen, y byddai'r busnes yn ffynnu yng Nghymru. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd datblygiad Cylchffordd Cymru'n mynd yn ei flaen ac rwyf yn cwestiynu felly pam y defnyddiwyd arian cyhoeddus yn y ffordd hon.

Dywedodd Mr Carrick yn benodol fod y cwmni wedi'i brynu am "bris ei asedau". Fel y gwelwch o'r cyfrifon amgaeedig, dangosir y "pris asedau" i fod yn £14,997.

Mae gwefan Tŷ'r Cwmnïau yn dangos bod y cyfrifon blynyddol yn hwyr.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru:**

- **Sefydlu'r pris llawn a dalwyd am FTR Moto ac a oedd yn fwy na'r pris asedau;**
- **Sefydlu pam fod cwmni a brynwyd gydag arian cyhoeddus wedi methu â chyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau;**
- **Ymchwilio i'r pryniant hwn a sefydlu a yw'n rhoi gwerth am arian i drethdalwyr Cymru neu beidio.**

**MotoGP yn Silverstone**

Rwyf yn deall o amrywiol adroddiadau yn y wasg bod naill ai HOTVDC neu Circuit of Wales (cwmni arall wedi'i reoli gan Mr Carrick) wedi prynu'r hawliau i gynnal Pencampwriaeth MotoGP Prydain tan 2019, gydag estyniad posib tan 2024. Rwyf yn deall bod yr hawl i gynnal y digwyddiad hwn wedi'i phrynu gan Dorna Sports yn Sbaen. Hefyd, roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar dybiaeth gan Mr Carrick mai trac rasio Cylchffordd Cymru a fyddai'n llwyfannu'r digwyddiad.

Rwyf yn cael trafferth deall pam y defnyddiwyd arian cyhoeddus Cymru i brynu'r hawl i gynnal digwyddiad chwaraeon ar drac nad yw'r gwaith ar ei adeiladu hyd yn oed wedi cychwyn eto. O ganlyniad, bwriedir cynnal y digwyddiad yn Silverstone.

**Hoffwn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymchwilio i weld a yw defnyddio arian cyhoeddus i redeg digwyddiad rasio beiciau modur yn Lloegr o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru.**

**Crynodeb**

Hyd yma mae dros £9 miliwn o arian cyhoeddus wedi'i roi i HOTVDC mewn grantiau a benthyciadau. Yn dilyn hyn, bwriedir cynnal digwyddiad beiciau modur yn Silverstone, Lloegr; prynwyd cwmni beiciau modur sy'n gwneud colled a leolir yn Swydd Buckingham, Lloegr; ac mae cwmni wedi'i gysylltu i'r prosiect CoW wedi gwario miloedd o bunnau'n noddi digwyddiadau gan y Blaid Lafur a thalu am arddio a thirlunio mewn cartref moethus yn Swydd Gaergrawnt.

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymchwilio i brosiect cyfan Cylchffordd Cymru ac adrodd yn gyhoeddus ar sut y gwariwyd pob ceiniog o'r arian cyhoeddus a roddwyd iddo, ac a yw hyn yn darparu gwerth da am arian i'r trethdalwr.**

**Hoffwn ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ofyn i Lywodraeth Cymru atal unrhyw fenthyciadau pellach i HOTVDC ac i unrhyw gwmnïau sy'n gysylltiedig â Mr Carrick hyd nes y bydd ymchwiliad llawn wedi'i wneud a'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi.**

Yn gywir

**David T C Davies AS**

Cc: Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Mr David TC Davies AS
16 Maryport Street
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1AB

Dyddiad: 4 Awst 2016
Ein cyf: HVT/2594/fgb

Annwyl David

**CYLCHFFORDD CYMRU (COW)**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2016, yn codi ystod o faterion yn ymwneud â chwmni Heads of the Valleys Development Company (HoVDC), Aventa Capital Partners Limited ac arian cyhoeddus i brosiect arfaethedig 'Cylchffordd Cymru'.

Roeddech yn gofyn i mi ymchwilio i amrywiol bryderon penodol yr oeddech yn cyfeirio atynt yn eich llythyr (ac yn amgáu gwybodaeth i gefnogi'r pryderon hyn) a hefyd y dylwn gynnal archwiliad gwerth am arian ehangach o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei roi i gefnogi datblygiad prosiect Cylchffordd Cymru.

Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cadw briff gwylio agos ar gynnydd prosiect Cylchffordd Cymru, a rhan Llywodraeth Cymru yn y prosiect. Maen nhw hefyd yn monitro rhan y tri awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen) yn y prosiect. O ystyried maint y prosiect a'r cymorth arian cyhoeddus a allai gael ei roi pe bai'r pecyn ariannol yn cael ei roi mewn trefn, mae'n sicr yn bosib y byddaf yn penderfynu cynnal archwiliad gwerth am arian[1] nes ymlaen. Fodd bynnag, ni chredaf y byddai astudiaeth mor eang ei chwmpas yn ddefnydd priodol o fy adnoddau archwilio ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn Llywodraeth Cymru mis diwethaf wedi gofyn i HoVDC ailystyried ei gynigion am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Gan droi at y pryderon mwy penodol yr oeddech yn eu codi yn eich llythyr, roedd y rhain fel a ganlyn:

a) arian wedi'i drosglwyddo rhwng HoVDC ac Aventa Capital Partners;

b) y defnydd posib o arian cyhoeddus gan HoVDC / Aventa Capital Partners at ddibenion plaid wleidyddol;

c) y defnydd posib o arian cyhoeddus er mantais bersonol;

1 Byddai archwiliad gwerth am arian o'r cymorth arian cyhoeddus a roddwyd i brosiect 'Cylchffordd Cymru' yn cael ei wneud yn defnyddio fy mhwerau statudol dan: (i) GOWA 2006 yng nghyswllt Gweinidogion Cymru; a (ii) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yng nghyswllt llywodraeth leol.

ch) prynu FTR Moto Limited; a

d) prynu'r hawliau i gynnal Pencampwriaeth MotoGP Prydain.

Yng ngoleuni'r cwestiynau a godwch yn eich llythyr, credaf fod pwyntiau (a)-(ch) yn haeddu eu harchwilio ar hyn o bryd ac rwyf wedi gofyn i staff Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni'r gwaith yn unol â hynny. Maes o law, byddaf yn penderfynu natur fy adroddiad archwilio ar y materion hyn. Gallai hyn fod ar ffurf rhoi ymateb ysgrifenedig sylweddol ac uniongyrchol i chi. Fodd bynnag, os byddaf yn dod ar draws materion sy'n destun mwy o bryder, byddaf efallai'n dewis cyhoeddi adroddiad archwilio i'w ystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ran mater (d) uchod, credaf mai'r ffordd orau o roi sylw i hwn yw fel rhan o archwiliad gwerth am arian ehangach i'r arian cyhoeddus a roddwyd i brosiect Cylchffordd Cymru, felly rwyf am ohirio penderfyniad ar unrhyw waith archwilio posib ar y mater hwn tan nes ymlaen.

Yn olaf, nodaf ym mharagraff olaf eich llythyr eich bod yn gofyn i mi 'ofyn i Lywodraeth Cymru atal gwneud unrhyw fenthyciadau pellach i HoVDC…hyd nes y bydd ymchwiliad llawn wedi'i gyflawni a'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi'. Er fy mod yn deall y rhesymau y tu ôl i'ch cais, dylwn egluro y byddai'n amhriodol i mi geisio ymyrryd i atal ymarfer swyddogaethau Gweinidogol yn y ffordd yr awgrymwch.


Gobeithio fod yr ymateb cychwynnol hwn o gymorth i chi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd fy archwiliad o faterion (a)-(ch) wedi'i gwblhau. Er gwybodaeth, rwyf yn copïo Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y llythyr hwn, oherwydd cefais wybod gan y Clerc eich bod wedi ysgrifennu llythyr tebyg iawn at y Cadeirydd.

Yn gywir,

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

cc Mr Nick Ramsay AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Atodiad 5 - Strwythur cwmni prosiect Cylchffordd Cymru (CoW)




Ffynhonnell: HoVDC

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Department for Economy, Skills and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Vaughan Thomas,
Auditor General for Wales

18 May 2017

Dear Huw

**WELSH GOVERNMENT'S INITIAL FUNDING OF CIRCUIT OF WALES LTD**

Please find enclosed a copy of the Welsh Government's response to your recent report on the Welsh Government's initial funding of Circuit of Wales.

Of the 5 recommendations within this report I can confirm that we fully accept all 5.

Yours sincerely

**Mick McGuire**
Director, Sectors and Business

cc Cabinet Mailbox
PAC Mailbox
CGU Mailbox

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

**Public Accounts Committee – Circuit of Wales - Summary of Recommendations and Actions**

**Recommendation 1.**

Ensure that submissions to Welsh Ministers for decision approval include all information relevant to any items of proposed expenditure which may be novel, contentious or repercussive.

**Recommendation: Accepted**

We will reinforce the requirement for Directors and Deputy Directors to ensure all relevant information is included in Ministerial Advice that is considered novel, contentious or repercussive as part of the approval process.

**Recommendation: 2**.

Include within the Repayable Business Finance (RBF) application form a question asking whether any transactions involving RBF funds are to be conducted through related companies, and undertake robust due diligence in all cases where this is proposed.

**Recommendation: Accepted**

We have amended the RBF application form to include the related companies question and have put in place the protocol to undertake robust due diligence in relevant applications where this is proposed.

**Recommendation: 3**.

Ensure that the Welsh Industrial Development Advisory Board (WIDAB) is informed about all other Welsh Government support to a project that it is asked to consider, whether or not that support has yet been approved.

**Recommendation: Accepted**

We will reinforce the requirement for Business Development Teams to include all other Welsh Government support to a project, whether approved or not, in the formal case-paper presentation to WIDAB

**Recommendation: 4**.

Record and retain a note of all discussions between Welsh Government officials and funding applicants in relation to determination of items which are/are not to be included within approved expenditure.

**Recommendation: Accepted**

We will remind Business Development Managers that discussions with applicants surrounding eligible and approved expenditure must be minuted or noted.

**Recommendation: 5**.

Strengthen the process by which project claims are checked, authorised and passed for payment, to ensure that appropriate separation of duties is maintained.

**Recommendation: Accepted**

We will review the current process in which project claims are checked, authorised and passed for payment and strengthen the areas that could weaken the separation of duties.

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddPAC@Assembly.Wales

16 Mehefin 2017

Annwyl Mr Ramsay

Rwyf wedi cael gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhelir am 2pm, 26 Mehefin pan fydd yn ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am gynlluniau ariannu cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cylchffordd Cymru. Gofynnwyd imi baratoi papur am sefyllfa ddiweddara'r prosiect, hynny cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor.

Mae Cylchffordd Cymru wedi bod yn brosiect cymhleth sydd wedi bod yn symud yn gyflym a chyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r cabinet yn penderfynu arno erbyn diwedd y mis.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith Ddatganiad Ysgrifenedig ar 17 Mai yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cael erbyn hyn yr holl wybodaeth roedd wedi gofyn i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC) amdani. Ers hynny, mae swyddogion wedi bod yn ystyried gwybodaeth HOVDC yn fanwl ac wedi cynnal proses diwydrwydd dyladwy drylwyr ar y cynnig ei hun, yn ogystal ag mewn cysylltiad â chyfarwyddwyr y prosiect.

Fel y gwyddoch, mae'r broses diwydrwydd dyladwy yn rhan bwysig o'r penderfyniad a ddylid cyllido'r prosiect ai peidio. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn falch o glywed ein bod yn manteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod yna gynllun busnes cynaliadwy a chadarn yn ei le er mwyn diogelu buddiannau'r trethdalwr ac i sicrhau bod y risg yn cael ei rannu'n deg rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus.

Ni fyddai'n briodol rhoi mwy o wybodaeth am y prosiect i'r Pwyllgor ei hystyried cyn bod y broses diwydrwydd dyladwy yn cael ei chynnal yn briodol, na chyn i'r Cabinet ystyried y prosiect.

Yn gywir

James Price

**James Price**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddPAC@Assembly.Wales

21 Mehefin 2017

Annwyl Mr Ramsay

Rwyf wedi cael gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin pan fydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am yr arian cyntaf a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Gylchffordd Cymru.

Mae'n drueni gorfod rhoi gwybod ichi na fydd Mr Mick McGuire na Mr Chris Munday yn gallu ymuno â fi yn y sesiwn ar 26 Mehefin. Mae Cylchffordd Cymru yn brosiect byw, ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd y Cabinet yn penderfynu arno cyn diwedd mis Mehefin. O gofio hynny, rwy'n siwr y gwnewch chi werthfawrogi mai blaenoriaeth Mr McGuire a Mr Munday fydd sicrhau bod y broses diwydrwydd dyladwy drylwyr a'r gwaith cysylltiedig yn cael eu cwblhau fel bod gan y Cabinet yr wybodaeth gywir i allu ystyried y prosiect yn fanwl ac i seilio'i benderfyniadau arni.

Yn hytrach, rwy'n cynnig bod Mrs Tracey Mayes, Pennaeth Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth fy Ngrŵp yn dod gyda mi. Mae Mrs Mayes yn deall agweddau technegol cynllun ariannu cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cylchffordd Cymru.

Dylwn gadarnhau hefyd, gan na fydd y Cabinet wedi penderfynu ar brosiect Cylchffordd Cymru cyn imi fynd i'r Pwyllgor, ni chaf gynnig sylw ar unrhyw agwedd ar y cynnig.

Rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnig hwn.

Yn gywir

James Price

**James Price**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

James Price
Deputy Permanent Secretary, Economy, Skills and
Natural Resources Group
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

21 June 2017

Dear James,

**Public Accounts Committee – Circuit of Wales**

I am replying to your letter of today's date.

I am very disappointed that your senior officials involved in the Circuit of Wales are unable to attend the Public Accounts Committee meeting on 26 June. This session has been scheduled since 12 May following publication of the Auditor General for Wales's report – the Welsh Government's initial funding of the Circuit of Wales –project on 24 April.

I am surprised that Mr McGuire and Mr Munday would still be completing the due diligence process the day before Cabinet are considering the project, as announced by the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure during questions in plenary this afternoon.

I have spoken to Committee Members and the majority view is that we continue with the session as planned. However, I am writing to ask that you can strongly reconsider the decision not to bring Mr McGuire and Mr Munday and release the witnesses to attend Committee as scheduled. The Committee have also requested that Mr McGuire and Mr Munday make themselves to available to the Committee for one of our scheduled meetings in July if there are any outstanding questions, and we understand that they have no availability for the proposed dates which we find unacceptable.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

I am copying this letter to Public Accounts Committee Members and the Permanent Secretary.

Yours sincerely,



**Nick Ramsay AM**
**Chair**

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddPAC@Assembly.Wales

23 Mehefin 2017

Annwyl Mr Ramsay

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mehefin a'ch cais imi ailystyried fy mhenderfyniad o ran y rhai a fydd yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin.

Rwy'n llwyr sylweddoli fod gan y Pwyllgor deimladau cryf iawn ar y mater ac rwyf wedi pwyso a mesur cynnwys eich llythyr yn ofalus.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer yr agwedd hon ar wariant Llywodraeth Cymru, fy nyletswydd yw sicrhau bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cael pob cymorth gan Lywodraeth Cymru ac yn cael yr wybodaeth a'r dystiolaeth briodol i'w helpu i ystyried y mater dan sylw. Serch hynny, fel Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, mae hefyd yn ddyletswydd arnaf sicrhau bod y Prif Weinidog a'r Cabinet yn cael cymaint o gefnogaeth â phosibl wrth iddynt baratoi ar gyfer gwneud y penderfyniad pwysig hwn.

O dan yr amgylchiadau, felly, rwy'n ei gweld yn bwysig i Mick McGuire a Chris Munday roi eu sylw yn llawn ddydd Llun i wneud y paratoadau terfynol ar gyfer trafodaeth y Cabinet, sydd i ddigwydd trannoeth eich cyfarfod. Teimlaf mai'r ffordd orau imi roi i'r Pwyllgor y dystiolaeth y mae yn gwbl deg wedi gwneud cais amdani yw trwy sicrhau fy mod i ar gael fy hunan i fynychu'r cyfarfod, a chan ddod â Mrs Tracey Mayes gyda mi i'r cyfarfod, gan fod ganddi ddealltwriaeth fanwl o'r amgylchiadau sy'n destun adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Fy ngobaith wrth wneud hyn yw y gallaf gyflawni fy nwy swyddogaeth o dan yr amgylchiadau hyn.

Rwyf wedi trafod cynnwys y llythyr hwn gyda'r Ysgrifennydd Parhaol.

Yn gywir

James Price

**James Price**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

James Price
Deputy Permanent Secretary, Economy, Skills and
Natural Resources Group
Welsh Government
Cathays Park Cardiff CF10 3NQ

23 June 2017

**Public Accounts Committee – Circuit of Wales**

Dear James,

I am replying to your letter of today's date. I am very disappointed that you have maintained your decision that Mr McGuire and Mr Munday will not attend a meeting of the Public Accounts Committee on Monday 26 June 2017.

I am very concerned that without their attendance on Monday the Committee's questions on this important matter will not be answered.

As such I request that Mr McGuire and Mr Munday attend a meeting of the Committee, to discuss this matter, when they are available. I think it is essential that such a meeting takes place before summer recess.

It is clear that Mr McGuire and Mr Munday were heavily involved in the Circuit of Wales project. In the interests of openness and thorough scrutiny, it is essential that the Committee has the opportunity to explore in detail the issues contained within the Auditor Generals report with them directly. I believe the offer of responding to any unanswered questions in writing at a later date is unacceptable as this prevents the Committee from exploring issues in detail and being able to ask supplementary questions.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

I would be grateful if you could liaise with the Committee Clerks to identify a suitable date for when they can attend.

Yours sincerely,

**Nick Ramsay AM**
**Chair**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: NRW17-051

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4444

Mr Nick Ramsay AM
Chair
National Assembly for Wales Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

1 June 2017

Dear Nick,

**Public Accounts Committee 22 May 2017 - Performance Comparison**

At the Public Accounts Committee meeting on 22 May we agreed to send an update on our performance and include a year-on-year comparison to enable the Committee to assess trends in performance.

An annex is attached which highlights the change in indicators and measures used on our 2015/16 and 2016/17 Dashboards.

The key points of year-on-year comparison are as follows:

- The 2016/17 performance has been updated to reflect the year end (31 March 2017) position; previously year to 30 November 2016 had been provided.
- There are a similar number of performance exceptions (red or amber measures) in 2016/17 as in 2015/16, albeit on a smaller dashboard. Overall there were two fewer reds, and three more amber measures (12).
- Indicators are generally concerned with tracking longer term trends (some within NRW and some within Wales). Some of the indicators lend themselves to performance ratings, others do not.
    - We have 24 indicators which were set in our Corporate Plan 2014-17 and they have remained the same for the life of that plan (9 of these appear on our 2015/16 and 2016/17 dashboards).
- Measures relate to NRW performance, specifically the delivery of our annual Business Plans.

    - We had 24 measures in our 2016/17 dashboard. These have red/amber/green performance ratings. These measures vary in number and content from year to year depending on our Business Plan
- Measure and indicator continuity on the dashboard:
    - Most measures and indicators (29) were carried through in some form from 2015/16 to 2016/17.
    - We removed some measures (12) - these were either covered by indicators, time limited (such as implementing our Strategic Equality Plan), or tracked elsewhere within NRW (such as making flood risk information available)
    - We added some new measures (7) - to reflect new Business Plan deliverables (such as developing our approach to Area statements)

I hope this explains the position. Please do not hesitate to get in touch should further information be required.

Yours sincerely,

**Emyr Roberts**

**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Annex: Year-on-year comparison



www.naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon